

Darparu gwasanaethau
addysg yng Nghymru
yn y dyfodol

Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol

Adolygiad gan Robert Hill Consulting 2013

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Tîm Ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad o Wasanaethau Addysg
yng Nghymru
Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: educationservicereview@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn
www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Cynnwys

Rhagair	1
Pennod 1: Crynodeb Gweithredol	5
Pennod 2: Opsiynau ar gyfer gwella addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth	17
Pennod 3: Opsiynau ar gyfer cryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion	38
Pennod 4: Opsiynau ar gyfer meithrin rhagor o bartneriaethau rhwng ysgolion o fewn cyd-destun sy'n cynnig rhagor o annibyniaeth	57
Pennod 5: Gwella atebolrwydd	80
Pennod 6: Opsiynau ar gyfer trefnu swyddogaethau gwella ysgolion	96
Cyfeiriadau	121
Atodiad A: Cylch gorchwyl – darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol	124
Atodiad B: Llythyr at y rhanddeiliaid	128
Atodiad C: Rhestr o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad	130
Atodiad D: Rhestr o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy	132
Atodiad E: Rhestr o gyfarfodydd a chyfweliadau ag unigolion a sefydliadau	133

Rhagair

Wrth imi deithio o gwmpas Cymru, mae'r cydymrwymiad i wella safonau addysg yma wedi creu argraff arnaf. Mae athrawon, arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr a phawb sy'n cefnogi gwella ysgolion yn awyddus i deimlo'n falch o lwyddiannau ysgolion Cymru. Mae un neges e-bost a gefais gan bennaeth yn crisialu'r ysbryd cydweithredol hwn:

'Mae'n bleser gen i gael eich cefnogi mewn unrhyw ffordd bosibl, gan fy mod i'n llawn gefnogi'r hyn rydych yn ei wneud ac rwy'n gwybod mai dyma'r ffordd iawn ymlaen i addysg yng Nghymru.'

Mae hon yn foment allweddol ar y daith i wella ysgolion Cymru. Mae gwaith eithriadol i'w weld mewn ambell ran o'r system ond mae'r perfformiad yn wael mewn rhannau eraill. Drwyddi draw, mae'n debyg y gellid dweud mai gweddol yw'r system. Mae llawer o'r rheini sy'n rhan ohoni'n sylweddoli bod angen newid ac maent am fod ar flaen y gad yn gwella deilliannau a chyfleoedd mewn bywyd i bobl ifanc yng Nghymru. Maent am weld llwybr a fydd yn tywys ysgolion Cymru i lefel lle y cânt eu canmol am fod yn rhan o system ragorol. Gobeithio y gwnaiff yr adroddiad hwn a'r opsiynau yr wyf wedi'u cynnig, gyfrannu at wireddu'r amcan hwnnw.

Diwygiadau blaenorol

Mae fy adroddiad yn adeiladu ar waith diwygio blaenorol. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, y Rhaglen Gwella Ysgolion ac '20 blaenoriaeth' y Gweinidog Addysg a Sgiliau i fynd i'r afael â thanberfformio, wedi gosod y sylfeini hanfodol ar gyfer bwrw ymlaen â chwyldroi addysg yng Nghymru. Y Rhaglenni Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol, cynlluniau'r Gymraeg mewn Addysg, hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr, rhoi'r plattform dysgu digidol ar waith, cyflwyno rhaglen gradd Meistr i athrawon sydd newydd gymhwyso, diwygio'r cymhwyster ar gyfer prifathrawiaeth a chreu'r Uned Safonau Ysgolion a Chyflawni – dyna ond ychydig o'r lluo o newidiadau sydd wedi'u rhoi ar waith. Yn benodol, un o'r prif sbardunau sydd wedi creu momentwm ehangach ar gyfer diwygio a gwella yw bod y Gweinidog yn benderfynol o weld system addysg Cymru yn wynebu ei gwendidau.

Rwyf hefyd wedi gallu manteisio ar waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol, o dan gadeiryddiaeth Vivian Thomas, ar strwythur gwasanaethau addysg Cymru. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Mawrth 2011 ac roedd ei ddadansoddiad a'i gasgliadau'n cynnig meincnod hollbwysig imi er mwyn gallu asesu'r cynnydd dros y ddwy flynedd diwethaf.

Y broses adolygu

Roedd cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yn un eang (gweler Atodiad A). Rwyf wedi ceisio mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd gan y Gweinidog, ond gan ganolbwyntio'r sylw'n bennaf ar addysgu a dysgu effeithiol mewn ysgolion – gan gynnwys addysgu yn

Gymraeg. Rwyf wedi cynnig sylwadau am y Cyfnod Sylfaen a'r cyfnod ôl-16 lle bo hynny'n berthnasol i fater a drafodir ac wedi cynnig opsiynau ar eu cyfer. Felly, er enghraifft, rwy'n cynnig y dylid cadarnhau cylch gwaith pob consortiwm rhanbarthol i gynnwys darparu cymorth ar gyfer gwella deilliannau yn y meysydd hyn. At hynny, rwyf wedi cynnig newidiadau i'r dulliau mesur perfformiad a ddefnyddir ar gyfer darparwyr ôl-16 ac wedi agor y drws ar y posibilrwydd y gallai colegau addysg bellach chwarae mwy o ran mewn partneriaethau ffurfiol rhwng ysgolion.

Ar ddechrau'r adolygiad, gwahoddais sylwadau ynghylch tri chwestiwn (gweler y llythyr ymgynghori llawn yn Atodiad B):

pa gamau fyddai'n gwneud y cyfraniad mwyaf o ran gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob ystafell ddosbarth yn ysgolion Cymru?

pa gamau y dylid eu cymryd i alluogi, grymuso ac arfogi arweinwyr ysgolion yng Nghymru i arwain gwelliannau sylweddol a chynaliadwy i'r system ysgolion?

sut orau y mae dal ysgolion yng Nghymru i gyfrif a'u cynorthwyo i wella'r deilliannau i blant a phobl ifanc?

Cefais 30 o ymatebion ac fe restrir yr ymatebwyr yn Atodiad C. Rwy'n ddiolchgar i bob unigolyn a sefydliad a roddodd o'i amser a'i ymdrech i gyflwyno'u sylwadau. Bu'r sylwadau hyn yn gymorth imi ddeall dyheadau a rhwystredigaethau'r rheini sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru ac roeddent yn cynnig gwrthbwynt i'r deunydd dadansoddol a roddwyd imi gan Lywodraeth Cymru. Mae fy adroddiad yn cyfeirio at nifer o'r sylwadau a'r syniadau a gyflwynwyd.

Cefais y fraint hefyd o ymweld ag 20 o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig ledled Cymru i glywed o lygad y ffynnon am y cynnydd a oedd ar waith. Rwyf wedi cynnwys astudiaethau achos byr am rai o'r ysgolion hyn yn fy adroddiad. Soniodd arweinwyr ysgolion wrthyf hefyd am eu rhwystredigaeth â'r ffordd yr oedd y system yn gweithio ar hyn o bryd gan roi syniadau imi ynghylch sut y gellid eu cynorthwyo'n well wrth iddynt fynd ati i wella'u cyflawni. Rhoddir rhestr lawn o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn Atodiad D.

Y ffynhonnell dystiolaeth anhepgor arall oedd y cyfarfodydd (ac, ambell waith, y cyfweiliadau dros y ffôn) gydag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau. Rhestrir y rhain yn Atodiad E ond maent yn cynnwys undebau llafur yr athrawon, arweinwyr awdurdodau lleol, swyddogion yn yr Adran Addysg a Sgiliau, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi, cyfarwyddwyr addysg, cynrychiolwyr llywodraethwyr, arweinwyr y consortia rhanbarthol ac yn olaf, ond nid lleiaf o bell ffordd, llefarwyr addysg y pleidiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad Cenedlaethol. Rwy'n ddiolchgar i bawb a drefnodd i fod yn rhydd i'm gweld ac a rannodd eu dadansoddiad a'u syniadau â mi. Wrth gwrs, fy marn i a fynegir yn yr adroddiad, nid eu barn hwy.

Strwythur yr adroddiad hwn

Rwyf wedi trefnu'r adroddiad hwn yn chwe phennod.

Ym Mhennod 1, ceir crynodeb gweithredol. Mae'n cynnig golwg gyffredinol ar y prif themâu ac mae'n crynhoi'r opsiynau wedi'u grwpio'n ddau gategori: opsiynau tymor byr ar gyfer y dyfodol agos; ac opsiynau tymor canolig.

Ym Mhennod 2, sonnir am yr hyn y mae angen ei wneud i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Ym Mhennod 3, ystyrir yr opsiynau ar gyfer cryfhau datblygiad a rôl arweinwyr ysgolion yn y system addysg.

Ym Mhennod 4, rhestrir yr opsiynau ar gyfer cryfhau annibyniaeth ysgolion, gan gynnwys opsiynau sy'n ymwneud ag ariannu. Cyd-destun hyn yw bod llawer mwy o ysgolion yn cydweithio drwy bartneriaethau ffurfiol megis ffederasiynau, ymddiriedolaethau a threfniadau eraill, gan gynnwys clystyrau caled.

Ym Mhennod 5, rhoddir opsiynau ar gyfer diwygio system atebolrwydd ysgolion, gan egluro pwy sy'n gyfrifol am beth.

Ym Mhennod 6, ymdrinnir â rolau a chyfrifoldebau'r awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol a'r llywodraeth genedlaethol. Dyma'r maes lle mae'r brys mwyaf o ran bod angen penderfynu ynghylch yr opsiynau a restrais ar gyfer diwygio, a gweithredu arnynt. Wrth ysgrifennu'r bennod hon, rwyf wedi cadw mewn cof benderfyniad Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad mwy cyffredinol ar drefniadau llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Diolchiadau

Mae llawer o bobl wedi fy helpu gyda'r adolygiad hwn. Hoffwn ddiolch yn benodol i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am fy annog i fynd i ba le bynnag yr oedd y dystiolaeth yn fy nhywys, ac i gynnig yr opsiynau a oedd yn iawn i Gymru yn fy marn i. Yn ogystal â hynny, mae tîm y gwasanaeth sifil, sef Sarah Corfield, Julie Webster ac, yn benodol, Neil Welsh, sydd wedi fy ngyrru gannoedd lawer o filltiroedd, wedi bod yn gefn aruthrol imi. Mae Steve Vincent wedi bod yn dywysydd amhrisiadwy wrth imi lywio fy ffordd o gwmpas system addysg Cymru.

I gloi

Ar ddiwedd yr adroddiad, rwy'n awgrymu prawf y gellid ei ddefnyddio i weld pa mor werthfawr fu'r ymarfer adolygu hwn. Awgrymaf na ddylid holi a yw holl opsiynau'r adroddiad hwn yn cael eu mabwysiadu neu beidio. Credaf y bydd yr adolygiad wedi bod yn werth ei gynnal os bydd yn creu dealltwriaeth eglurach ymhlith athrawon, arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a llunwyr polisïau'r llywodraeth, ynghylch sut mae gwella addysgu a dysgu a chodi safonau mewn

ystafelloedd dosbarth yng Nghymru. Os bydd yn llwyddo i wneud hynny, ac os bydd ewyllys ar y cyd i droi'r ymdeimlad hwnnw'n weithredu, yna, ni fydd terfyn ar y gwella nac ar y cynnydd a wneir gan ysgolion a phobl ifanc ledled Cymru.

Robert Hill, Ebrill 2013

Pennod 1: Crynodeb gweithredol

Gwella addysgu a dysgu

Yr unig ffordd o wella safonau cyflawni ysgolion Cymru yw gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Ansawdd yr addysgu sy'n cael y dylanwad cryfaf ar gyflawniad disgyblion o fewn yr ysgol.

Yr hanes hyd yn hyn

Mae pethau'n gwella. Yn 2012, dangosodd canlyniadau profion ac arholiadau pobl ifanc 11 ac 15 oed fod pethau'n gwella'n barhaus, a defnyddio'r meincnodau allweddol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Gwelwyd y bwlch yn cau fymryn rhwng perfformiad plant yng Nghymru a phlant yn Lloegr, o'i fesur yn ôl y gyfran sy'n llwyddo i gael pum TGAU da, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg – a hynny hyd yn oed cyn ailraddio papurau arholiad TGAU Saesneg yng Nghymru.

Er gwaethaf y cynnydd, erys heriau sylweddol iawn o hyd. Mae bwlch sylweddol yn dal i fod rhwng perfformiad disgyblion yng Nghymru a'u cyfoedion yn Lloegr o ran TGAU a Safon Uwch. Mae perfformiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cael prydau am ddim yn yr ysgol 33 pwynt canran yn is na pherfformiad eu cyfoedion nad ydynt yn cael prydau am ddim.

Dywed Estyn fod angen ymweliad dilynol ar oddeutu hanner yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd ar ôl arolygiad. Mae Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi wedi sôn am broblemau sylweddol o ran ysgrifennu, ffoneg ac ansawdd addysgu'r Gymraeg. Mae angen codi safonau rhifedd mewn tua chwarter yr ysgolion cynradd ac mae'r cynllunio ar gyfer dilyniant mewn sgiliau mathemategol yn wan mewn hanner yr ysgolion uwchradd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i wella'r addysgu a'r dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys cynnig cymhellion newydd i ddenu'r graddedigion gorau i fod yn athrawon, safonau uwch i'r rheini sy'n hyfforddi i fod yn athrawon, a rhaglen Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol i athrawon sydd newydd gymhwyso.

Ar gyfer y rheini sy'n athrawon eisoes, mae rhagor o gymorth yn cael ei ddarparu ar ffurf hyfforddiant ac adnoddau, a hynny i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd, lansiwyd Hwb, platfform dysgu digidol Cymru gyfan, trefnwyd i ddarparwyr arbenigol helpu ysgolion uwchradd i wella cyrhaeddiad mewn TGAU Saesneg a mathemateg a chyflwynwyd rhaglenni i wella safonau addysgu'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith. Dynodwyd un ar hugain o ysgolion yn Ymarferwyr Arweiniol er mwyn i ysgolion ardderchog allu cynorthwyo'r rheini sy'n cael trafferth.

Opsiynau ar gyfer y dyfodol

Mae angen ymdrechu rhagor i ddenu'r graddedigion gorau i fod yn athrawon ac mae angen cysylltu hyfforddiant i athrawon newydd â datblygiad proffesiynol y rheini sy'n athrawon eisoes – er enghraifft, mae angen i'r addysg gychwynnol i athrawon sicrhau eu bod yn llwyr ddeall y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.

Rhaid i ysgolion ysgwyddo'r cyfrifoldeb am wella eu hunain a meithrin diwylliant o ystafelloedd dosbarth agored lle y gall athrawon arsylwi a dysgu o arferion ei gilydd, a bod hynny'n rhan o'r patrwm arferol. Ni ddylai rôl arweinwyr ysgolion ganolbwyntio ar gyfarfodydd a gweinyddu ond ar roi cyfarwyddyd a chefnogaeth ar gyfer gwella yn yr ystafell ddosbarth.

Dylai rhaglenni datblygu proffesiynol gael eu seilio fwyfwy ar goetsio sy'n gwella'r ymarfer yn yr ystafell ddosbarth, yn hytrach nag ar anfon pobl ar gyrsiau hyfforddi. Dylai cydweithio rhwng ysgolion ddod yn norm lle bydd ysgolion ac athrawon yn cydweithredu i rannu cynllunio gwersi, astudio gwersi, dilyn troeon dysgu a defnyddio dulliau ymchwil weithredol eraill.

Opsiynau allweddol yn y tymor byr	Opsiynau allweddol yn y tymor canolig
<p>Defnyddio cynlluniau gwaith o ansawdd da gan ysgolion ardderchog i helpu ysgolion gwannach i gynllunio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'i roi ar waith.</p> <p>Sicrhau bod ystod ddigonol o ddeunyddiau ac adnoddau Cymraeg ar gael a fydd yn gymorth i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith ar draws y cwricwlwm.</p> <p>Sicrhau bod hyfforddiant llythrennedd a rhifedd yn canolbwyntio ar wella'r addysgu yn yr ystafell ddosbarth, gan gynnwys dulliau addysgu effeithiol ar gyfer ffoneg, cynlluniau gwella darllen, sgiliau ysgrifennu a rhifedd a bod y ddarpariaeth yn cael ei chydlynu'n glos gyda'r consortia rhanbarthol.</p> <p>Cyflwyno system dracio safonol ar gyfer llythrennedd a rhifedd i bob disgybl ym Mlynnyddoedd 2 i 9 ledled Cymru.</p> <p>Sicrhau bod y rhaglen Athrawon sy'n Gwella a'r rhaglen Athrawon Rhagorol yn cael eu defnyddio'n helaeth.</p> <p>Sefydlu rhestr wedi'i chymeradwyo'n</p>	<p>Cynyddu nifer yr athrawon a hyfforddir ac a roddir ar waith mewn partneriaeth â Teach First.</p> <p>Ehangu'r llwybrau ar sail cyflogaeth ac ar sail ysgolion sydd ar gael i ddarpar athrawon, wrth i ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol, ffederasiynau a chlystyrau ddatblygu.</p> <p>Wrth adolygu'r cwricwlwm yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 4, sicrhau bod y cwricwlwm yn blaenoriaethu meysydd gwybodaeth a sgiliau allweddol.</p> <p>Ehangu'r defnydd o dechnoleg fideo i gefnogi coetsio yn yr ystafell ddosbarth.</p> <p>Gwahodd yr adolygiad o addysgu Cymraeg ail iaith, sydd eisoes ar y gweill, i ystyried:</p> <p>estyn y defnydd o grwpiau trochi a secondiadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn hybu sgiliau iaith athrawon sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith a ddylai sgiliau gweithredol yn y Gymraeg fod yn rhan o'r gofyniad craidd.</p> <p>Cynyddu nifer yr ysgolion sy'n Ymarferwyr</p>

<p>genedlaethol o ysgolion yng Nghymru a thu hwnt a fydd yn cynnig cymorth yn yr ystafell ddosbarth a chymorth ar lefel ysgol gyfan, gan drefnu bod y rhestr honno ar gael i'w defnyddio gan gonsortia ac ysgolion.</p> <p>Hyrwyddo Pecyn Cymorth Addysgu a Dysgu y Sutton Trust-Education Endowment Foundation sy'n ceisio cau'r bylchau cyflawni a'i gysylltu â defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion.</p> <p>Dynodi a hyfforddi Ymarferwyr Arweiniol ac adrannau sy'n Ymarferwyr Arweiniol er mwyn sicrhau bod sgiliau'r athrawon gorau'n cael eu defnyddio hyd yr eithaf.</p>	<p>Arweiniol heb beryglu eu hansawdd, a sicrhau bod ysgolion arbennig ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn chwarae rhan lawn yn y rhaglen.</p> <p>Dirprwyo adnoddau awdurdodau lleol i ffederasiynau a chlystyrau caled o ysgolion (sy'n cynnwys ysgolion arbennig sy'n Ymarferwyr Arweiniol) er mwyn iddynt fod yn gyfrifol am wasanaethau lles addysg ac am ddarparu ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Defnyddio arolygiadau Estyn i asesu pa mor dda y mae ysgolion yn defnyddio arian y Grant Amddifadedd Disgyblion ac yn cau'r bylchau cyflawni.</p>
--	--

Cryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion

Dim ond addysgu sy'n bwysicach nag ansawdd yr arweinyddiaeth mewn ysgolion o ran y dylanwad a gaiff ar ddeilliannau myfyrwyr. Mae gan Gymru nifer o arweinwyr gwych yn ei hysgolion ond nid yw'n eu defnyddio i'r graddau y dylai – ac nid oes digon ohonynt ychwaith.

Yr hanes hyd yn hyn

Yn ei adroddiad yn 2011/12, barn Estyn oedd bod arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion yn 'rhagorol' mewn un o bob pump ysgol uwchradd – er nad oedd ond yn 'ddigonol' neu'n 'anfodddhaol' mewn dwy o bob pump. Y ffigur cyfatebol ar gyfer ysgolion cynradd oedd dim ond 6 y cant – er mai'r farn oedd bod arweinyddiaeth mewn tri chwarter yr ysgolion cynradd yn 'dda'. Nid oedd uwch arweinwyr ysgolion cynradd yn canolbwyntio'n ddigonol ar safonau disgyblion ac nid oeddent yn mynd ati'n ddigon cadarn i fynd i'r afael ag addysgu diddrwg didda ac addysgu nad yw ond prin yn ddigonol. Mewn tair o bob pump ysgol uwchradd, gwelwyd nad oedd arweinwyr ysgolion yn canolbwyntio'n ddigonol ar yr effaith a gaiff addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) wedi'i ailwampio ac ers mis Medi 2011, mae wedi cael ei ddyfarnu ar sail asesu ymarfer ymgeiswyr yn ôl Safonau Arweinyddiaeth sy'n cael eu pennu'n genedlaethol. Fodd bynnag, mae cadernid y cymhwyster yn destun pryder o hyd, ac fe ategir hynny gan y ffaith nad oes llwybr dilyniant clir ar gyfer arweinyddiaeth na dim rhaglenni datblygu a hyfforddi sydd wedi'u comisiynu'n genedlaethol, ac sy'n gysylltiedig â'r Safonau Arweinyddiaeth cenedlaethol. Yn benodol, mae'n werth sylwi nad oes rhaglen datblygu proffesiynol strwythuredig na cymhwyster ar gael ar gyfer arweinwyr canol mewn ysgolion.

Mae'r diffyg cefnogaeth i'r sawl sy'n awyddus i fod yn arweinwyr ac i ddarpar arweinwyr yn fwy difrifol byth oherwydd bod arweinwyr yn dod yn benaethiaid yn rhy hwyr yn eu gyrfa broffesiynol ac fe ddisgwylir i oddeutu traean o'r penaethiaid presennol ymddeol yn ystod y 5 i 10 mlynedd nesaf.

Ychydig o raglenni sydd ar gael i gynorthwyo penaethiaid sydd yn gwneud y swydd eisoes, er bod gwerth mawr yn cael ei roi ar gynllun arolygu-gan-gymheiriaid Estyn. Mae hwnnw'n rhoi cyfle i ddirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol, yn ogystal â phenaethiaid, fod yn aelodau llawn o dîm arolygu.

Mae cyflwyno Ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a'r twf yn nifer y penaethiaid gweithredol, yn gamau pwysig ymlaen o ran datblygu cyd-gymorth rhwng ysgolion. Fodd bynnag, mae diffyg difrifol o ran datblygu arweinwyr gweithredol ac arweinyddiaeth ar y cyd rhwng ysgolion. Nid yw defnyddio'r ysgolion gorau i arwain a chynorthwyo ysgolion gwannach a grymuso ysgolion i rannu arbenigedd a gwella gyda'i gilydd yn norm o bell ffordd.

Opsiynau ar gyfer y dyfodol

Dylid gweld athrawon yn arweinwyr o ddechrau eu gyrfa. P'un ai a ydynt yn arwain y dysgu yn yr ystafell ddosbarth, yn arweinwyr canol ynteu'n awyddus i ddod yn uwch arweinwyr, dylai athrawon fod yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael iddynt o ran rhoi eu rolau arwain ar waith a gwybod sut y gallant gamu ymlaen i ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau arwain.

Dylid sefydlu rhaglenni i gynorthwyo a datblygu arweinwyr yn ystod pob cam o'u gyrfa. Dylai'r rhaglenni hyn gyfuno hyfforddiant achrededig ffurfiol a thasgau gwella ymarferol ar lefel ysgol gyfan, ymgymryd â chyfrifoldebau arwain mewn ysgol wahanol a chael eu coetsio gan bennaeth profiadol.

Dylid ailgynllunio strwythur y cymhwyster arweinyddiaeth er mwyn iddo fod yn gymhwyster camu ymlaen tuag at ddod yn bennaeth a dylid gwneud y CPCP yn ben draw proses datblygu. Dylai'r sawl sy'n benaethiaid eisoes allu manteisio ar gyfleoedd datblygu a dylai fod cymorth ar gael iddynt arwain gwelliannau ar lefel ysgol gyfan. Dylid grymuso arweinwyr ysgolion i chwarae rhan allweddol o ran datblygu strategaeth arweinyddiaeth yr ysgol a'i rhoi ar waith.

Opsiynau allweddol yn y tymor byr	Opsiynau allweddol yn y tymor canolig
Sefydlu byrddau datblygu arweinyddiaeth sy'n cynnwys arweinwyr ysgolion, ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, i dywys newid sylweddol o ran datblygu'r gallu i arwain mewn ysgolion.	Adolygu gweithdrefnau ymgeisio ac asesu'r CPCP wrth sefydlu'r fframwaith datblygu arweinyddiaeth a'r cymhwyster camu ymlaen at fod yn bennaeth.
Llunio llwybr datblygu arweinyddiaeth drwy gytundeb â'r bwrdd datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol.	Trefnu bod pawb sy'n gweithio tuag at achrediad CPCP yn cael eu coetsio gan unigolyn penodol.

<p>Cytuno â'r bwrdd datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol ar fframwaith ar gyfer cwricwlwm datblygu arweinyddiaeth – gan gynnwys braslun o gymhwyster camu ymlaen at ddod yn bennaeth.</p> <p>Hysbysebu am ddarparwyr yn genedlaethol, ac achredu'r darparwyr hynny i ddatblygu a darparu rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ar sail y fframwaith y cytunwyd arno, gan wneud hynny ar y cyd ag ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol.</p> <p>Dylai byrddau datblygu arweinyddiaeth rhanbarthol gomisiynu eu hysgolion gorau a sefydliadau allanol i ddarparu hyfforddiant ar gyfer arweinwyr canol – yn enwedig ar ddefnyddio data, rheoli perfformiad a choetsio.</p> <p>Dylai consortia rhanbarthol seilio rhaglenni gwella ar lefel ysgol gyfan ar waith yr ysgolion gorau yng Nghymru a thu hwnt er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n bennaethiaid eisoes.</p> <p>Consortia rhanbarthol i weithio gydag ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a ffederasiynau a chlystyrau caled eraill i drefnu lleoliadau i arweinwyr ar draws yr ysgolion sydd yn y consortia.</p>	<p>Ystyried cyflwyno cynllun ysgoloriaeth i helpu ymgeiswyr i dalu am holl gost neu am ran o gost yr hyfforddiant ar gyfer symud ymlaen o'r cymhwyster camu ymlaen at achrediad llawn y CPCP.</p> <p>Dylai byrddau datblygu arweinyddiaeth rhanbarthol baratoi cynlluniau olyniaeth ar gyfer arweinyddiaeth.</p> <p>Ystyried troi'r bwrdd datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol, wrth iddo gael ei draed dano, yn academi neu'n sefydliad addysgu ac arweinyddiaeth – sy'n annibynnol ar y llywodraeth, ond yn cael rhywfaint o arian grant i'w helpu gyda'i gylch gwaith.</p>
---	---

Cryfhau partneriaethau rhwng ysgolion o fewn cyd-destun sy'n cynnig rhagor o annibyniaeth

Nid yw rhoi rhagor o annibyniaeth i ysgolion yn golygu y bydd hynny, ar ei ben ei hun, yn eu gwella. Fodd bynnag, fe all rhoi mwy o reolaeth i ysgolion dros reoli staff, y cwricwlwm a chyllidebau helpu i wella eu perfformiad – ar yr amod bod arweinwyr ysgolion yn cael cymorth, nad yw eu sylw'n cael ei dynnu oddi ar wella'r addysgu a'r dysgu, a'u bod yn amlwg yn atebol am eu perfformiad. Mae ffederasiynau a mathau eraill o bartneriaethau ffurfiol rhwng ysgolion yn llwyfan cadarn ar gyfer cryfhau annibyniaeth a gwella cyrhaeddiad mewn ysgolion.

Yr hanes hyd yn hyn

Mae ysgolion yng Nghymru yn dod yn fwyfwy annibynnol. Yn 2012/13, ar gyfartaledd, roedd 81 y cant o'r cyllid yn cael ei ddirprwyo i'r ysgolion gan awdurdodau lleol, ac fe ddisgwyllir i hyn gynyddu i 85 y cant o fis Ebrill 2014 ymlaen. Serch hynny, mae swm

sylweddol o'r arian yn dal i gael ei gadw'n ganolog gan awdurdodau lleol. Mae rhai awdurdodau lleol yn annog rhagor o annibyniaeth drwy ddirprwyo gwasanaethau i glystyrau o ysgolion a meithrin eu gallu i reoli adnoddau'n effeithiol. Ond mewn sawl ardal, mae cyrff llywodraethu'n cael eu hannog i beidio â phrynu gwasanaethau cymorth o'r tu allan i'r awdurdod lleol, ac mae rhy ychydig o awdurdodau'n gwneud digon i feithrin arbenigedd rheoli busnes o fewn ysgolion.

Un o nodweddion rhai rhannau o'r system ysgolion yw bod ganddynt ddiwylliant o ddibynnu ar yr awdurdod lleol, yn enwedig yn y sector cynradd. Mae ysgolion yn dibynnu gormod ar yr awdurdod lleol am gymorth i wella ysgolion, i'r graddau nad yw llywodraethwyr a phenaethiaid yn teimlo'n atebol am berfformiad eu hysgol. Nid yw'r ffaith bod ansawdd a sgiliau cyrff llywodraethu ysgolion yn amrywio cymaint yn helpu'r sefyllfa ychwaith.

Mae mwy a mwy o bartneriaethau rhwng ysgolion. Fodd bynnag, cymharol arwynebol yw llawer o'r diwylliant partneriaeth hwnnw. Mae llawer o ysgolion yn gyndyn o rannu neu gyfnewid arweinwyr ac ymarferwyr rhagorol gydag ysgol arall (neu gydag ysgolion eraill) am un diwrnod yr wythnos hyd yn oed – er bod yr holl dystiolaeth yn dangos bod y naill ysgol a'r llall ar ei hennill yn fawr yn sgil y profiad.

Mae dros 400 o ysgolion cynradd yng Nghymru sydd â llai na 100 o ddisgyblion. Eto i gyd, dim ond 20 o ffederasiynau sydd, ac mae'r rheini'n cynnwys oddeutu 50 o ysgolion. Mae'n syndod hefyd nad oes defnydd ehangach ar bartneru ffurfiol rhwng ysgolion cryfach ac ysgolion gwannach, o ystyried nifer yr ysgolion y mae angen cymorth sylweddol arnynt i wella. Un peth sy'n cyfrannu at nifer bach y ffederasiynau yw bod y fframwaith llywodraethu'n anhyblyg.

Opsiynau ar gyfer y dyfodol

O edrych ar sut y dylai ysgolion gydweithio, nid oes un model sy'n gweddu i bawb - bydd llawer o ysgolion yn rhan o fwy nag un bartneriaeth ar yr un pryd. Ond mae dadl gref, ar sail addysgol ac ar sail cost-effeithiolrwydd, o blaid sicrhau bod mwyafrif ysgolion Cymru, os nad pob un ohonynt efallai, yn dod yn rhan o ffederasiwn neu glwstwr caled ffurfiol sy'n rhannu eu llywodraethu o dan arweinydd gweithredol. Fe allai'r ffederasiwn neu'r clwstwr fod yn ffederasiwn ysgolion cynradd-a-chynradd neu uwchradd-ac-uwchradd. Fe allai gynnwys grŵp o ysgolion trawsgyfnod neu fe allai fod yn glwstwr pob oed sy'n darparu addysg i ddisgyblion 3-19 oed.

Dylai ysgolion allu dewis o blith ystod o fodelau, gan gynnwys ffederasiynau ac ymddiriedolaethau, pan fyddant yn penderfynu sut mae trefnu a llywodraethu eu partneriaeth. Dylid cyflwyno trefn lywodraethu ac iddi ddwy haen sy'n gwahaniaethu rhwng yr atebolrwydd cyffredinol am grŵp o ysgolion, a fyddai'n cael ei ysgwyddo gan grŵp bychan o lywodraethwyr a fyddai'n cael eu recriwtio oherwydd eu sgiliau a'u harbenigedd, a threfniant ysgolion unigol a fyddai'n cael ei oruchwylio gan lywodraethwyr sy'n cynrychioli'r rhieni, y staff a'r gymuned leol. Byddai hyn yn gwella

ansawdd y llywodraethu drwyddo draw gan alluogi pob ysgol o fewn ffederasiwn neu glwstwr caled i gadw'i hunaniaeth.

Dylid ystyried ystod o gamau i gymell partneriaethau ffurfiol i dyfu'n gyflym – ochr yn ochr â chynlluniau i gryfhau annibyniaeth ysgolion.

Opsionau allweddol yn y tymor byr	Opsionau allweddol yn y tymor canolig
<p>Sefydlu trywydd clir er mwyn i ysgolion gydweithio drwy bartneriaethau ffurfiol.</p> <p>Defnyddio ymddeoliadau penaethiaid a rhoi strategaethau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ar waith i hwyluso cynnydd yn nifer y ffederasiynau.</p> <p>Defnyddio'r canllawiau a gyhoeddir cyn bo hir ynghylch ymyrryd statudol mewn ysgolion sy'n destun pryder i ddangos bod angen ffedereiddio gydag ysgol sy'n perfformio'n dda, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, ac y dylai hynny fod yn graidd i raglen adfer.</p> <p>Sefydlu cymhelliant ariannol i ysgolion sy'n perfformio'n dda gynorthwyo ysgolion gwan.</p> <p>Adolygu'r rheoliadau drafft ar gyfer ffederasiynau er mwyn ystyried sut y gellid eu diwygio i hwyluso'r model llywodraethu dwy haen a gynigir.</p> <p>Gwahodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) i arwain y broses o ddirprwyo'r gwaith rheoli busnes a rheoli ariannol i ffederasiynau a chlystyrau o ysgolion, ar sail model Cyngor Sir Ddinbych.</p> <p>Dirprwyo dyraniad yr ysgolion o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, y Grant Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Amddifadedd Disgyblion i'r ysgolion hynny sy'n 'dda' neu'n well, heb fod yn rhaid iddynt ddarparu cynlluniau ar gyfer gwario'r arian.</p> <p>Cyflwyno templed cenedlaethol ar gyfer cytundebau lefel gwasanaeth rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion.</p>	<p>Diwygio rheoliadau a deddfu yn ôl y gofyn i hwyluso ystod ehangach o fodolau trefniadaethol ar gyfer clystyrau caled o ysgolion ar sail Model yr Ymddiriedolaeth Gydweithredol.</p> <p>Dirprwyo lefel uwch o grantiau penodol i ysgolion sy'n gweithio drwy ffederasiwn neu glwstwr caled gan ddisgwyl i'r holl grantiau hynny gael eu talu drwy ffederasiynau a chlystyrau caled.</p> <p>Dyrannu arian cyfalaf i ysgolion drwy ffederasiynau a chlystyrau caled yn hytrach nag i ysgolion unigol.</p> <p>Ystyried rhoi'r hawl i ysgolion mewn ffederasiwn neu glwstwr caled, yn enwedig lle byddant yn cynnwys ysgol arbennig, ddarparu gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Addasu'r drefn atebolrwydd ac arolygu er mwyn iddi gydnabod y gwerth a ychwanegir gan ffederasiynau a chlystyrau caled, yn ogystal â chan ysgolion unigol.</p> <p>Dynodi bloc ar wahân yn yr asesiad o wariant safonol ar gyfer y dyletswyddau a'r swyddogaethau statudol hynny sydd gan awdurdodau lleol nad yw'n synhwyrol eu dirprwyo, er enghraifft, cludiant i ysgolion – a'i gadw ar wahân i'r bloc ar gyfer gwariant ysgolion – gan ddirprwyo'r rhan helaethaf o floc yr ysgolion i'r ysgolion eu hunain.</p> <p>Gweithio gyda'r awdurdodau lleol i ddatblygu mwy o safoni ar fformiwlâu ariannu ysgolion.</p> <p>Comisiynu astudiaeth fanwl ar oblygiadau posibl fformiwlâ ariannu genedlaethol.</p>

Gwella atebolrwydd

Gall trefn atebolrwydd sy'n rhoi gormod o bwyslais ar bwysigrwydd profion ac arolygiadau arwain at gulhau'r cwricwlwm, at ddysgu arwynebol ac at sefyllfa lle bydd ysgolion ac athrawon yn chwarae'r gêm. Ond mae fframwaith atebolrwydd gwan neu ddryslyd yn golygu bod ysgolion yn troi'n erddi dirgel ac nad yw rhieni, y cyhoedd na llunwyr polisiâu'n gallu barnu pa mor effeithiol ydynt. Nid oes gan ysgolion sail ar gyfer meincnodi nac ar gyfer dysgu oddi wrth ei gilydd, ac ychydig o gymhelliant sydd iddynt wella'u perfformiad. Mae angen i systemau atebolrwydd gadw'r ddysgl yn wastad rhwng y ffactorau hyn.

Yr hanes hyd yn hyn

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, gwelwyd nifer o newidiadau er gwell. Drwy asesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyflwyno Bagloriaeth Cymru, sicrhawyd bod gwerth yn cael ei roi ar sgiliau ac ar ddysgu ehangach, ac nid dim ond ar gyrhaeddiad mewn profion, a bod y sgiliau a'r dysgu ehangach hynny'n cael eu hasesu. Drwy gyflwyno Fframwaith Arolygu Cyffredin, sefydlwyd trefn gyson ar gyfer arolygu a barnu ysgolion, colegau, darparwyr blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol.

Mae cyflwyno'r bandio ar gyfer ysgolion uwchradd yn helpu i herio agweddau hunanfodlon drwy ganolbwyntio ar y cynnydd a wnaiff ysgolion bob blwyddyn. Bydd y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol newydd a fydd yn cael eu sefyll gan ddisgyblion ddiwedd bob blwyddyn rhwng Blwyddyn 2 a 9 o fis Mai 2013 ymlaen, yn helpu ysgolion i asesu safonau darllen a rhifedd disgyblion. Mae'r wefan Fy Ysgol Leol yn golygu bod rhieni a phobl eraill sydd â diddordeb yn eu hysgol leol yn gallu gweld data amdani.

Fodd bynnag, mae yna heriau difrifol o ran atebolrwydd y mae angen ymdrin â hwy. Mae'r asesu a'r safoni ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn wan. Mae hyn yn bwysig, oherwydd nid yw'r profion blynyddol newydd sy'n rhan o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cynnwys ysgrifennu a llafaredd – ac felly, bydd angen i athrawon asesu'r rhain o hyd. Ar wahân i arolygiad Estyn bob chwe blynedd, nid oes ffordd ddibynadwy o ddal ysgolion cynradd yn atebol.

Mae rhai'n poeni am sut mae ambell agwedd ar y system fandio'n gweithio i ysgolion uwchradd. Er bod y data am berfformiad sydd ar gael i ysgolion yn well o lawer, mae'r ffaith bod cynifer o setiau data gwahanol a gwahanol ffyrdd o'u defnyddio'n achosi tipyn o ddryswch. At hynny, nid yw'r dulliau a ddefnyddir i fesur perfformiad disgyblion ôl-16 mewn ysgolion a cholegau wedi'u cysoni, mae amseru arolygiadau ysgolion yn rhy hawdd ei ragweld ac mae'r systemau ar gyfer ymdrin ag athrawon a phenaethiaid sy'n tanberfformio dro ar ôl tro yn rhai trwsgl.

Opsiynau ar gyfer y dyfodol

Nid yw'r opsiynau ar gyfer gwella atebolrwydd yn golygu bod angen cyflwyno newidiadau drwy'r trwch: y nod yw ceisio adeiladu ar sail y cryfderau sydd yno eisoes gan fynd i'r afael â'r heriau ar yr un pryd. Mae'r opsiynau'n tybio y dylai perfformiad ysgol ystyried lefel absoliwt cyrhaeddiad ei disgyblion ond y dylai hefyd adlewyrchu ei chynnydd ar sail y canlynol:

y lefel cyflawni a ragfynegydd ar ei chyfer a'r gwerth a ychwanegir mewn gwirionedd – gan roi sylw i gyrhaeddiad blaenorol disgyblion a pherfformiad y rhai uchaf ac isaf eu cyrhaeddiad

ei chyd-destun, o'i mesur yn ôl cyfran y myfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a nifer y myfyrwyr sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig

ei chynnydd o ran cau'r bylchau rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu cael

ei pherfformiad o'i chymharu ag ysgolion eraill sydd â chohort tebyg o ddisgyblion, gan ddefnyddio'r un asesiad i bob math o ddarparwr ar gyfer y grŵp oedran dan sylw

dulliau ehangach o fesur perfformiad gan gynnwys cyfraddau presenoldeb ac i ba raddau y mae disgyblion a rhieni'n ymgysylltu â'r ysgol ac yn fodlon arni.

Opsiynau allweddol yn y tymor byr	Opsiynau allweddol yn y tymor canolig
<p>Cysylltu'r system Cymru gyfan a gynigir ar gyfer tracio disgyblion o Flwyddyn 2 i 9 â'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol er mwyn asesu cynnydd cyffredinol plentyn.</p> <p>Cyflwyno banc o dasgau safonol (nid profion) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 a 3 i helpu athrawon i asesu'n fwy cyson y cynnydd a wnaiff eu disgyblion wrth ysgrifennu (gan gynnwys eu hyfedredd wrth sillafu, atalnodi a gramadeg) ac o ran llafaredd.</p> <p>Parhau i fandio ysgolion ond trafod gydag arweinwyr ysgolion uwchradd eu pryderon ynghylch manylion y drefn hon er mwyn meithrin mwy o gonsensws a pherchnogaeth.</p> <p>Symleiddio a chydgrynhoi'r amryfal setiau data, fel y bo pob ysgol, awdurdod lleol, consortiwm rhanbarthol ac Estyn yn defnyddio'r un setiau data gan weithio ar y data hynny a'u dehongli yn yr un ffordd.</p>	<p>Cyflwyno cerdyn adrodd cytbwys blynyddol ar gyfer ysgolion a hwnnw'n crynhoi perfformiad a chynnydd pob ysgol gynradd.</p> <p>Defnyddio'r newidiadau arfaethedig i'r system cymwysterau TGAU a chymwysterau galwedigaethol a gyflwynir o fis Medi 2015 ymlaen yn sail ar gyfer ystyried symud at gerdyn sgorio cytbwys i ysgolion uwchradd.</p> <p>Adolygu'r ffordd y mae'r model arolygu'n gweithio er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer ysgolion sy'n rhan o ffederasiwn, ymddiriedolaeth neu fath arall o glwstwr caled.</p> <p>Darparu asesiad arolygu ar wahân o'r ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion a hwnnw'n gysylltiedig â defnyddio data perfformiad cyffredin.</p> <p>Cynnal adolygiad sylfaenol o'r meini prawf arolygu ar gyfer awdurdodau lleol i adlewyrchu'r ffaith bod swyddogaethau gwella</p>

<p>Asesu perfformiad myfyrwyr ôl-16 ym mhob lleoliad, gan ddefnyddio data safonol am gwblhau, cyrhaeddiad, llwyddiant a chyrchfannau.</p> <p>Arolygu ysgolion ar sail fwy cymesur ac anos ei rhagweld gan roi llai o rybudd ynghylch arolygiad, sef dau neu dri diwrnod gwaith.</p> <p>Cyhoeddi gweithdrefnau i sicrhau bod penaethiaid a llywodraethwyr yn gallu mynd i'r afael yn ddi-oed â gallu staff a phenaethiaid sydd wedi cael y cyfle a'r cymorth i wella ond bod eu perfformiad yn dal yn annigonol.</p> <p>Darparu templed safonol ar gyfer data perfformiad ysgolion i lywodraethwyr.</p>	<p>ysgolion yn cael eu trosglwyddo i gonsortia rhanbarthol.</p> <p>Monitro effaith y trefniadau hyfforddi ar gyfer llywodraethwyr newydd.</p> <p>Galluogi cadeiryddion rhagorol byrddau llywodraethu i fod yn Ymarferwyr Arweiniol a chynorthwyo ysgolion eraill i wella'u trefniadau llywodraethu.</p> <p>Gweithio gyda CBI Cymru a chyda chyflogwyr eraill i ddatblygu cofrestr ym mhob rhanbarth o arweinwyr busnes a darpar arweinwyr busnes sy'n barod i fod yn llywodraethwyr ysgolion.</p>
--	---

Trefnu swyddogaethau gwella ysgolion

Gellir sicrhau arbedion effeithiolrwydd wrth ddarparu'r arbenigedd a'r adnoddau sy'n angenrheidiol er mwyn cydlynu'r gefnogaeth i wella ysgolion. Felly, mae'n synhwyrol trefnu'r swyddogaeth hon ar lefel ranbarthol, ar lefel dinas neu ar lefel isranbarthol. Mae'r trefniadau presennol yng Nghymru'n ddifrifol o anfoddhaol. Fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredinol nad oes modd i bethau barhau fel y maent.

Yr hanes hyd yn hyn

Aseswyd bod pump o'r awdurdodau lleol a arolygwyd gan Estyn o dan y Fframwaith Arolygu Cyffredin yn dda – gan gynnwys rhai a oedd wedi bod yn cael trafferth yn y gorffennol. Fodd bynnag, barnwyd mai dim ond 'digonol' oedd chwech (gyda phedwar awdurdod yn cael eu monitro gan Estyn) a bod saith yn 'anfoddhaol' (gyda chwech awdurdod o dan fesurau arbennig ac un y mae angen iddo wella'n sylweddol).

Un ffactor o bwys sy'n cyfrannu at hyn yw bod yna gynifer o awdurdodau lleol bach. Er gwaethaf hyn, mae awdurdodau lleol wedi bod yn gyndyn o ystyried cyd-benodi cyfarwyddwyr gwasanaethau addysg a/neu gyfuno'u gwasanaethau. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei hun wedi cydnabod bod y system yn tanberfformio, ei bod yn annerbyniol ac yn anghynaliadwy.

Mae pedwar consortiwm addysg rhanbarthol wedi'u sefydlu ac ar waith erbyn hyn. Wrth gynnal adolygiad cychwynnol ddiwedd 2012, gwelwyd nifer o arwyddion calonogol o gynnydd ac awgrym y gallai'r trefniadau newydd ddwyn ffrwyth. Fodd bynnag, mae perfformiad y consortia rhanbarthol yn amrywio gormod. Nid yw'r trefniadau ar gyfer arweinwyr systemau'n gweithio'n iawn. Y rheswm dros hyn, yn rhannol, yw bod y bobl anghywir wedi'u recriwtio i'r swyddi hyn, a'r rheswm arall yw bod dryswch ynghylch beth yw hanfod y gwaith. Mae gormod o'r gyllideb yn cael ei wario ar ariannu'r swyddi hyn yn hytrach nag ar gomisiynu rhaglenni gwella ar lefel ysgol gyfan.

Pethau eraill sy'n destun pryder difrifol yw nad oes cyd-ddealltwriaeth ynghylch cwmpas y gweithgarwch y dylai'r consortia fod yn ymgymryd ag ef, mae anghysonderau diangen yn y ffordd y maent yn gweithredu, mae'r strwythurau trefniadaethol a'r arweinyddiaeth weithredol yn wan mewn rhai consortia, mae diffyg ymdeimlad o frys a diffyg gweithredu mewn perthynas â'r ysgolion hynny y mae angen cymorth arnynt fwyaf ac nid oes cadwyn gyflawni gydlynol i gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.

Mae rhai awdurdodau lleol yn codi rhwystrau rhag datblygu'r consortia rhanbarthol ac yn dyblygu eu swyddogaethau. Mae diffyg eglurder ynghylch pa gorff sy'n gyfrifol am beth – yn enwedig yng nghyswllt ymyrryd ag ysgolion sy'n methu.

Opsiynau ar gyfer y dyfodol

Mae atebolrwydd democrataidd yn egwyddor hollbwysig. Mewn byd delfrydol, byddai gan Gymru awdurdodau lleol sydd â gweledigaeth angerddol ar gyfer eu pobl ifanc gan ddimuno iddynt dyfu'n bobl hynod fedrus ac addysgedig. Byddai'r awdurdodau'n sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn ystod o ysgolion a cholegau da. Byddent yn helpu rhieni i ddewis ynghylch addysg eu plant. Byddent yn gwybod beth oedd yn digwydd yn eu hysgolion a byddent yn helpu i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion, yn meithrin gallu rhwng ysgolion ac yn disgwyl i benaethiaid a llywodraethwyr fod yn gyfrifol am berfformiad eu hysgol – er y byddent hefyd yn ymyrryd lle byddai angen. Byddai awdurdodau'n brocera ffederasiynau a chlystyrau caled rhwng ysgolion. Wrth i'r partneriaethau hyn fwrw gwreiddiau, byddent yn datganoli cyllidebau a gwasanaethau. Mae'n fodel sydd wedi'i seilio ar alluogi a grymuso ysgolion er mwyn iddynt gynorthwyo'i gilydd mewn ffordd gydlynol. Bydd angen amser i hyn ddigwydd ac nid oes gofyn cael 22 o wasanaethau addysg mewn awdurdodau lleol ar wahân er mwyn cyrraedd y nod.

Yn y tymor canolig, bydd gofyn ad-drefnu swyddogaethau addysg awdurdodau lleol a'u ffiniau'n llwyr, fel rhan o'r adolygiad mwy cyffredinol ar drefniadau llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, er mwyn gwireddu'r strategaeth hon. Fodd bynnag, yn y tymor byr, byddai ad-drefnu'n tynnu sylw oddi ar y pethau pwysig. Rhaid canolbwyntio ar wneud y system bresennol yn fwy eglur, ar gyfnerthu nifer y gwasanaethau addysg ac ar sicrhau bod y consortia i gyd yn gweithredu mor effeithiol ag sy'n bosibl cyn gynted ag y bo modd. Mae gwir angen gwneud hyn ar frys.

Opsiynau allweddol yn y tymor byr	Opsiynau allweddol yn y tymor canolig
Cael gwared ar draean o wasanaethau addysg yr awdurdodau lleol erbyn mis Ebrill 2014, naill ai drwy drefniant uno gwirfoddol neu fod y Gweinidog Addysg a Sgiliau'n defnyddio'i bwerau i ymyrryd ar ôl cael arolygiad anfodddhaol gan Estyn.	Cynnwys gwasanaethau addysg mewn awdurdodau lleol etholedig meinach sydd:
Dylai Awdurdodau Lleol roi'r gorau i ddarparu	yn adlewyrchu dinas ranbarthau Cymru a'r isranbarthau economaidd a hynny er mwyn cefnogi sut mae gweledigaeth addysg awdurdod yn gysylltiedig ag agenda sgiliau, menter a chyflogaeth rhanbarth

<p>gwasanaethau gwella ysgolion.</p> <p>Ariannu'r consortia rhanbarthol yn uniongyrchol drwy frigidorri'r Grant Cynnal Refeniw ar yr amodau a ganlyn:</p> <p>bod pob consortiwm yn cyflawni set safonol o swyddogaethau allweddol</p> <p>bod y Gweinidog yn rhoi sêl ei fendith ar y canlynol: strwythur trefniadaethol y consortia, eu cynlluniau busnes, eu targedau ar gyfer deilliannau a'r cyfarwyddwr a benodir ganddynt</p> <p>bod trefniadau llywodraethu'r consortia'n cael eu rhoi yn nwylo bwrdd sy'n cynnwys arweinwyr awdurdod lleol, rhywun a benodir gan y Gweinidog, arbenigwr gwella addysg a thri phennaeth (un cynradd, un uwchradd ac un ysgol arbennig)</p> <p>mynd i gyfarfod archwilio ddwywaith y flwyddyn gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau</p> <p>symud mor gyflym ag sy'n ymarferol at fodel staffio craidd, gan ategu hynny drwy brynu ystod o arbenigedd gwella ysgolion o'r tu allan.</p> <p>Defnyddio pwerau wrth gefn i ddod â darparwyr eraill i mewn os bydd y consortia'n methu cyflawni.</p> <p>Sefydlu protocolau ysgrifenedig rhwng consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol ynghylch ymyrryd mewn ysgolion sy'n destun pryder.</p>	<p>cyblethu gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus allweddol a gweithredu ar sail gydffiniol er mwyn lleihau dyblygu a manteisio i'r eithaf ar y gydberthynas rhwng swyddogaethau</p> <p>adlewyrchu rôl gomisiynu feinach awdurdodau lleol a chanolbwyntio ar helpu i ddatblygu system wella hunangynhaliol o dan arweiniad ysgolion</p> <p>rhoi'r cyfrifoldeb gwleidyddol am addysg i aelod etholedig penodol, gyda swyddog addysg penodol yn arwain.</p> <p>Ystyried newidiadau cymharol fach i ffiniau'r consortia er mwyn sicrhau gwell cyfatebiaeth â phatrwm trefniadaeth gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru.</p> <p>Cryfhau'r Uned Safonau Ysgolion a Chyflawni er mwyn sicrhau bod ganddi ddigon o arbenigedd i wneud y canlynol:</p> <p>cyfrannu at arferion sydd ar flaen y gad ym maes addysgu a dysgu ac arwain gwaith gwella ysgolion</p> <p>cefnogi a herio cynlluniau a gwaith y consortia wrth iddynt baratoi ar gyfer yr archwiliadau y bwriedir eu cynnal ddwywaith y flwyddyn</p> <p>bod yn ddolen arbenigol o ran llunio polisiau addysg yn Llywodraeth Cymru.</p>
--	---

Pennod 2: Opsiynau ar gyfer gwella addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth

Cyflwyniad

‘Mae perfformiad da'n golygu bod gofyn i bob plentyn lwyddo.’ Mae casgliad yr ymchwil hwnnw y cyfeiriwyd ato gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (y Cyngor) yn ei dystiolaeth i'r adolygiad hwn yn dangos pa mor uchelgeisiol mewn gwirionedd y mae gofyn i ddisgyblion, rhieni, athrawon a llunwyr polisiâu fod er mwyn codi safonau addysg a chyflawni yng Nghymru. Cyfeiriodd y Cyngor hefyd at ddau gasgliad ymchwil allweddol arall¹.

‘Ni all ansawdd system addysg fod yn well nag ansawdd ei hathrawon.’
‘Yr unig ffordd o wella deilliannau yw gwella'r addysgu.’

Y nod yw sicrhau bod gan Gymru system addysg sy'n perfformio'n dda a bod yr addysg a gynigir i'w phobl ifanc ymhlith yr addysg orau yn y byd. Os felly, mae'n hollbwysig gwella ansawdd yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth er mwyn gwireddu'r amcan hwnnw. Nid oes modd trawsnewid addysg nes ac oni fydd yr addysgu a'r dysgu ym mhob ysgol yng Nghymru – boed yn gyfrwng Saesneg, yn gyfrwng Cymraeg neu'n ddwyieithog – o ansawdd sy'n gyson uchel. Fel y dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei hymateb i'r adolygiad:

‘Yr hyn y mae plant yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth yw'r ffactor bwysicaf y mae'n rhaid i bob polisi addysg ganolbwyntio arno ac effeithio arno.’

Felly, mae'r bennod hon yn rhoi sylw i'r rhan honno o'm cylch gorchwyl sy'n gofyn imi ‘nodi'r strategaethau sy'n fwyaf tebygol o wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ysgolion yng Nghymru’. Mae Ffigur 2.1 yn cynnig fframwaith ar gyfer ystyried hyn drwy grynhoi'r prif agweddau a'r gwersi a allai, yn ôl yr hyn a awgryma'r gwaith ymchwil, helpu i wireddu'r weledigaeth ar gyfer addysgu a dysgu o ansawdd da.

Ffigur 2.1 – Prif gasgliadau'r ymchwil ar wella addysgu a dysgu

O ran yr effaith y gall ysgolion ei chael ar gyflawniad myfyrwyr, ansawdd yr addysgu sy'n cael y dylanwad cryfaf. Gall myfyrwyr sy'n cael eu rhoi gydag athrawon sy'n perfformio'n dda wneud cynnydd hyd at deirgwaith yn gyflymach na'r rheini sy'n cael eu rhoi gydag athrawon sy'n perfformio'n wael. Datblygu athrawon sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf at ddeilliannau dysgu myfyrwyr.

Mae ansawdd yr addysgu'n amrywio cymaint o fewn ysgolion ag y mae rhwng ysgolion.

Mae denu'r graddedigion mwyaf galluog i fod yn athrawon nid yn unig yn ehangu ac yn dyfnhau'r sylfaen sgiliau ond mae hefyd yn cryfhau statws y proffesiwn.

¹ Barber a Mourshed (2007)

Mae'r gwledydd sy'n gwneud orau wedi symud eu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon i gyfeiriad model sy'n canolbwyntio mwy ar yr ystafell ddosbarth gan helpu myfyrwyr i:

adnabod problemau myfyrwyr yn gyflym ac yn gywir a defnyddio data'n effeithiol

manteisio ar ddewislen eang o atebion posibl er mwyn diwallu anghenion myfyrwyr.

Mae angen cydgysylltu'r addysg gychwynnol i athrawon, rhaglenni ymsefydlu a datblygu proffesiynol parhaus er mwyn creu continwwm dysgu a datblygu i athrawon.

Mae angen i athrawon gael eu hystyried yn 'weithwyr gwybodaeth': y ffordd orau o feithrin hyn yw drwy gyfrwng datblygiad proffesiynol i athrawon mewn ysgolion lle mae ymholi gan athrawon a datblygiad athrawon yn cael eu cysylltu â'r broses gwella ysgolion.

Yn y rhannau hynny o system addysg sy'n 'wael i weddol', dylai'r ymyriadau ganolbwyntio ar helpu myfyrwyr i feithrin sgiliau llythrennedd a rhifedd hanfodol ac arfogi ac annog athrawon gwan eu sgiliau i ddefnyddio fframweithiau a deunyddiau addysgu o ansawdd da i gyflwyno gwersi effeithiol.

Nid oes modd sicrhau bod gwell arferion yn bwrw gwreiddiau (h.y. sicrhau ansawdd a chysondeb yr addysgu drwy bob rhan o'r system) drwy adael i bob ymarferydd unigol ddilyn ei drywydd ei hun yn yr ystafell ddosbarth. Y ffordd orau o wella pethau yw drwy annog, arfogi a grymuso athrawon i gynllunio gwersi gyda'i gilydd, i arsylwi arferion ei gilydd ac asesu mewn ffordd ddisgybledig pa ddylanwad a gaiff dulliau addysgu a dysgu arloesol.

Bydd y systemau gorau'n dynodi ymarferwyr arweiniol ac yn eu rhyddhau rhag rhai o'u dyletswyddau addysgu, neu rhag eu holl ddyletswyddau addysgu, er mwyn iddynt fodolu eu hymarfer, rhoi cyfarwyddyd i'w cymheiriaid, coetsio cydweithwyr eraill ar raddfa ardal, rhanbarth a hyd yn oed ar raddfa genedlaethol.

Mae'n bwysig sicrhau bod athrawon yn ymroi i raglenni gwella ysgolion ac mae meithrin ymddiriedaeth broffesiynol yn bwysig hefyd, ond mae angen datblygu hyn ochr yn ochr â rheoli perfformiad athrawon mewn ffordd effeithiol a thrwyadl.

Ffynonellau: Barber a Mourshed (2007); Barber et al (2010); Hanushek and Rivkin (2012); Mourshed et al (2010); OECD (2005); OECD (2011a)

Cynnydd diweddar

Mae'n bwysig cofnodi a dathlu'r cynnydd y mae disgyblion ac ysgolion yn ei wneud yng Nghymru. Mae canlyniadau'r profion a'r arholiadau diweddaraf yn dangos yn 2012:

bod pedwar o bob pum disgybl ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cyflawni'r deilliannau disgwylidig ym mhob maes dysgu gorfodol;

bod 82.6 y cant o'r disgyblion wedi cyflawni'r dangosydd pynciau craidd (Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth) yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 11 oed, a 72.5 y cant yng Nghyfnod Allweddol 3 yn 14 oed. Roedd y canlyniadau hyn yn dangos cynnydd o 2.6 a 4.5 pwynt canran, yn y drefn honno, er 2011;

llwyddodd 51.1 y cant o bobl ifanc 15 oed i gael gradd A* i C yng Nghyfnod Allweddol 4 mewn pum TGAU neu fwy, neu gymhwyster cyfwerth, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. Roedd hyn un pwynt canran yn uwch nag yn 2010/11 a 6.7 pwynt canran yn uwch nag yn 2006/07;

gwelwyd y bwlch rhwng lefel cyflawniad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a lefel cyflawniad disgyblion eraill yn lleihau yng Nghyfnod Allweddol 1 ac yn sefydlogi yng Nghyfnod Allweddol 4;

gwelwyd y bwlch yn cau fymryn rhwng perfformiad plant yng Nghymru a phlant yn Lloegr, o'i fesur yn ôl y gyfran sy'n llwyddo i gael pum TGAU da, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg – a hynny hyd yn oed cyn ailraddio papurau arholiad TGAU Saesneg yng Nghymru.

Heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy

Er gwaethaf y cynnydd a wnaed, mae heriau sylweddol iawn o hyd. Er enghraifft, a defnyddio'r mesur pum gradd A*-C neu fwy gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg, mae bwlch sylweddol o fwy nag wyth pwynt canran o hyd rhwng perfformiad disgyblion yng Nghymru a'u cymheiriaid yn Lloegr yng nghyfnod allweddol 4. Dim ond chwech y cant o'r myfyrwyr a safodd arholiad safon Uwch yn 2012 a llwyddodd i gael y marc pasio uchaf, sef A* – roedd hynny bron yn ddau bwynt canran yn is na'r ffigur cyfatebol yn Lloegr.

Mae merched yn dal i wneud yn well na bechgyn ym mhob cyfnod allweddol. Er bod perfformiad disgyblion o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig (o'i fesur ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim) wedi gwella ac er bod y bwlch wedi lleihau o ran dangosyddion y pynciau craidd yng Nghyfnod Allweddol 1, 2 a 3, mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'u cymheiriaid yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dal i fod yn 33 pwynt canran.

Ond dim ond rhan o'r darlun sydd i'w weld mewn canlyniadau profion. Mae adroddiadau blynyddol Estyn² yn datgelu rhai o'r problemau dyfnach o ran ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn ysgolion Cymru sydd y tu ôl i'r prif ffigurau.

Yn 2011/12, adroddodd Estyn fod perfformiad yn 'rhagorol' mewn tri y cant yn unig o'r ysgolion cynradd a arolygwyd ac nad oedd y rhagolygon ar gyfer gwella ond yn 'rhagorol' mewn chwech y cant. Trefnwyd ymweliadau dilynol ar gyfer bron hanner yr holl ysgolion cynradd a arolygwyd oherwydd bod deilliannau'r arolygu'n destun pryder.

Gwelodd Estyn fod cyfran fwy o'r ysgolion uwchradd yn 'rhagorol' (14 y cant) ond bod mwy ohonynt hefyd yn 'foddhaol' – dim ond 'digonol' yw perfformiad dwy o bob pump ysgol uwchradd, mae'n anfoddhaol mewn 14 y cant ac mae gofyn trefnu ymweliadau dilynol gan arolygwyr â thros hanner yr ysgolion.

Mae safonau ysgrifennu'n destun pryder o hyd yn ysgolion pob sector a hynny mewn ysgolion Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg iaith gyntaf. Yng Nghyfnod Allweddol 2:

'Mae medrau ysgrifennu lleiafrif o ddisgyblion yn wan. Nid ydyn nhw'n trosglwyddo'r medrau gramadeg a sillafu maen nhw wedi'u dysgu yn eu sesiynau iaith i'w gwaith ysgrifennu yn eu pynciau eraill, heb gymorth yr athro.'
Estyn (2013)

Yn y 54 y cant o'r ysgolion uwchradd lle mae'r safonau naill ai'n 'annigonol' neu'n 'anfoddhaol' mae ysgrifennu'r disgyblion:

'yn aml yn rhy fyr, nid yw'n defnyddio digon o ddewis o arddulliau a phwrpasau, ac mae gormod o wallau sillafu, atalnodi a gramadeg yn eu gwaith. Nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd yn y pynciau heblaw am Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf i ysgrifennu darnau hir i nifer o wahanol bwrpasau. Nid ydyn nhw chwaith yn cael digon o gyfleoedd i elwa ar ddull o farcio sy'n eu helpu..
Estyn (2013)

Mae'r feirniadaeth hon yn eithaf damniol o safbwynt addysgeg sylfaenol. Nid yw beirniadaeth Estyn ychwaith yn cael ei chyfyngu i safonau ysgrifennu. Yn 2010/11 dywedodd Estyn fod y ffordd y defnyddid ffoneg yn dameidiog ac yn 2011/12 gwelodd fod sgoriau darllen disgyblion yn amrywio i raddau annerbyniol rhwng ysgolion a rhwng awdurdodau lleol – yn enwedig ymhlith disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim. Dim ond mewn rhyw un ysgol ymhob 10 y mae disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog wrth gaffael sgiliau Cymraeg ail iaith.

Mae angen i oddeutu chwarter yr ysgolion cynradd godi safonau rhifedd – ac mae disgyblion yn dangos diffyg hyder o ran sgiliau rhif sylfaenol megis rhannu a gweithio gyda ffracsiynau. Yn yr ysgolion hyn, ac yn hanner yr ysgolion uwchradd, mae cynllunio ar gyfer cymhwyso a datblygu sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm yn wan.

² Estyn (2012) ac Estyn (2013)

Mae ansawdd yr asesu ffurfiannol, y tynnwyd sylw ato fel rhan o'r broblem gyda safonau ysgrifennu, i bob golwg yn ddyfnach ac yn ehangach. Mewn tua hanner yr ysgolion uwchradd:

‘Nid yw gwaith marcio yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r disgyblion yn gl n â gwella'u gwaith. Nid yw'r athrawon yn gofalu bod y disgyblion yn adolygu eu sylwadau marcio nac yn ymateb iddyn nhw, yn enwedig o ran gwella cywirdeb eu gwaith ysgrifenedig.’
Estyn (2013)

Mae cyflwyno Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru – ynghyd â'r profion darllen a rhifedd blynyddol, yn cynnig sylfaen ragorol a hanfodol er mwyn canolbwyntio ar y materion hyn a mynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, fel y dywed Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru yn y rhagair i'w hadroddiad yn 2011/12, wrth sôn am athrawon Blynyddoedd 2 i 9:

‘Os ydym am weld newidiadau sylweddol yn y deilliannau, mae angen canllawiau, safonau enghreifftiol a hyfforddiant ar gwricwlwm sydd i bob pwrpas yn cael ei ailwampio. Mae angen datblygu gallu'r athrawon i wireddu'r gwelliannau rydym am eu gweld yn yr asesiadau allanol cenedlaethol ac yn y profion rhyngwladol fel PISA.’
Estyn (2013)

Os un rhan o'r her yw cynnig rhagor o gymorth, yna'r rhan arall yw cymryd camau i fynd i'r afael ag addysgu o ansawdd gwael. Er bod y rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion cynradd, yn ôl Estyn, yn mynd i'r afael â pherfformiad gwael athrawon unigol pan fo'r perfformiad hwnnw'n anfoddhaol, nid ydynt yn mynd i'r afael yn ddigon cadarn ag addysgu diddrwg didda. Mewn tair o bob pump ysgol uwchradd, nid oes digon o ganolbwyntio clir ar effaith addysgu ar gynnydd disgyblion.

Mae rhai penaethiaid yn gyndyn o herio ansawdd yr addysgu ac ansawdd y dysgu, ac fe awgrymodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen y gall fod cysylltiad rhwng y ddau beth, oherwydd bod y prosesau sydd ar gael iddynt yn gymhleth, yn drwsogl ac yn draul ar eu hamser. Mae hwn yn bwnc y byddaf yn dychwelyd ato ym Mhennod 5.

Opsiynau ar gyfer diwygio

Mae angen gweithredu mewn dau faes er mwyn gwella addysgu a dysgu:

gwella ansawdd a gallu'r athrawon sy'n ymuno â'r proffesiwn ac sy'n dod i mewn i ystafelloedd dosbarth ysgolion Cymru
gwella sgiliau'r athrawon sy'n dysgu ar hyn o bryd.

Soniaf am y ddau hyn yn eu tro.

Opsiynau ar gyfer recriwtio a hyfforddi athrawon gwell eu hansawdd

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi ystod o gamau ar waith i ddenu'r graddedigion gorau i ystafelloedd dosbarth Cymru. Er enghraifft, mae wedi:

cyflwyno grantiau hyfforddi a dysgu i ddenu graddedigion mewn pynciau allweddol – megis ffiseg, mathemateg, cemeg, ieithoedd modern, TGCh a Chymraeg

pennu'r grantiau ar lefel a fydd yn cymell y graddedigion sydd â'r graddau gorau i ymuno â hyfforddiant cychwynnol i athrawon

codi, o 2014/15 ymlaen, y safon isaf ar gyfer derbyn myfyrwyr i gwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon, o radd C TGAU mewn Saesneg a mathemateg i radd B TGAU

gwneud y gofynion yn fwy llym ar gyfer monitro a gwirio bod gan athrawon dan hyfforddiant y sgiliau llythrennedd a rhifedd angenrheidiol

meithrin partneriaeth â'r elusen addysg, Teach First. Gan adeiladu ar y model sydd wedi bod yn effeithiol yn Lloegr o ran denu graddedigion o ansawdd da i ysgolion mewn ardaloedd dan anfantais, bydd y 40 o raddedigion eithriadol cyntaf o dan y cynllun Teach First yn cael eu recriwtio yn ysgolion Cymru o fis Mehefin 2013 ymlaen

sefydlu adolygiad o dan arweiniad yr Athro Ralph Tabberer o addysg gychwynnol i athrawon, a fydd yn canolbwyntio ar ansawdd a chysondeb yr addysgu, yr hyfforddiant a'r asesu mewn hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Yn ogystal â'r camau hyn, byddwn yn argymhell y dylai'r llywodraeth ystyried nifer o opsiynau eraill ochr yn ochr â'r argymhellion yn adroddiad yr Athro Tabberer.

Yn gyntaf, o ystyried llwyddiant Teach First dros y 10 mlynedd diwethaf yn denu graddedigion eithriadol ac yn gwella enw da addysgu fel proffesiwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynyddu nifer yr athrawon newydd sy'n cael eu recriwtio a'u hyfforddi drwy'r llwybr hwn.

Yn ail, wrth i ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol, ffederasiynau a chlystyrau ddatblygu (gweler Pennod 4) dylai Llywodraeth Cymru ehangu'r llwybrau hyfforddi sy'n seiliedig ar gyflogaeth a llwybrau hyfforddi mewn ysgolion. Mae'r hyfforddiant gorau i athrawon yn cynnig cydbwysedd da rhwng dysgu damcaniaethol ac ymarfer yn yr ystafell ddosbarth o dan arweiniad tiwtoriaid academiaidd profiadol ac arbenigwyr coetsio sydd â phrofiad cyfoes yn yr ystafell ddosbarth. Yn sgil fy ymweliadau ag ysgolion, mae'n amlwg bod ysgolion yr aseswyd eu bod yn rhagorol ac ysgolion arbennig yn teimlo bod ganddynt lawer i'w gynnig i broses recriwtio a hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o athrawon. Yn

benodol, dylai Ymarferwyr Arweiniol mewn ysgolion feddu ar y gallu – neu fe ddylent fedru datblygu'r gallu, i chwarae mwy o ran yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o athrawon.

Yn drydydd, mae angen sicrhau perthynas glos rhwng datblygiad proffesiynol athrawon mewn ysgolion ac addysg gychwynnol i athrawon. Yn benodol, mae'n hanfodol bod athrawon dan hyfforddiant sy'n dod i'w swydd gyntaf mewn ysgol yng Nghymru yn wybodus ynghylch y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'u bod wedi'u harfogi i'w ddysgu.

Opsiyau ar gyfer gwella sgiliau a pherfformiad y rheini sy'n athrawon ar hyn o bryd

Fel sy'n wir am addysg gychwynnol i athrawon, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd nifer o gamau pwysig i helpu i ddatblygu athrawon mewn ysgolion. Yn benodol, mae wedi:

darparu ystod eang o ganllawiau cynllunio, pecynnau hyfforddi a deunyddiau enghreifftiol drwy gyfrwng gwefan Dysgu Cymru i gynorthwyo ysgolion wrth iddynt gynllunio i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith

comisiynu'r elusen addysg, Ymddiriedolaeth Addysg CfBT, i ddarparu rhaglen hyfforddi fawr ar lythrennedd a rhifedd am bedair blynedd, gan ddechrau ym mis Mehefin 2013, a fydd yn rhoi cymorth i bob ysgol

comisiynu Education London i gynnal gweithdai a rhoi cymorth i ysgolion uwchradd er mwyn gwella cyrhaeddiad mewn Saesneg a mathemateg TGAU

cyflwyno Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol sy'n agored i bob athro ac athrawes newydd gymhwyso fel rhan o'u rhaglen ymsefydlu a'u datblygiad proffesiynol cynnar. Mae'r cymhwyster yn canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru – llythrennedd, rhifedd ac effaith cyrhaeddiad ar dlodi – ac mae'n cynnig achrediad sydd wedi'i seilio ar ymchwil weithredol a gweithgareddau ymchwil eraill sy'n canolbwyntio ar elfennau ymarferol

lansio Hwb, platfform dysgu digidol Cymru gyfan. Bwriad Hwb yw annog, cynorthwyo a pharatoi athrawon i weithio mewn amgylchedd cynyddol ddigidol a rhannu eu hymarfer digidol. Mae Hwb hefyd yn ganolbwynt cenedlaethol ar gyfer creu, storio a rhannu adnoddau digidol. Mae modd cael gafael ar y rhain yn unrhyw le, ar unrhyw bryd ac ar unrhyw ddyfais

darparu deunyddiau hyfforddiant mewn swydd sy'n gysylltiedig â PISA er mwyn helpu ysgolion ac athrawon i ddatblygu sgiliau meta-wybyddol y disgyblion a'u gallu i gymhwyso'u gwybodaeth mewn amryfal gyd-destunau, gan wneud hynny fel rhan o'r dysgu beunyddiol

annog datblygu cymunedau dysgu proffesiynol. Mae cymunedau dysgu proffesiynol yn cynnwys grŵp o ymarferwyr sy'n cydweithio mewn ffordd strwythuredig a disgybledig i brofi a mireinio agwedd benodol ar eu hymarfer addysgu er mwyn gwella deilliannau i ddysgwyr a thrwy hynny godi safonau ysgolion.

Mae addysg effeithiol, yn fwy na bron unrhyw broffesiwn neu alwedigaeth arall, yn dibynnu ar ddefnyddio cyfalaf dynol mewn ffordd effeithiol – ac ar gymhelliant a sgiliau'r athrawon a'r staff cymorth sy'n gweithio gyda hwy. Yr allwedd i sicrhau newid o bwys yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth felly yw gwella sgiliau athrawon. Mae'r cynigion a ganlyn yn amlinellu ystod o opsiynau ategol er mwyn helpu i wireddu'r amcan hwn.

Sefydlu diwylliant agored

Mewn rhai o'r trafodaethau a'r cyfarfodydd yr wyf wedi'u cynnal, gwelais duedd i ystyried yr ystafell ddosbarth yn fyd preifat i'r athro. Ond nid wyf yn credu mai dyma'r farn gyffredinol ac, yn y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelais â hwy, soniwyd wrthyf am enghreifftiau o ddysgu agored a chydweithredol rhwng staff. Yn ffigur 2.2. ceir disgrifiad o ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n esiampl o waith cydweithredol da.

Ffigur 2.2 – Defnyddio dysgu gan gymheiriaid ac arsylwi gwersi yn Ysgol Dyffryn Ogwen

Mae arsylwi gwersi wedi chwarae rhan hollbwysig yn systemau hunanwerthuso'r ysgol ers blynyddoedd lawer. Arsylwir yr athrawon i gyd bob blwyddyn, fel rhan o'r system. Ar ddiwedd y wers, fe'i trafodir ar lafar ac yna, fe ddarperir adroddiad ysgrifenedig cyn gynted ag y bo modd, gan ddefnyddio graddau a diffiniadau Estyn.

Dros y blynyddoedd, mae'r rhan fwyaf o'r arsylwi wedi'i wneud gan y tîm uwch reoli, ond, yn y blynyddoedd diwethaf, mae ymgynghorwyr Cynnal (y gwasanaeth ymgynghorol i ysgolion) wedi bod yn rhan o'r system, ynghyd â phenaethiaid adran ac, yn fwy diweddar, yr athrawon eraill. Gall hyn olygu'n aml iawn bod dau neu dri o bobl mewn dosbarth yn arsylwi'r un wers. Y drafodaeth wedyn rhwng yr arsylwyr yw un o gryfderau'r system ac mae hyn wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith yr holl athrawon o nodweddion dysgu ac addysgu da.

Erbyn hyn, bydd yr athrawon i gyd yn arsylwi ac yn cael eu harsylwi gan athro arall fel rhan o'r broses hunanwerthuso ffurfiol. Dyma un o gryfderau system yr ysgol ac mae'n cynnig cyfleoedd i ledaenu a datblygu'r arferion gorau.

Pan gynhaliwyd y rownd gyntaf o arsylwi gwersi o dan y fframwaith newydd ym mis Ionawr 2011, ni chafodd yr un wers ei dyfarnu'n 'rhagorol'. Yn ystod y ddau hunanwerthusiad wedyn, dechreuodd yr ysgol ganolbwyntio ar geisio codi safon y gwersi 'da' er mwyn eu troi'n wersi 'rhagorol.'

Fel rhan o'r adborth i'r gwersi hyn, cynhaliwyd trafodaethau adeiladol rhwng aelod o'r

uwch dîm rheoli, un o ymgynghorwyr Cynnal a phenaethiaid adran neu athro/athrawes arall. Yn aml iawn, dyma'r tro cyntaf i rai athrawon arsylwi eu cydweithwyr a chymryd rhan mewn trafodaeth ehangach ynghylch y wers. Gwelwyd bod hyn yn hyfforddiant mewn swydd ardderchog, a'i fod yn arwain at drafodaethau proffesiynol buddiol ymhlith athrawon, rhai ffurfiol a rhai anffurfiol. Mae'r broses hon wedi arwain at well cysondeb o ran cynllunio gwersi da a rhagorol drwy'r ysgol.

Ar ôl y cyfnodau hyn o arsylwi gwersi, cynhelir cyfarfod staff bob tro i drafod cryfderau'r gwersi a arsylwyd a'r materion lle mae angen gwella. Mae lledaenu arferion da fel hyn bob tro'n werthfawr iawn. Cynhelir cyfarfodydd staff hefyd i drafod nodweddion gwersi rhagorol ac i edrych ar enghreifftiau o wersi rhagorol.

Un o gryfderau penodol y gwersi sy'n rhagorol yn yr ysgol yw cyflymder y gwersi a'r cynlluniau manwl sy'n dweud pa weithgareddau y bydd y disgyblion a'r athrawon yn eu cyflawni o fewn amserau penodedig. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion mwyaf anodd yn ymroi i'r wers gan eu bod bob amser yn gweithio ar dasg. Nodwedd arall ar yr addysgu sy'n dda neu'n well yw'r adborth a gaiff y disgyblion am eu gwaith. Canlyniad arall i'r cyd-arsylwi yw'r dull ymateb sy'n defnyddio 'dwy seren a dymuniad'.

Ym mis Tachwedd 2012, arolygwyd Ysgol Dyffryn Ogwen gan Estyn ac fe'i haseswyd yn ysgol 'rhagorol' gyda 'rhagolygon rhagorol ar gyfer gwella'. Dywedodd yr arolygwyr mai un o gryfderau'r ysgol oedd ansawdd a chysondeb yr addysgu, a bod hanner y gwersi a arsylwyd yn 'rhagorol'. Nod yr ysgol yn y dyfodol yw ceisio sicrhau bod yr addysgu'n dda neu'n rhagorol ym mhob gwर्स.

Ffynhonnell: Ysgol Dyffryn Ogwen

Nid rhyw ystyriaeth ymylol yw creu diwylliant lle mae'r ystafell ddosbarth yn un agored. Fel y dadleua ymateb Torfaen, mae angen datblygu'r canlynol:

'Diwylliant o "ystafelloedd dosbarth agored" mewn ysgolion lle mae cael ymwelwyr yn y dosbarth yn rhywbeth cyffredin, a lle mae arsylwi er mwyn gwella datblygiad proffesiynol yn digwydd yn rheolaidd ac yn aml... gan roi cyfle i bob athro gael adborth am eu gwर्स gan eu rheolwyr llinell, eu cyd-addysgwyr a'u disgyblion.'

Nid mater i Lywodraeth Cymru yn unig yw hyn – er, fel yr esbonia Pennod 5, mae yna gamau y gall y llywodraeth eu cymryd i'w helpu i ddatblygu. Mae angen i lywodraethwyr, arweinwyr ysgolion, athrawon a chyrff proffesiynol hefyd goleddu a meithrin ffordd agored o weithio – gan gynnwys disgyblion yn y broses o sut mae gwella'r addysgu a'r dysgu. Yn ei ymateb i mi, mae Estyn yn disgrifio'r diwylliant a'r ymarfer a ddylai fod ar waith ym mhob ysgol:

'Ar lefel ysgolion, mae angen i arweinwyr a rheolwyr nodi pwy yw'r athrawon rhagorol a phwy yw'r rhai sy'n tanberfformio, drwy arsylwi gwersi a monitro gwaith dysgwyr yn systemataidd. Yna mae angen iddynt helpu athrawon eraill i

wella drwy drefnu iddynt weld arfer gorau ar waith a chael eu coetsio a'u mentora yn ôl yr angen.'

Bod yn agored i ddysgu a gwella ymarfer sydd wrth wraidd yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn broffesiynol.

Datblygu model datblygu proffesiynol priodol

Mae gormod o ddatblygu proffesiynol yn y gorffennol wedi bod ar ffurf 'mynd ar gwrs' neu gymryd rhan mewn ymweliadau sy'n 'dangos' yr arferion gorau ac yna'n 'sôn amdanynt'. Mae yna werth i gynlluniau o'r fath ond mae'r ymchwil yn dangos nad y rhain yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o feithrin sgiliau a datblygu repertoire a dysgu athrawon ystafell ddosbarth. Fel mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn esbonio yn ei ymateb, gwelir y datblygiad proffesiynol gorau wrth i ymarferwyr rannu eu harferion. Mae hyfforddi allanol yn fwy tebygol o lawer o fod yn effeithiol os yw'n gysylltiedig â chynllunio gwersi ar y cyd, astudio gwersi ar y cyd, mynd ar droeon dysgu ar y cyd, arsylwi a gwerthuso gwersi gan gymheiriaid, coetsio a chael eich coetsio, neu gymryd rhan mewn cymuned dysgu broffesiynol. Mewn geiriau eraill, mae'r pwyslais ar roi'r dysgu ar waith a gwella'r ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Yn ddelfrydol, mae'r cyd-ddysgu'n digwydd ar draws ysgolion yn ogystal ag o'u mewn.

Mae rhai o'r consortia'n ceisio datblygu dulliau gwella ysgolion sy'n adlewyrchu'r dull hwn o weithredu. Er enghraifft, mae'r Rhwydwaith Dysgu ac Arloesi ar gyfer Ysgolion (LINKS) (sy'n cael ei gynnal hyd braich gan gonsortium Canol De Cymru) yn ceisio symud yn fwriadol oddi wrth ddibynnu ar raglenni y mae'n eu galw'n rhaglenni 'hyfforddi' a ddarperid gan y gwasanaeth gwella ysgolion a'i rhagflaenodd. Mae'n dechrau datblygu cydweithio rhwng ysgolion sy'n symud gwybodaeth o gwmpas y system. Dyma ambell enghraifft:

cefnogi 15 o ysgolion cynradd ym Mro Morgannwg a thair ysgol uwchradd sy'n gweithio mewn clwstwr i wella dulliau addysgu darllen a llafaredd

gweithio gydag ysgol cyfrwng Cymraeg i sicrhau bod sgiliau rhifedd yn ymwreiddio ar draws y cwricwlwm a hwyluso sefyllfa lle mae'r deunyddiau a'r dysgu sy'n gysylltiedig â hwy yn cael eu defnyddio gan ysgolion eraill.

O ystyried dadansoddiad Estyn o wendidau yn yr addysgeg, un dull sydd wedi bod yn effeithiol iawn, ac sy'n adeiladu ar fodel lle bydd athrawon yn dysgu ac ymarfer gyda'i gilydd, fyddai ehangu defnyddio dau gynllun a ddatblygwyd gan Ysgol Ravens Wood ym mwrdeistref Bromley yn Llundain fel rhan o Her Llundain, y Rhaglen Athrawon sy'n Gwella a'r rhaglen Athrawon Rhagorol – gweler Ffigurau 2.3 a 2.4. Mae llawer o ysgolion yn Lloegr a rhai yng Nghymru (gan gynnwys LINKS y cyfeirir ato uchod) yn defnyddio'r rhaglenni hyn bellach. Gallai llawer mwy o ysgolion Cymru wneud hynny. Gallai cynllunio a darparu'r rhaglenni hyn gynnig ffordd o wella addysgeg nifer sylweddol o athrawon mewn cyfnod cymharol fyr. Byddai'r rhaglenni'n eistedd ochr yn

ochr â'r broses gwella ysgol gyfan dan arweiniad pennaeth, proses a ddisgrifir ym Mhennod 3.

Ffigur 2.3 – Y Rhaglen Athrawon sy'n Gwella

<p>Mae'r Rhaglen Athrawon sy'n Gwella yn rhoi set o sgiliau a strategaethau i athrawon yr aseswyd eu bod yn 'foddhaol' i'w galluogi i ddod yn gyson dda. Mae'n agored i athrawon a allai ddarparu gwersi da'n gyson. Mae'r rhaglen yn para un hanner tymor. Fe'i darperir gan hwyluswyr achrededig drwy gyfrwng sesiynau wyneb yn wyneb a addysgir, drwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a throeon dysgu o fewn yr ysgol lle mae'r rhaglen yn cael ei chynnal.</p>		
<p>Beth yw'r nodau?</p> <p>Datblygu iaith gyffredin i drafod addysgu a dysgu. Dyfnhau'r ddealltwriaeth o agweddau allweddol ar addysgu a dysgu da a sut mae arfer yr agweddau hynny'n gyson. Gwella perfformiad yn yr ystafell ddosbarth, drwy annog cynllunio mwy trwyadl a herio pob un o'r myfyrwyr a sicrhau eu bod yn ymroi i'w gwersi. Ymateb i gael eich coetsio er mwyn gwella perfformiad.</p>	<p>Beth mae hyn yn ei olygu?</p> <p>Yn ystod cam cyntaf y rhaglen, gofynnir y cwestiwn 'beth sy'n gwneud athro da?'</p> <p>Yna, bydd pob sesiwn yn canolbwyntio ar fater addysgu a dysgu gwahanol, gan gynnwys ymgysylltu, herio, dechreuwyr, sesiynau llawn, holi a gwahaniaethu.</p> <p>Ar ôl y sesiwn, disgwylir i'r rhai sy'n cymryd rhan gwblhau tasgau yn ôl yn eu hysgol eu hunain, er mwyn atgyfnerthu'r syniadau a gafwyd ym mhob sesiwn a'u rhoi ar waith yn eu cyd-destun hwy eu hunain.</p>	<p>Beth yw'r ymrwymiad?</p> <p>Mae'r rhaglen yn gweithio orau os bydd ysgolion yn gallu anfon tri athro ar yr un cwrs, gan fod tasgau ymarferol yn yr ysgol wedi'u seilio ar grwpiau o dri.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n bosibl bwrw ymlaen â'r rhaglen hyd yn oed os na all ysgol ryddhau tri athro ar yr un pryd, oherwydd mae modd creu triawd ar draws gwahanol ysgolion.</p>

Ffigur 2.4 – Y Rhaglen Athrawon Rhagorol

<p>Mae'r Rhaglen Athrawon Rhagorol yn rhoi set o sgiliau a strategaethau i athrawon yr aseswyd eu bod yn 'dda' i'w galluogi i ddod yn gyson rhagorol ac yna cynnal y rhagoriaeth honno wedyn. Mae'n agored i athrawon sydd â'r potensial a'r cymhelliant i roi gwersi rhagorol yn gyson. Fe'i darperir gan hwyluswyr achrededig.</p>		
<p>Pa bynciau a drafodir?</p> <p>Beth yw hanfod addysgu rhagorol?</p> <p>Addysgeg yn yr ystafell ddosbarth gan gynnwys dysgu newydd am wahaniaethu.</p> <p>Coetsio a mentora.</p> <p>Archwilio cryfderau a</p>	<p>Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?</p> <p>Rhaid i ymgeiswyr:</p> <p>fod yn 'Dda' gyda'r potensial i fod yn 'Rhagorol'.</p> <p>fod â thair blynedd o</p>	<p>Beth yw'r ymrwymiad?</p> <p>Mae pob rhaglen yn cynnwys naw sesiwn dros naw wythnos.</p> <p>Mae'r rhaglen yn gweithio orau os yw ysgolion yn gallu anfon tri athro ar yr un cwrs, gan fod y coetsio'n digwydd fesul tri. Fodd bynnag, gellir</p>

<p>gwendidau ymarfer yn yr ysgol. Datblygu meini prawf llwyddiant. Defnyddio cwestiynu effeithiol? Deall asesu. Cynllunio a gwerthuso gweithredol.</p> <p>Mae'r rhaglen yn cynnwys tasgau ymarferol yn ôl yn ysgol y sawl sy'n cymryd rhan, ynghyd ag arsylwi yn yr ysgol lle mae'r rhaglen yn cael ei chynnal.</p>	<p>brofiad addysgu o leiaf.</p> <p>fod yn weithwyr proffesiynol uchel eu parch, sy'n ysbrydoli pobl ac sydd â sgiliau rhyngbersonol datblygedig.</p> <p>fod ag ymrwymiad i barhau â'u datblygiad proffesiynol hwy eu hunain a datblygiad proffesiynol staff eraill.</p>	<p>bwrw ymlaen â'r rhaglen hyd yn oed os na all ysgol ryddhau tri athro ar yr un pryd, oherwydd mae modd creu triawd ar draws mwy nag un ysgol.</p>
---	---	---

Opsiwn arall a fyddai'n helpu i ehangu'r gronfa o arbenigedd hyfforddi a datblygu fyddai i Lywodraeth Cymru wahodd a chymeradwyo rhestr o ysgolion o Gymru a thu hwnt a fyddai wedi'u hachredu i ddarparu cymorth ac ymyriadau yn yr ystafell ddsbarth ac ar draws ysgol gyfan. Byddai'r consortia rhanbarthol a'r ysgolion yn defnyddio'r rhestr hon i ddiwallu anghenion penodol eu hysgolion o ran gwella.

Mae'n bosibl y byddai rhai ysgolion yn dadlau bod mynd i'r afael â Datblygu Proffesiynol Parhaus fel hyn yn iawn o ran theori ond nad yw'n ymarferol oherwydd diffyg adnoddau ac amser staff. Yn gyntaf, nid yw dull o'r fath yn ddrutach nag anfon staff ar gynadleddau a chyrsgiau – a bydd bron iawn yn sicr o roi gwell gwerth am arian o lawer o ran yr wybodaeth a enillir a'r cynnydd a wneir. Yn ail, mae datblygu staff yn fusnes craidd ac mae angen ei ystyried yn rhan o waith llunio cyllideb graidd ysgolion – nid yw'n ychwanegiad dewisol. Fodd bynnag, mae'r cynigion ym Mhennod 4 sy'n cynnig trefniadau newydd lle bydd ysgolion yn gweithio mewn clystyrau a ffederasiynau, a'r opsiwn i gynyddu'r arian a ddirprwyir i ysgolion, yn creu cyd-destun a fydd yn cefnogi'r agenda hon.

Manteisio i'r eithaf ar y rhaglen hyfforddi a chefnogi ar gyfer llythrennedd a rhifedd

Mae'n gwbl hanfodol bod buddsoddiad sylweddol Llywodraeth Cymru mewn hyfforddi a datblygu er mwyn gwella llythrennedd a rhifedd yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd effeithiol. Dylai'r hyfforddiant ganolbwyntio ar feithrin sgiliau addysgwyr yn yr ystafell ddsbarth a chynorthwywyr addysgu. Mae'n bwysig hyfforddi cynorthwywyr addysgu a'u defnyddio'n effeithiol er mwyn ychwanegu'r gwerth mwyaf yn yr ystafell ddsbarth, fel y dywedodd Unsain yn ei ymateb.

Byddwn yn disgwyl gweld y rhan fwyaf o'r ymdrech a'r rhan fwyaf o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer hyfforddi a datblygu'n cael eu rhoi ar waith er mwyn coetsio yn yr ystafell

ddosbarth, ac er mwyn addysgu'n effeithiol ym maes ffoneg, gwella darllen, sgiliau ysgrifennu a rhifedd. Collir cyfle mawr wrth hyfforddi os bydd yn canolbwyntio'n unig ar gynlluniau gweithredu ac anfon arweinwyr cwricwlwm ar gyrsiau. Dylai'r hyfforddiant gael ei deilwra i anghenion pob ysgol a dylid ei seilio ar wella cynlluniau gwersi, ymarfer yn yr ystafell ddosbarth ac asesu ffurfiannol – yn enwedig ar roi adborth effeithiol.

Bydd gofyn i'r consortia rhanbarthol a'r cwmni y dyfarnwyd y contract hyfforddi iddo, CfBT, gronni eu hadnoddau a chydweithio â'i gilydd yn glos iawn a chyda phenaethiaid a chydlynwyr mewn ysgolion. Dylid targedu'r ymdrechion ar ysgolion a staff a ddynodir drwy ymweliadau gan arweinwyr systemau. Mae'n hanfodol cysoni gwybodaeth a rhoi hyfforddiant o ansawdd da ar waith mewn ysgolion er mwyn gwireddu'r dyheadau ar gyfer gwella llythrennedd a rhifedd. Mae'r fframwaith newydd yn cynrychioli'r hyn y mae Estyn yn ei alw'n 'ailwampio'r' cwricwlwm. Mae tystiolaeth yr ymchwil yn dangos, heb amheuaeth, fod angen darparu cymorth dwys a meithrin gallu er mwyn i'r cwricwla newydd wireddu eu hamcanion.

Datblygu cymorth gyda'r cwricwlwm er mwyn hwyluso'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

Mater arall y mae angen ei ystyried ar fyrder yw datblygu cymorth gyda'r cwricwlwm, cynlluniau gwaith ac arferion asesu er mwyn helpu'r ysgolion cynradd ac uwchradd hynny nad oes ganddynt arweinyddiaeth gref ar hyn o bryd a/neu nad ydynt yn perfformio'n ddigonol. Yn ôl asesiad Estyn, roedd tua chwarter yr ysgolion cynradd yn 2011/12 naill ai'n ddigonol neu'n anfoddfaol. Mae'r ymchwil yn awgrymu y bydd ysgolion o'r fath – a llawer ohonynt o bosibl yn ysgolion bach iawn – yn cael trafferth neu'n methu ag ymaddasu er mwyn rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd ar waith yn effeithiol os rhoddir rhwydd hynt iddynt ddilyn eu trywydd eu hunain.

Un opsiwn a fyddai'n gymharol syml i'w roi ar waith, ac a fyddai'n helpu ysgolion i gynnig arweinyddiaeth gryfach, fyddai i Lywodraeth Cymru a/neu'r consortia rhanbarthol ganfod yr ysgolion hynny sydd wedi datblygu cynlluniau effeithiol ar gyfer y cwricwlwm er mwyn ymateb i anghenion y fframweithiau newydd a defnyddio gwefan Dysgu Cymru a sesiynau rhwydweithio i rannu'r gwaith hwn gydag ysgolion eraill.

Symleiddio gofynion y cwricwlwm ac asesu

Yn ystod fy ymweliadau ag ysgolion a thrafodaethau gydag arweinwyr ysgolion, gwelais gefnogaeth eang i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd ac i'r ffaith bod TGAU newydd wedi'u cynnwys i gefnogi'r fframwaith. Fodd bynnag, mae arweinwyr ysgolion wedi dweud wrthyf hefyd fod angen adolygu'r cwricwlwm erbyn hyn, ei dwtio, fel y dywedodd un pennaeth, er mwyn sicrhau bod ffocws clir ar wella llythrennedd a rhifedd. Nid argymhell ymagwedd 'Gradgrind'³ at ddysgu yw hyn, oherwydd fel y pwysleisiodd Estyn, rhan hanfodol o lythrennedd a rhifedd effeithiol yw

³ Mr Gradgrind yw'r prifathro yn nofel Dickens *Hard Times* ac fe'i cysylltir â rhywun sy'n poeni'n bennaf am ffeithiau a rhifau moel.

rhoi'r sgiliau hynny ar waith a'u harfer mewn meysydd eraill yn y cwricwlwm ac yng nghyd-destun pynciau eraill. Yn anad dim, y gamp yw sicrhau meistrolaeth ar gysyniadau a sgiliau allweddol er mwyn i'r rheini gefnogi datblygiad a dealltwriaeth mewn meysydd pwnc eraill.

Mae arweinwyr ysgolion yn dweud hefyd fod angen dileu'r rhan fwyaf o asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol sy'n ofynnol ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 sydd, yn eu barn hwy, yn gorgyffwrdd â gofynion y profion darllen a rhifedd diwedd blwyddyn.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n gweithredu ar sail yr agenda hon eisoes. Ar 1 Hydref 2012, cyhoeddodd adolygiad o asesu a'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru. Nod yr adolygiad fydd cysoni a symleiddio'r trefniadau asesu ac ystyried craidd y cwricwlwm cenedlaethol a phynciau sylfaen eraill ym mhob cyfnod er mwyn sicrhau bod y disgwyliadau ynghylch y cynnwys a datblygu sgiliau'n ddigon cadarn.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r TGAU newydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer Saesneg iaith a Chymraeg iaith gyntaf a'r ddau TGAU mathemateg arfaethedig newydd sy'n cynnwys rhifedd a thechnegau mathemategol yn atgyfnerthu'r angen i ystyried hyd a lled y gofynion sy'n codi o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009⁴ y bydd gofyn i ysgolion eu cynnig. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen o dan gadeiryddiaeth pennaeth i edrych ar symleiddio gofynion Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer ysgolion a cholegau. Bydd yn adrodd i'r Gweinidog erbyn mis Medi 2013.

Tracio cynnydd pob plentyn mewn ffordd gyson

Mae athrawon effeithiol yn teilwra cynnwys eu dysgu er mwyn gwella cynnydd eu disgyblion. Maent yn gwybod i ba raddau y mae pob un o'u disgyblion yn gwneud cynnydd - ym mha feysydd y maent yn gryf ac ymhle y mae angen cymorth arnynt. Mae defnyddio asesu'n sail i'w haddysgu ac i roi adborth effeithiol i ddisgyblion yn sgiliau hanfodol i athrawon. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd Cymru yn defnyddio rhaglen sydd wedi'i datblygu gan gorff dielw o'r enw Incerts. Mae honno'n cynnig offeryn ar lein i helpu athrawon i asesu, monitro ac adrodd ar gynnydd pob plentyn.

Mae rhaglen Incerts wedi'i chynllunio ar hyn o bryd i gefnogi'r cwricwlwm cenedlaethol ond mae'n cael ei diwygio i gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd.

Un opsiwn cryf fyddai cyflwyno dull asesu ffurfiannol safonol, boed hwnnw'n Incerts neu'n unrhyw raglen arall, a fyddai'n cael ei ddefnyddio gan bob ysgol yng Nghymru i helpu i gyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Dylai opsiwn o'r fath gael ei fabwysiadu hefyd gan ysgolion uwchradd ar gyfer Blynnyddoedd 7 i 9 er mwyn sicrhau dilyniant a ffocws ar lythrennedd a rhifedd ar gyfer y grŵp oedran cyfan y mae'r fframwaith newydd yn ei gynnwys. Byddai hyn yn helpu hefyd i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd yn adroddiad Estyn 2011/12 ynghylch y gwendidau a'r

⁴ Mae Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, ar hyn o bryd, yn galluogi pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 i ddewis o blith 30 o gyrсияu o leiaf, a rhaid i bump o'r rheini fod yn alwedigaethol.

anghysonderau yn y ffordd y mae gwybodaeth am gynnydd disgyblion yn cael ei throsglwyddo a'i defnyddio rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Roedd nifer o'r sefydliadau a gyflwynodd dystiolaeth i'r adolygiad yn argymhell y dull hwn. Er enghraifft, cynigiodd Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) Cymru y dylid rhoi system tracio data genedlaethol ar waith ym mhob ysgol. Dadleuai is-grŵp o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) sy'n arbenigo ar reoli gwybodaeth er mwyn gwella ysgolion fel hyn:

‘Byddai sefydlu asesiadau cyffredin (gan gynnwys asesiadau rhanbarthol) i ategu asesiadau/proffion cenedlaethol yn ei gwneud yn bosibl nodi safonau yn gynharach, gan wella systemau olrhain a phennu targedau, a byddai hynny yn ei dro yn gwella perfformiad ysgolion.’

Wrth gwrs, ni fydd llawer o werth i unrhyw system dracio, pa mor gyson neu fuddiol bynnag, oni fydd athrawon ac arweinwyr canol yn gallu defnyddio'r data'n fedrus er mwyn targedu'r cymorth priodol ar bob plentyn a'u bod yn gallu cynllunio'u gwersi a'u dilyniant drwy'r cwricwlwm i adlewyrchu'r hyn y mae'r data'n ei ddweud wrthynt.

Ehangu trefniadau Ymarferwyr Arweiniol

Elfen allweddol o gylch gorchwyl yr adolygiad hwn oedd "meithrin gallu'r system ysgolion i gynorthwyo yn y gwaith o'i gwella ei hun". Mae ehangu'r trefniadau ar gyfer Ymarferwyr Arweiniol wrth wraidd cyflawni'r amcan hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi 21 o ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol yn ddiweddar. Eu rôl yw defnyddio arbenigedd arwain ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n perfformio'n dda i gefnogi'r ysgolion hynny sydd wedi ymdrechu i wella'u perfformiad ond heb gael fawr o lwyddiant hyd yn hyn. Mae'n bwysig, er mwyn sicrhau dilysrwydd y cynllun hwn, mai dim ond ysgolion sy'n wirioneddol ragorol ac sydd â'r ddealltwriaeth a'r gallu i gynorthwyo ysgolion eraill sy'n cael eu dynodi'n ysgolion Ymarferwyr Arweiniol – a dylid adolygu'u dynodiad yn gyson os bydd eu perfformiad yn dechrau dirywio. Bydd angen cymorth ar yr ysgolion hyn hefyd i dyfu er mwyn ymdopi â'u rôl newydd. Gan gadw'r cyfyngiadau hyn mewn cof, dylai ceisio cynyddu nifer yr ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol o'r naill flwyddyn i'r llall. At hynny, gallai Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda'r consortia rhanbarthol, wahodd ceisiadau a dynodi ysgolion ar sail meini prawf trwyadl a bennir yn genedlaethol:

Adrannau sy'n Ymarferwyr Arweiniol – mae rhai ysgolion na fyddant, o reidrwydd, yn ddigon cryf ar draws pob maes i fod yn gymwys i gael statws Ymarferydd Arweiniol cyffredinol ond bod ganddynt efallai rai adrannau sy'n perfformio'n dda – neu mewn ysgolion cynradd, efallai y bydd ysgol yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd ymarfer yn y cwricwlwm – a bod ganddi arbenigedd a allai helpu ysgolion eraill i ddatblygu mewn meysydd pwnc penodol. Byddai achredu'r adrannau hyn yn fodd i gynnig adnodd arbenigol i gynorthwyo ysgolion eraill, ac fel yr esbonnir ym Mhennod 4, byddai hyn o fudd i'r ysgol sy'n darparu'r adnodd hefyd.

Ymarferwyr Arweiniol – mae Pennod 3 yn disgrifio sut y mae angen i arweinyddiaeth ysgolion goleddu'r cysyniad o arweinyddiaeth yn yr ystafell ddosbarth. Mae angen i ysgolion yng Nghymru gydnabod sgiliau ymarferwyr arbenigol yn yr ystafell ddosbarth a manteisio arnynt i'r eithaf. Byddai datblygu system ledled y wlad o achredu Ymarferwyr Arweiniol sydd â'r sgiliau i fodelu addysgu o ansawdd da ac i goetsio athrawon eraill am ddiwrnod neu ddau yr wythnos yn rhoi hwb syml ac amserol i allu system ysgolion Cymru i'w chynorthwyo'i hun i wella. Byddai'r syniad hwn yn adeiladu ar y bwriad i ganfod a defnyddio athrawon llythrennedd a rhifedd rhagorol.

Byddai'r ddau ddewis uchod yn golygu y byddai gofyn i'r consortia rhanbarthol gomisiynu rhaglenni i sicrhau bod athrawon wedi'u harfogi i fodelu arferion ardderchog ac i goetsio eu cydweithwyr. Bydd yn rhaid datblygu rhwydwaith eang o athrawon sydd â sgiliau coetsio cryf er mwyn gwella addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae Ffigur 2.5 yn esbonio rôl athrawon sy'n coetsio.

Ffigur 2.5 – Deall rôl athrawon sy'n coetsio

Seilir coetsio mewn ysgolion ar ddeialog broffesiynol rhwng ymarferydd medrus a phrofiadol (y sawl sy'n coetsio) ac athro/athrawes yn yr ystafell ddosbarth (y sawl sy'n cael ei goetsio). Y pwrpas yw helpu'r sawl sy'n cael ei goetsio i ddatblygu sgiliau proffesiynol penodol i wella'i repertoire addysgu. Mae'n bosibl y bydd y sawl sy'n coetsio yn modelu elfennau penodol o sgil, yn arsylwi'r sawl sy'n cael ei goetsio, yn cynnig adborth ffurfiol a chyfleoedd i fyfyrwyr a datrys problemau.

Fe gaiff y sawl sy'n cael ei goetsio ddewis agwedd i ganolbwyntio arni, neu fe allai hynny godi yn sgil rhyw angen datblygu a ddynodwyd ar ôl cynnal trafodaeth rhyngddo a'r rheolwr llinell.

Fel rheol, ni fydd pobl sy'n coetsio yn rheolwyr llinell ar y bobl y byddant yn eu coetsio.

Ffynhonnell: Addaswyd o waith Lofthouse et al (2010)

Byddai angen cydnabod hefyd y gallai fod angen rhywfaint o arian ysgogi cychwynnol ar ysgolion sy'n rhoi'r cymorth er mwyn gwneud iawn am y rhan honno o amser athro/athrawes a fyddai'n cael ei cholli pan fyddent yn cynorthwyo ysgolion eraill - er y byddai rhywun yn disgwyl i ysgolion eraill gyfrannu at gost unrhyw goetsio neu gymorth datblygu personol a gaent. Felly, pan fyddai'r sefyllfa yn ei chyflwr sefydlog, byddai rhywun yn disgwyl i ysgol sydd ag adran Ymarferwyr Arweiniol a/neu Ymarferydd Arweiniol fedru cynhyrchu'r adnoddau a fyddai'n angenrheidiol er mwyn darparu athrawon cyflenwi priodol a fyddai'n cymryd lle'r rheini a fyddai'n cynnig cyd-gymorth rhwng ysgolion.

Cafwyd un awgrym ynghylch effeithiolrwydd posibl y rhaglenni hyn gan gonsortiw rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru. Gan weithio gyda phenaethiaid ac

arweinwyr eraill, aeth y consortiwm ati'n ofalus i ddedhol a hyfforddi arweinwyr ysgolion i ymyrryd er mwyn rhoi cymorth i ysgolion eraill. Roedd yr ymyriadau'n cynnwys cynnal adolygiad deuddydd dwys mewn ysgol, modelu ymddygiadau, systemau a strategaethau rheoli, bod yn fentor arweinyddiaeth, adolygu a gwella'r ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol, cynorthwyo i sicrhau gwell ymddygiad a gwell rheolaeth yn yr ystafell ddosbarth, a datblygu strategaethau er mwyn symud ysgolion o un o categorïau Estyn.

Yn y gwerthusiad a gomisiynwyd gan y consortiwm, gwelwyd bod yr ysgolion a oedd wedi cael eu cefnogi wedi gwella'u deilliannau o ran cyrhaeddiad a bod ysgolion penodol wedi cael eu symud o un o gategorïau Estyn. At hynny, adroddwyd yn y gwerthusiad bod yr arweinwyr a oedd yn rhoi'r cymorth hefyd wedi cael y profiad yn un cadarnhaol a buddiol. Roedd y bartneriaeth yn werthfawr i'r ddwy ochr – gan adlewyrchu'r dystiolaeth a roddir gan filoedd o ysgolion yn y Deyrnas Unedig a ledled y byd ynghylch rhyddhau neu rannu staff ag ysgolion eraill. Dros gyfnod, bydd ysgolion yn ennill cymaint ag y byddant yn ei roi wrth weithio gydag ysgolion eraill a'u cynorthwyo – fel y mae Pennod 4 yn ei gadarnhau.

A chofio'r anawsterau daearyddol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, byddai'n ddoeth cynyddu'r defnydd ar dechnoleg fideo er mwyn helpu i goetsio a rhoi cymorth datblygu i athrawon yn yr ystafell ddosbarth. Mae nifer o systemau arbenigol ar y farchnad ac mae'r ysgolion sydd wedi mabwysiadu'r dull hwn wedi'i gael yn eithriadol o werthfawr.

Gwella'r modd yr addysgir y Gymraeg

Mae'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg a'r cynllun gweithredu ar gyfer Cymraeg ail iaith a gefnogir drwy'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer datblygu ymarfer a gwella safonau a chyrhaeddiad yn y Gymraeg. Mae'r opsiynau isod yn adeiladu ar sail y fframwaith hwn.

Arweinwyr systemau i ddefnyddio data asesu i ddynodi a thargedu'r ysgolion hynny lle mae'r ymarfer ar ei waethaf.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg i gael hyfforddiant llawn a phriodol i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd ar waith drwy sicrhau bod cymorth ar gael iddynt oddi wrth bobl fedrus sy'n gallu coetsio a hyfforddi, ac sydd hefyd yn medru'r Gymraeg.

Sicrhau bod ystod ddigonol o ddeunyddiau ac adnoddau Cymraeg ar gael i gefnogi'r broses o roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith ar draws y cwricwlwm, ac a fydd yn gymorth hefyd wrth addysgu pynciau eraill.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg i weithio mewn clystyrau neu ffederasiynau lle bynnag y bo hynny'n ymarferol er mwyn cynorthwyo'i gilydd (gweler Pennod 4) – gan gynnwys cyd-benodi neu gyd-ddefnyddio athrawon ar draws y sectorau cynradd ac uwchradd.

Dynodi Ymarferwyr Arweiniol ac ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n Ymarferwyr Arweiniol i gynorthwyo ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill – gan weithio mwy ar sail consortia rhanbarthol nag ar sail awdurdod lleol er mwyn sicrhau, mewn sefyllfa lle mai ysgol cyfrwng Cymraeg yw'r unig un o'i math yn yr awdurdod, nad yw hi mor ynysig.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i gydweithio'n helaeth ar raglenni datblygu proffesiynol sy'n meithrin sgiliau addysgu a dysgu generig ar draws y mathau o ysgolion.

Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi sefydlu adolygiad ar wahân i ystyried pa newidiadau y dylid eu gwneud i addysgu ac asesu'r Gymraeg fel ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 er mwyn i ragor o ddysgwyr allu defnyddio'r iaith. Ar sail y trafodaethau a'r syniadau yr wyf wedi'u cael, efallai yr hoffai'r adolygiad ystyried:

estyn y defnydd o grwpiau trochi a secondiadau i ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn hybu sgiliau iaith athrawon sy'n dysgu'r Gymraeg fel ail iaith

y rôl y dylai sgiliau Cymraeg ei chwarae ym Magloriaeth Cymru, gan gynnwys ystyried a ddylai sgiliau gweithredol yn y Gymraeg fod yn rhan o'r gofyniad craidd ai peidio.

Gwella addysgu a dysgu disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol

Ym mis Ionawr 2012 roedd 43 o ysgolion arbennig yng Nghymru. Ers dwy flynedd, mae Estyn wedi gweld bod perfformiad a rhagolygon gwella'r holl ysgolion arbennig a arolygwyd ganddo naill ai'n 'dda' neu'n 'rhagorol'. Un o themâu allweddol y bennod hon yw bod angen meithrin gallu ysgolion a'r system addysg drwyddi draw i'w cynorthwyo i'w gwella'u hunain. O ystyried perfformiad ysgolion arbennig, byddai'n gwneud synnwyr felly, i fanteisio i'r eithaf ar eu cryfderau a dyma rai o'r opsiynau ar gyfer gwneud hynny:

dynodi ysgolion arbennig ardderchog yn ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a'u hathrawon gorau yn Ymarferwyr Arweiniol i ddarparu adnodd i gynorthwyo ysgolion y brif ffrwd i ddiwallu anghenion disgyblion sydd ag anawsterau dysgu a phroblemau rheoli ymddygiad

defnyddio Ysgolion Arbennig sy'n Ymarferwyr Arweiniol i ddarparu gwasanaethau allgymorth i helpu ysgolion y brif ffrwd i reoli anghenion disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu broblemau ymddygiad mewn ffordd effeithiol


dirprwyo'r adnoddau sydd gan awdurdodau lleol ar gyfer anghenion lles addysg ac anghenion dysgu ychwanegol i ffederasiynau/clystyrau o ysgolion (sy'n cynnwys Ysgolion Arbennig sy'n Ymarferwyr Arweiniol). O dan yr opsiwn hwn, byddai'r clystyrau'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu a/neu gomisiynu'r gwasanaethau a'r cymorth angenrheidiol i ddiwallu anghenion ychwanegol disgyblion – ac eithrio'r rheini sydd ag anghenion arbenigol a dwys iawn. Fe allai clystyrau o ysgolion a

ffederasiynau hyd yn oed fod â'r 'hawl i ddarparu' darpariaeth ychwanegol ac amgen, ar yr amod eu bod yn cadw at rai amodau penodol. Archwilir yr opsiynau hyn eto ym Mhennod 4 a thrafodir y goblygiadau yn sgil hynny ar gyfer y drefn atebolrwydd ym Mhennod 5.

Gwella addysgu a dysgu disgyblion o gefndiroedd difreintiedig

Un o brif amcanion Llywodraeth Cymru yw torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrrhaeddiad addysgol a chau'r bwlc cyrrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn eu cael. Mae'r her hon yn un gymhleth ac mae gofyn gweithredu ac ymyrryd mewn sawl maes – y tu mewn i'r ysgol a'r tu allan iddi. Fodd bynnag, yn ei adroddiad yn 2011/12, dywedodd Estyn, er bod cydberthynas gyffredinol rhwng amddifadedd a pherfformiad, fod ysgolion sy'n wynebu lefelau tebyg o anawsterau'n perfformio'n wahanol iawn i'w gilydd. Mewn rhai ysgolion, roedd cyfran y disgyblion a oedd yn cael pum gradd A* i C, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg, yn sylweddol uwch na'r gyfran mewn ysgolion eraill â niferoedd tebyg o'u disgyblion yn cael prydau ysgol am ddim – fel y dangosir yn Ffigur 2.6.

Ffigur 2.6 – Canran y disgyblion 15 oed a gyrhaeddodd drothwy Lefel 2, gan gynnwys Cymraeg/Saesneg iaith gyntaf a mathemateg yn 2012



Diemwnt glas = Ysgolion uwchradd yng Nghymru

Sgwâr coch = Ysgolion uwchradd a nodwyd mewn astudiaethau achos yn adroddiad thematig Estyn yn 2012, 'Tlodi ac Anfantais'

Nodyn: Mae'r ysgolion sy'n cael eu dynodi gan sgwariau coch yn cyfeirio at astudiaethau achos a gomisiynwyd gan Estyn o ysgolion, a'r astudiaethau hynny'n disgrifio'r camau gweithredu a'r ymyriadau ymarferol sy'n bosibl er mwyn cau'r bylchau cyrrhaeddiad.

Ffynhonnell: Estyn (2013)

Yn 2012/13 ymrwymodd Llywodraeth Cymru £32.5 miliwn i ariannu Grant Amddifadedd Disgyblion, lle telir £450 i ysgolion am bob un o'r disgyblion sydd


ganddynt sy'n cael prydau ysgol am ddim. Nod yr arian ychwanegol yw helpu ymdrechion i wneud iawn am effaith tlodi a chau'r bylchau cyrhaeddiad.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda'r Education Endowment Foundation i ystyried sut orau y mae gwneud mwy o ddefnydd o Becyn Cymorth Addysgu a Dysgu y Sutton Trust-EEF⁵ mewn ysgolion yng Nghymru a chynyddu'r nifer sy'n ei ddefnyddio. Mae'r pecyn yn crynhoi effeithiolrwydd cymharol, dylanwad a chost amryfal ymyriadau posibl y gall ysgolion eu gwneud er mwyn cau'r bylchau cyrhaeddiad. O ystyried pa mor gryf yw'r sylfaen dystiolaeth hon, un opsiwn fyddai i arolygiadau Estyn asesu i ba raddau y mae ysgolion yn defnyddio tystiolaeth yn sail i'w strategaeth a'r camau a gymerir ganddynt i ddefnyddio dyraniad y Grant Amddifadedd Disgyblion ac i wella perfformiad eu disgyblion mwyaf difreintiedig.

Casgliad

Nod yr opsiynau ar gyfer gwella addysgu a dysgu a ddisgrifir yn y bennod hon yw cryfhau gallu ysgolion i'w helpu eu hunain i wella – gan fanteisio i'r eithaf ar yr un pryd ar yr adnoddau, y cymorth a'r rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n ganolog gan Lywodraeth Cymru. Mae Ffigur 2.7 yn dangos sut mae'r cymorth a'r cyllid yn llifo i'r ysgolion, a sut y gallai lifo pe bai lefel y dirprwyo'n uwch, er mwyn cefnogi model datblygu proffesiynol sy'n seiliedig ar gynlluniau athrawon, arsylwi, coetsio, cefnogi a chyd-ddysgu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth ysgolion sy'n perfformio'n dda yn benodol.

Ffigur 2.7 – Opsiwn ar gyfer darparu gwell datblygiad proffesiynol



⁵ Mae pecyn Addysgu a Dysgu y Sutton Trust-EEF i'w weld yma: <http://educationendowmentfoundation.org.uk/toolkit>

Mae'r model yn rhagweld y byddai tair ffynhonnell gymorth yn cael eu cydblethu. Yn gyntaf, byddai'r rhaglen hyfforddi a datblygu sy'n mynd law yn llaw â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cynnig ffynhonnell bwysig o gymorth datblygu i bob ysgol. Yn ail, byddai'r ysgolion yn cael dewis prynu rhaglenni a gomisiynir gan eu consortia rhanbarthol – gan gynnwys rhaglenni megis y rhaglen Athrawon sy'n Gwella a'r rhaglen Athrawon Rhagorol. Yn drydydd, byddai cyfran gynyddol o ddatblygu proffesiynol yn dod wrth i ysgolion estyn a dyfnhau eu gwaith gydag ysgolion eraill a'r trefniadau i gynorthwyo'i gilydd.

Esbonnir rhagor am agweddau ar y model darparu mewn penodau diweddarach – gan gynnwys y trefniadau posibl ar gyfer dirprwyo cyllid a dyrannu'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Cymraeg mewn Addysg. Fodd bynnag, y bwriad yw sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn mynd i'r ysgolion, a bod ysgolion, o'r herwydd, yn ysgwyddo llawer mwy o gyfrifoldeb dros wella'u hysgolion eu hunain, gan berchenogi'r broses honno.

Dros gyfnod, dylai effaith datblygiad proffesiynol mwy effeithiol fod yn amlwg, a hynny ar ffurf gwell lefelau cyrhaeddiad. Serch hynny, byddai arolygiadau Estyn – ac, yn benodol, asesiad arolygwyr o ansawdd darpariaeth ysgol a'i rhagolygon ar gyfer gwella – hefyd yn fodd i wirio i ba raddau y byddai arweinwyr ysgolion yn datblygu ffyrdd o fynd ati i sicrhau datblygiad proffesiynol a fyddai'n adlewyrchu anghenion eu hysgolion a'r dystiolaeth ynghylch sut orau mae trefnu ymarfer datblygu proffesiynol.

Pennod 3: Opsiynau ar gyfer cryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion

Cyflwyniad

Dim ond addysgu sy'n bwysicach nag ansawdd yr arweinyddiaeth mewn ysgolion o ran yr effaith a gaiff ar ddeilliannau myfyrwyr. Mae'n galonogol dweud, felly, wrth imi deithio o gwmpas Cymru, imi gael y fraint o ymweld a sgwrsio â nifer o arweinwyr ysgol rhagorol sy'n cyflawni pethau gwych iawn yn eu hysgolion. Mae'n bwysig dweud nad cyfarfodydd gydag un unigolyn ysbrydoledig yn unig oedd llawer o'r cyfarfodydd hynny, ond bod y pennaeth wedi bod yn awyddus imi gael sgwrs ag aelodau allweddol eraill o'r tîm arwain. Mae'r arwain wedi bod yn ymdrech ar y cyd. Nid dod o hyd i'r hyn a elwir weithiau'n 'arwyr-benaethiaid' yw hanfod arweinyddiaeth gref mewn ysgol. Yn hytrach, mae angen datblygu a chefnogi arweinwyr sy'n llawn angerdd a gweledigaeth, sy'n meithrin cysylltiad ag eraill ac yn eu grymuso i'w helpu i wireddu'r weledigaeth yn eu hysgol – gan gyfrannu at wella'r system ysgolion ehangach.

Fodd bynnag, fy marn i yw nad yw'r model arweinyddiaeth hwn wedi bwrw gwreiddiau mor ddwfn ym mhob rhan o Gymru ag y mae angen iddo wneud. Cyfarfûm hefyd â phenaethiaid a oedd yn gwegian o dan bwysau lu ac nad oeddent yn teimlo eu bod wedi'u grymuso na'u harfogi i ymdopi â'r heriau a oedd yn eu hwynebu. Roedd arweinwyr eraill, ar y lefel ganol a'r lefel uwch, yn eithaf agored gan ddweud wrthyf nad oeddent wedi cael digon o gymorth i arwain a bod hyn yn eu llesteirio rhag cyfrannu fel y gallent i'r system ysgolion. Daeth yn amlwg iawn imi hefyd nad yw addysg yng Nghymru yn defnyddio gystal ag y gallai gryfderau ac adnoddau'r arweinwyr a'r timau arwain o safon sydd ganddi. Fel y dywed ymateb Cyngor Sir Ddinbych:

'Mae angen cydnabod hefyd bod llawer o'r dulliau gorau eisoes yn cael eu gweithredu mewn ysgolion, wedi'u datblygu gan athrawon ac arweinwyr effeithiol sy'n ysbrydoli.'

Un o brif nodau'r adolygiad hwn yw datblygu a chryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion a chynnig modelau arwain a fydd yn cyfrannu fwyaf at wella safonau addysg ledled Cymru. Mae Ffigur 3.1 isod yn crynhoi'r gwersi a ddysgwyd gan systemau ysgolion o gwmpas y byd ynghylch natur arweinwyr ac arweinyddiaeth effeithiol mewn ysgolion a sut mae datblygu arweinyddiaeth.

Ffigur 3.1 – Prif gasgliadau'r ymchwil i arweinyddiaeth mewn ysgolion

Dylai'r arweinwyr mwyaf effeithiol mewn ysgolion:

fod â disgwyliadau uchel, fod yn emosiynol gydnherth, a dylent fod yn optimistaidd ac yn hyblyg

diffinio gweledigaeth sy'n codi disgwyliadau a datblygu strategaeth a systemau i wireddu eu hamcanion

creu'r seilwaith iawn ar gyfer addysgu a dysgu drwy wella'r amgylchedd dysgu ffisegol a sicrhau bod dulliau effeithiol o reoli ymddygiad ar waith er mwyn osgoi tarfu ar addysgu yn yr ystafell ddosbarth

ailgynllunio rolau a chyfrifoldebau arwain i hybu ffocws ar well addysgu a dysgu a gwell deilliannau i fyfyrwyr

cyfoethogi'r cwricwlwm er mwyn dyfnhau'r ymgysylltu gan ddisgyblion a gwella'r cyflawni

canolbwyntio ar arweinyddiaeth gyfarwyddol drwy ddefnyddio dewislen o arferion effeithiol – gan gynnwys coetsio a datblygu athrawon, gosod targedau, defnyddio data a meithrin ymarfer cyson ar draws yr ysgol

gweithio'r un oriau â phenaethiaid eraill, ond treulio rhagor o amser gyda phobl – yn ymweld ag ystafelloedd dosbarth, yn coetsio athrawon ac yn ymwneud â rhieni, gweinyddwyr allanol a myfyrwyr

meithrin cydweithredu'n fewnol drwy ddarparu amrywiaeth gyfoethog o gydgyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol i'r staff

gweithio gydag ysgolion eraill a bod yn agored i ddysgu oddi wrthynt.

Y duedd ryngwladol erbyn hyn yw bod arweinwyr ysgolion yn dod yn fwy annibynnol sy'n golygu bod ansawdd yr arweinyddiaeth yn bwysicach byth.

Mae gwella ysgolion mewn ffordd sy'n hunangynhaliol yn golygu bod angen grymuso arweinwyr ysgolion i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wella a'i bod yn gwireddu'r gwella hwnnw drwy greu ac arwain partneriaethau rhwng ysgolion.

I benaethiaid sy'n perfformio'n dda, bydd cynorthwyo ysgolion ac arweinwyr eraill i wella'n rhywbeth deniadol. Byddant yn gwneud hyn yn amlach na phenaethiaid eraill ac yn rhannu eu harbenigedd drwy goetsio a mentora effeithiol.

Mae ffederasiynau a phartneriaethau sydd ag arweinyddiaeth weithredol yn fwy effeithiol na'r rheini sydd â strwythurau arweinyddiaeth traddodiadol (un pennaeth yn arwain un ysgol).

Mae systemau ysgolion sy'n tywys ac yn cynorthwyo i ddatblygu gyrfaoedd darpar arweinwyr mewn ffordd ragweithiol ac sydd â llwybr dilyniant clir ar gyfer arweinyddiaeth yn fwy tebygol o fod yn effeithiol.

Yr hyn sy'n cyfrannu fwyaf at ddatblygu arweinyddiaeth ysgolion yw darparu cyfleoedd cyfoethog ac amrywiol i bobl arwain, arloesi ac ysgwyddo cyfrifoldeb – mae'r cyfleoedd hyn yn fwy niferus ac amrywiol mewn partneriaethau a ffederasiynau (a chadwyni) nag y maent mewn ysgolion unigol.

Un dull arbennig o effeithiol o helpu arweinwyr i ymgyfarwyddo ac ymgynefino â rolau sy'n gofyn mwy ganddynt yw'r dull prentisiaeth broffesiynol, a hynny ar bob lefel hyd at brifathrawiaeth weithredol, a chan gynnwys y swydd honno.

Ffynonellau: Barber et al (2010); Chapman et al (2011); Day et al (2010); Hargreaves (2012), Leithwood et al (2004); Pont et al (2008); Matthews et al (2011)

Cynnydd diweddar

Mae gwahaniaeth cynnil ond pwysig rhwng ansawdd arweinyddiaeth ysgolion yn y sector uwchradd a'i hansawdd yn y sector cynradd. Ym marn Estyn, mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion yn 'rhagorol' mewn un o bob pump ysgol uwchradd ac mae'n cynnig darlun cryno o beth yw hanfod arweinyddiaeth ragorol o safbwynt ymarferol:

'Mae gan yr ysgolion lle mae'r gwaith arwain yn rhagorol dîm effeithiol iawn o uwch-arweinwyr. Maen nhw'n cyflawni eu rôl fel rheolwyr llinell yn dda iawn. Maen nhw'n rhoi pwyslais pendant ar wella safonau ac addysgu, ac maen nhw'n cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd ac â'r aelodau eraill o'r staff. ...Maen nhw'n mynd ati i ddadansoddi data'n drwyadl er mwyn monitro perfformiad a thargedu tanberfformiad i wella cyrhaeddiad, ymddygiad a phresenoldeb. Mae cysondeb i'w weld hefyd yn ansawdd arweinwyr canol yr ysgolion yma. Mae arweinwyr canol yn cael eu dal yn atebol yn llawn am eu meysydd cyfrifoldeb ac maen nhw'n gweithredu dan ddiwylliant o ymddiriedaeth a disgwyliadau uchel.'

Estyn (2013)

Mewn ysgolion cynradd, ac mae hyn yn adlewyrchu'r asesiad cyffredinol o'u heffeithiolrwydd fel y'i disgrifiwyd ym Mhennod 2, dim ond mewn 6 y cant o'r ysgolion cynradd y mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn 'rhagorol' – er bod gan ysgolion cynradd garfan ehangach o ysgolion (73 y cant) lle yr aseswyd bod yr arweinyddiaeth yn 'dda' yn 2011/12.

Yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, mae'n orfodol o hyd i'r holl ymarferwyr sy'n symud i'w swydd gyntaf fel pennaeth yng Nghymru feddu ar y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP). Ers mis Medi 2011, dyfarnwyd y CPCP ar sail asesiad sy'n seiliedig ar ymarfer yn unol â Safonau Arweinyddiaeth a bennwyd yn genedlaethol. Nid yw'r CPCP yn gwrs a addysgir bellach, ond rhaid i'r ymgeiswyr fynd drwy broses dethol dri cham – gweler Ffigur 3.2. Mae oddeutu tri chwarter yr ymgeiswyr yn llwyddo yn y ganolfan asesu. Yn ei hymateb i'r adolygiad, barn Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon oedd bod symud at fodel newydd y cymhwyster wedi cael ei weld yn gam cadarnhaol ar y cyfan.

Ffigur 3.2 – Proses ddethol y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth yng Nghymru

Mae'r CPCP yn agored i unrhyw ymarferwyr sy'n teimlo eu bod yn cyrraedd y Safonau Arweinyddiaeth cenedlaethol. Mae gofyn i ddarpar ymgeiswyr lenwi ffurflen gais sydd wedi'i chymeradwyo gan bennaeth yr ymgeisydd (neu gan gadeirydd y llywodraethwyr os yw'r ymgeisydd yn bennaeth dros dro). Rhaid hefyd i'r ffurflen gais gael ei chymeradwyo gan berson dynodedig o awdurdod lleol yr ymgeisydd. Yna, mae panel dethol rhanbarthol yn asesu'r cais. Dynodir swyddog cymorth o'r awdurdod lleol i gynorthwyo'r rheini a ddetholir a bydd gofyn iddynt:

fynd i ddiwrnodau gweithdai
cyflwyno pecyn data a thystiolaeth i'w asesu
mynd i ganolfan asesu sy'n profi addasrwydd yr ymgeiswyr i fod yn bennaeth.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

O ran y cymorth arall sydd ar gael i ddatblygu arweinwyr, gwelwyd tri datblygiad arall o bwys. Mae'r radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol i athrawon sydd newydd gymhwyso yn cynnwys modiwlau yn y drydedd flwyddyn – ar ymchwil weithredol a hunanwerthuso – sy'n helpu i baratoi rhywun ar gyfer arweinyddiaeth.

Yn ail, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu offeryn hunanadolygu ar gyfer arweinyddiaeth i helpu darpar arweinwyr i ddeall rhagor am yr hyn y mae arwain ysgol yn ei olygu ac i nodi'r meysydd hynny lle mae angen iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u harbenigedd⁶.

Yn drydydd, roedd y penaethiaid y cyfarfûm â hwy'n canmol y cynllun arolygu gan gymheiriaid a ddatblygwyd gan Estyn ac roedd y ganmoliaeth honno i'w chlywed yn aml ac yn eang. Mae'r cynllun hwn yn gwahodd uwch arweinwyr (hynny yw, dirprwy bennaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol, yn ogystal â phenaethiaid) i fod yn aelodau llawn o dîm arolygu. Mae'r arolygwyr sy'n gymheiriaid yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau arolygu o arsylwi sesiynau, gwranddo ar ddysgwyr, craffu ar samplau o waith, arwain ar gwestiwn allweddol, archwilio dangosyddion ansawdd ac ysgrifennu adrannau o'r adroddiad arolygu. Mae arweinwyr ysgolion yn dweud bod y profiad yn eu helpu i wella'u gallu hwy eu hunain i ddadansoddi sut mae gwella'u hysgol yn ogystal â chynnig syniadau iddynt eu defnyddio yn ôl yn eu hysgol eu hunain.

Y maes arall lle y gwelwyd datblygiad pwysig yw datblygu cydgymorth rhwng ysgolion. Yn gynharach yn 2013, gwahoddodd Llywodraeth Cymru ysgolion sydd â hanes cryf a pharhaus yn y tair blynedd diwethaf ym maes darllen, ysgrifennu a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 2 (cynradd), neu yn Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg a Saesneg iaith gyntaf a mathemateg, i wneud cais am statws ysgol sy'n Ymarferydd Arweiniol.

⁶ Gweler

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/schoolfundingandplanning/trainingdevelopment/leadershipandmanagement/lpheadteachers/supportforheadteachers/?skip=1&lang=cy>

Dynodwyd un ar hugain o ysgolion o'r fath⁷ ac maent wedi cael eu paru ag ysgolion y mae angen cymorth arnynt. Y bwriad yw bod ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol yn defnyddio'u harweinyddiaeth a'u harbenigedd i gynorthwyo ysgol arall – mewn geiriau eraill, bod y rhaglen nid yn unig yn manteisio ar sgiliau ac arweinyddiaeth y pennaeth ond hefyd ar adnoddau staff eraill.

Mae system addysg Cymru hefyd yn dechrau gweld datblygu penaethiaid gweithredol – penaethiaid profiadol a galluog sy'n gallu ysgwyddo arweinyddiaeth strategol dros fwy nag un ysgol. Bydd penaethiaid gweithredol, fel rheol, yn gweithio o fewn fframwaith lle mae ganddynt gyfrifoldeb cyffredinol am arwain ffederasiwn o ysgolion, gyda phennaeth ym mhob ysgol unigol o fewn y ffederasiwn hwnnw. Rôl y pennaeth gweithredol fydd datblygu, cynorthwyo a thywys penaethiaid yr ysgolion a'r tîm arwain ehangach, gan sicrhau bod pob ysgol yn rhoi strategaeth gadarn ar waith ar gyfer gwella.

Heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy

Gan adlewyrchu ei gasgliadau am berfformiad ysgolion cynradd yn gyffredinol, canfu adroddiad blynyddol 2011/12 Estyn mai dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion cynradd yr oedd yr arweinyddiaeth yn rhagorol ac nad oedd hunanwerthuso'n fwy na digonol mewn traean ohonynt ac nad oedd uwch arweinwyr yn canolbwyntio digon ar safonau disgyblion. Fel y pwysleisiwyd ym Mhennod 2, nid yw penaethiaid cynradd mor gadarn ag y mae angen iddynt fod o ran mynd i'r afael ag addysgu diddrwg didda ac addysgu nad yw ond prin yn ddigonol.

Er bod corff cryfach ac ehangach o arweinwyr effeithiol yn y sector uwchradd, nid oedd gwella ansawdd ond yn ddigonol mewn tair o bob pump ysgol uwchradd. Canfu Estyn nad oedd arweinwyr uwchradd yn yr ysgolion hyn, yn union fel eu cydweithwyr yn y sector cynradd, yn canolbwyntio digon ar yr effaith ar gynnydd disgyblion wrth iddynt arsylwi gwersi, ac felly, nad oedd adroddiadau hunanwerthuso a chynlluniau gwella'n rhoi digon o sylw i'r ystod o faterion yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Roedd arweinyddiaeth o ran rheoli adnoddau'n destun pryder hefyd gan fod gan ychydig dros chwarter yr ysgolion uwchradd ddiffyg yn eu cyllideb a bod gan 14 y cant ohonynt ddiffyg sylweddol.

Daeth tri mater arall i'r wyneb yn ystod fy ymweliadau ag ysgolion ac wrth drafod gyda rhanddeiliaid.

Yn gyntaf, mae'n amlwg nad yw arweinwyr bob tro'n teimlo eu bod wedi'u grymuso i arwain eu hysgol yn y ffordd y maent yn teimlo sy'n iawn. Yn rhannol, diffyg hyder neu brofiad sy'n gyfrifol am hyn ac fe all rhaglen datblygu arweinyddiaeth, fel y'i trafodir isod, fod o help i fynd i'r afael â hyn. Ond mae'n adlewyrchu'n rhannol natur gyfyngol rhai o'r systemau grantiau a'r rheoliadau ynghylch y berthynas â staff. Trafodir y rhain ym Mhennod 5.

⁷ Mae'r 21 ysgol yn cynnwys 11 ysgol gynradd a 10 ysgol uwchradd ac maent yn cynnwys ysgolion ffydd ac ysgolion cyfrwng Cymraeg

Yn ail, er bod y diwylliant wedi dechrau newid, nid yw arweinwyr gorau'r ysgolion yn cael eu defnyddio ddigon. Mae angen cyflymu'r newid. Bydd rhai o'r opsiynau strwythurol ym Mhenod 4 i ddatblygu ffederasiynau a chlystyrau caled o ysgolion yn helpu yn y cyswllt hwn ond mae rhannau diweddarach o'r bennod hon hefyd yn cynnig opsiynau gyda'r nod o gryfhau arweinyddiaeth ar draws ysgolion yn fwy cyffredinol.

Yn drydydd, fe all symud pennaeth o'i swydd os yw'n tanberfformio'n ddifrifol ac yn llesteirio cynnydd ysgol a'i disgyblion fod yn broses rhy drwsgl ac anodd. Rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yw bod rheoli perfformiad penaethiaid wedi bod yn wael ac yn ddarniog yn y gorffennol, bod diffyg eglurder ynghylch atebolrwydd llywodraethwyr ac atebolrwydd awdurdodau lleol, bod y gweithdrefnau galluogrwydd yn drwsgl a bod diffyg ymrwymiad i fynd i'r afael ag achosion anodd. Cynnigir opsiynau ym Mhenodau 5 a 6 er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

Gwraidd yr heriau hyn i gyd yw'r hyn a ddisgrifir yn ymateb un awdurdod lleol lle y sonnir am y diffyg hwn:

‘Llwybr arwain a datblygu sy'n rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau i ddarparu benaethiaid i sefydlu a chynnal lefelau perfformiad uchel yn eu hysgolion.’

Dylai llwybr dilyniant neu gontinwrm i arweinwyr alluogi ac annog athrawon, o'r funud y byddant yn ymuno â'r proffesiwn, i ddeall gwahanol rolau arwain, a gweld y llwybrau gwahanol sy'n agored iddynt er mwyn dod yn arweinwyr. Ond i athrawon ifanc a ddylai fod yn anelu at ddod yn arweinwyr dysgu, fel y dadleua Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC), nid oes digon o bwyslais ar y canlynol:

‘adnabod a meithrin sgiliau arweinyddiaeth ymhlith athrawon yn ddigon cynnar...nid ydym yn adnabod nac yn annog a chefnogi'r sgiliau hynny mewn modd trefnus a phendant’

Dylid anelu at feithrin diwylliant lle bydd ysgolion, fel y dywed Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, yn meithrin arweinwyr da ac yn datblygu rôl arwain pob athro/athrawes – ni waeth pa rolau arwain ffurfiol sydd gan staff na pha rolau y maent yn anelu atynt.

Mae arweinwyr canol mewn ysgolion, fel y pwysleisia'r Cyngor, yn hanfodol er mwyn sbarduno gwella a darparu cyflenwad o benaethiaid ar gyfer y system yn y dyfodol. Ond nid oes rhaglen ddatblygu na chymhwyster proffesiynol strwythuredig ar gael i athrawon yn eu blynyddoedd canol a allai fod yn rhagflaenydd naturiol i'r CPCP. Fel y dywed Estyn yn ei ymateb:

‘Nid oes cymhwyster gorfodol i reolwyr canol, felly mae athrawon yn gwneud cais am CPCP er nad ydynt yn bwriadu mynd yn benaethiaid.’

Felly, rwyf yn cytuno â chasgliad Llywodraethwyr Cymru, sef:

‘mae’n dal i fod angen datblygu pwyslais mwy ar hyfforddi rheolwyr canol ar lefel ysgolion.’

Mae'r diffyg cymorth i ddatblygu'n arbennig o amlwg yng nghyswllt paratoi arweinwyr at fod yn benaethiaid. Nid oes unrhyw raglenni na modiwlau datblygu arweinwyr sydd wedi'u comisiynu'n genedlaethol ac sy'n gysylltiedig â'r Safonau Arweinyddiaeth ac â'r meini prawf asesu ar gyfer y CPCP. Felly, yn ôl y Cyngor, nid yw llwybr 'asesu'n unig' at y CPCP yn cynnig y system gymorth y mae ei hangen ar benaethiaid. Mae Estyn yn cytuno â'r dadansoddiad hwnnw:

‘Nid yw CPCP yn cael yr effaith y bwriedir iddi ei chael ar arweinyddiaeth ganol nac ar arweinyddiaeth ar y lefelau uchaf (penaethiaid).’

Mae rhai awdurdodau lleol unigol a sefydliadau eraill yn llenwi'r bwlch ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu arweinwyr. Er enghraifft, mae iNet Cymru yn cynnig cwrs i gefnogi datblygiad arweinwyr canol rhagorol ar gyfer ysgolion yn y gogledd. Serch hynny, bydd ystod ac ansawdd y cymorth sydd ar gael yn dibynnu ar yr ysgol neu'r rhan o Gymru lle y bydd athro neu arweinydd yn digwydd gweithio.

Mater arall sy'n gysylltiedig â hyn yw a yw proses asesu'r CPCP ei hun yn ddigon trwyadl. Dywedodd sawl llywodraethwr, awdurdod lleol a phennaeth wrthyf eu bod yn poeni am ansawdd yr ymgeiswyr a oedd yn cael eu galw am gyfweiliad ar gyfer swyddi gwag i benaethiaid. Efallai mai'r rheswm am hyn yn rhannol yw nad oes terfyn amser ar ddilysrwydd achrediad y Cymhwyster ac efallai fod rhai o'r ymgeiswyr wedi cael eu hachredu bum mlynedd neu ragor yn ôl.

Nid yw'r angen am gymorth datblygu'n dod i ben pan benodir penaethiaid – y cyfan sy'n digwydd yw ei fod yn symud i gyfnod arall yn ei ddatblygiad. Mae Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn cydnabod gwerth y trefniadau sy'n galluogi pob pennaeth newydd i gael mentor. Gall weld hefyd y gallai fod o fudd i benaethiaid weithio gydag arweinwyr systemau. Serch hynny, awgryma'r Cyngor y dylid gwneud rhagor i ddarparu rhaglenni datblygu strwythuredig a chyfleoedd wedi'u trefnu i benaethiaid sydd yn eu swydd weithio gyda'i gilydd a dysgu oddi wrth ei gilydd. Pwysleisiodd ymatebwyr eraill fod angen gwella trefniadaeth swyddogaethau cymorth busnes er mwyn i benaethiaid gael eu rhyddhau i ganolbwyntio ar arwain addysgu a dysgu – mater sy'n cael sylw ym Mhennod 4. Yn anad dim, os, fel y dadleuaf isod, oes achos o blaid ehangu'r arweinyddiaeth weithredol mewn ysgolion, bydd gofyn darparu cymorth datblygu ar gyfer hynny hefyd.

Bydd mynd i'r afael â datblygu arweinyddiaeth yn dod yn fwyfwy pwysig o'i ystyried yn erbyn cefndir proffil oedran y penaethiaid sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd. Mae'r siartiau isod (gweler Ffigurau 3.4 a 3.5) yn dangos dau gasgliad pwysig:

bydd ychydig dan draean yr holl benaethiaid sydd yn eu swydd ar hyn o bryd yn ymddeol yn ystod y degawd nesaf. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 325 o benaethiaid


cynradd a 70 o benaethiaid uwchradd y bydd angen llenwi eu swyddi ac mae hyn yn golygu bod angen rhoi sylw difrifol i gynllunio ar gyfer olyniaeth. Hyd yn oed os cyflwynir y modelau trefniadaethol newydd ar gyfer ysgolion a'r opsiynau a ddisgrifir ym Mhennod 4, mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn dal yn her enfawr. Dywed UCAC fod prinder penaeithiaid ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg eisoes. Dywed NUT Cymru hefyd:

‘mae yna rai materion recriwtio difrifol mewn perthynas â rolau arwain mewn ysgolion llai, a chan fod llawer o ysgolion wedi cael gwared â swyddi dirprwy-benaethiaid o’u strwythurau staff, mae yna lai o gyfleoedd i ddarpar arweinwyr gael profiad ymarferol.’

mae gormod o amser yn mynd heibio cyn i ddarpar arweinwyr symud i swyddi penaeithiaid yn y sector uwchradd – ac mae'r un peth yn wir i raddau llai yn y sector cynradd. Yn 2012, dim ond chwe phennaeth yng Nghymru oedd o dan 40 oed. Gyda'r cymorth a'r datblygiad iawn, fe ddylai cyfran fwy o lawer o benaeithiaid fod yn mynd i swyddi penaeithiaid yn gynharach o lawer yn eu gyrfa.


Yn fras, yr her yw datblygu capasiti arweinwyr ar bob lefel yn system ysgolion Cymru a, chan ddysgu oddi wrth y systemau ysgolion mwyaf effeithiol, dylid cynnwys arweinwyr ysgolion wrth lunio a gwireddu'r strategaeth honno.

Ffigur 3.4 – Proffil oedran penaeithiaid cynradd yng Nghymru, 2004 a 2012



Ffynhonnell: Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Ffigur 3.5 –Proffil oedran penaethiaid uwchradd yng Nghymru, 2004 a 2012



Ffynhonnell: Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Opsiynau ar gyfer diwygio


Mae angen i strategaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth gryfach mewn ysgolion ddechrau gyda chydweledigaeth ynghylch sut y mae angen i arweinyddiaeth ddatblygu o fewn ysgolion a rhyngddynt. Nid rhywbeth ar wahân i addysgu yw arweinyddiaeth – mae'n rhan gynhenid o fod yn athro. Arweinwyr sy'n gyfrifol am reoli dysgu yn yr ystafell ddosbarth yw athrawon: mae arweinyddiaeth yn rhywbeth sy'n rhan o'u gwaith bob dydd. Mae cyfoeth o ymchwil ym maes addysg yn dangos, yn ogystal â meddu ar wybodaeth dda am bwnc, arbenigedd ym maes addysgeg a pharatoi eu gwersi'n drwyadl, bod angen i athrawon hefyd allu cymell eu disgyblion, ennyn eu diddordeb a'u grymuso drwy weithgareddau a strategaethau sy'n meithrin eu gwybodaeth, yn ysgogi eu hawydd i ddysgu ac yn datblygu eu sgiliau. Mae hynny'n golygu arwain yn yr ystafell ddosbarth. Mae gan arweinwyr da yn yr ystafell ddosbarth yr hyder a'r gallu i fyfyrion barhaus ar effeithiolrwydd eu gwaith ac i addasu strategaethau a chynlluniau yng ngoleuni datblygiadau. Mae llawer o ysgolion yn gwneud mwy a mwy o ddefnydd ar fyfyrwyr a disgyblion sy'n arweinwyr ac yn eu meithrin er mwyn deall sut mae arwain dysgu'n fwy effeithiol yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cynnwys sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth ymhlith athrawon. Dylai'r pwyslais hwn fod yn rhan hanfodol o'r cymorth datblygu proffesiynol parhaus i athrawon yn yr ystafell ddosbarth. Un opsiwn efallai fyddai bod athrawon sydd newydd gymhwyso'n gallu dilyn y cwrs Meistr yn ddiweddarach ar eu taith broffesiynol, neu estyn y radd dros gyfnod hwy er mwyn iddynt allu myfyrion a dysgu ar lefel ddyfnach ar ôl cael mwy o brofiad yn yr ystafell ddosbarth.

Cyfeirio pobl at opsiynau arweinyddiaeth

Dylai athrawon hefyd fod yn ymwybodol yn gynnar yn eu gyrfa o'r gwahanol gyd-destunau ac opsiynau sydd ar gael ar gyfer rhoi eu rolau arwain ar waith. Dengys ffigur 3.6 y gwahanol rolau arwain sydd o fewn ysgolion a sut y gallai athrawon ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau arwain neu gamu ymlaen i'w hysgwyddo yn ystod eu gyrfa. Nid yw'r fframwaith yn annhebyg o ran ei gysyniad i'r dull a ddefnyddir gan y system addysg yn Singapore – un o'r systemau ysgolion sy'n perfformio orau yn y byd.

Ffigur 3.6 – Opsiynau ar gyfer llwybrau at fod yn arweinydd mewn ysgol



Mae angen athrawon ac arweinwyr ardderchog ar ysgolion Cymru a'r rheini'n rhai a fydd am aros yn yr ystafell ddosbarth ac sy'n barod ac yn awyddus i rannu eu hangerdd a'u harbenigedd gyda chydweithwyr eraill – dyna'r cysyniad sy'n sail i rôl yr Ymarferydd Arweiniol a ddisgrifiwyd ym Mhennod 2. Mae angen athrawon ar y system hefyd sy'n barod ac wedi'u harfogi i arwain adrannau a chyfadranau neu i fod yn arweinwyr bugeiliol. Efallai y bydd rhai arweinwyr canol am barhau i ymwneud â'u pwnc a'u bod yn ymroddedig i feithrin rhagoriaeth yn eu hadran. Efallai y byddant yn awyddus i fod yn bennaeth ar adran sy'n Ymarferydd Arweiniol ac a fydd yn cynorthwyo adrannau a staff eraill yn eu hysgol hwy eu hunain ac mewn ysgolion eraill. Fodd bynnag, bydd llawer o arweinwyr canol yn awyddus i ddod yn rhan o dîm arwain yr ysgol a dod yn bennaeth eu hunain. At hynny, wrth i ffederasiynau ac opsiynau clystyru caled eraill ddatblygu, bydd ar system yr ysgolion angen mwy o arweinwyr sy'n barod i ysgwyddo arweinyddiaeth dros fwy nag un ysgol.

Darparu rhaglen datblygu arweinyddiaeth gyffredinol mewn ysgolion

Dylai creu diwylliant arwain mewn ysgolion a sefydlu llwybr arweinyddiaeth clir helpu i greu'r sylfaen ar gyfer denu ac ysbrydoli rhagor o athrawon ac arweinwyr canol a'u gwneud yn awyddus i ddatblygu'n uwch arweinwyr ac yn benaethiaid yn gynharach yn eu gyrfa. Fodd bynnag, er bod llwybr a set o opsiynau clir yn rhan angenrheidiol o'r ateb, nid yw'r rheini ar eu pen eu hunain yn cynnig ateb digonol na chyflawn i'r broblem. Mae gofyn cael trefniadau hefyd ar gyfer cefnogi a datblygu arweinwyr ar hyd pob cam yn eu gyrfa. O ystyried pwysigrwydd strategol arweinyddiaeth o ansawdd da mewn ysgolion, mae dibynnu ar unigolion, ysgolion ac awdurdodau lleol i drefnu'r hyfforddi a'r datblygu er mwyn cyflawni meini prawf asesu'r CPCP yn digwydd ar ormod o hap a damwain. Mae angen dull mwy strategol a systematig.

Mae Ffigur 3.7 yn disgrifio fframwaith ar gyfer ystyried dull Cymru gyfan o ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion. Mae'r tri chylch yn y ffigur yn dangos y tri phrif barth lle y dylai'r sawl sy'n awyddus ac sy'n datblygu i fod yn arweinwyr ysgol gael cymorth i ddatblygu. Mae penawdau pob cylch wedi'u benthylg o gwricwlwm modiwlwr y CPCP sydd wedi'i ddatblygu yn Lloegr. Fodd bynnag, mae'r pwyntiau bwled sy'n diffinio cynnwys rhaglen datblygu arweinyddiaeth yn adlewyrchu cynnwys y Safonau Arweinyddiaeth sy'n berthnasol yng Nghymru. Byddai elfennau allweddol o'r rhaglen yn orfodol, ond fe allai eraill fod yn ddewisol gyda'r rhai sy'n cymryd rhan yn dethol modiwlau, gan ddibynnu ym mha gyd-destun y byddent yn disgwyl gweithio.

Mae natur y datblygu a'r hyfforddi yr un mor bwysig â chynnwys y cwricwlwm. Mae'r dystiolaeth a grynhowyd ar ddechrau'r bennod hon yn awgrymu bod y rhaglenni datblygu arweinyddiaeth gorau i arweinwyr ysgolion yn cynnwys yr agweddau a ganlyn, a ddangosir ym mhedwar comel Ffigur 3.7:


hyfforddiant ac astudiaeth achrededig ffurfiol ar bynciau arweinyddiaeth ysgolion, a allai gael eu darparu gan sefydliad neu goleg addysg uwch

cwblhau aseiniadau gwella ysgol gyfan er mwyn sefydlu'r hyfforddiant ffurfiol yn rhan o'r gwaith o ymarfer arweinyddiaeth

cyfleoedd i roi cyfrifoldebau arwain ar waith mewn ysgol wahanol gan ehangu ystod y profiadau sydd ar gael i ddarpar arweinwyr ysgol. Gallai hynny gynnwys bod yn aelod cysgodol o dîm arwain ysgol arall, ysgwyddo aseiniad arwain mewn ysgol arall am dymor neu flwyddyn, neu arwain prosiect gwella ar draws ysgolion

cael eich annog a'ch coetsio gan bennaeth profiadol sydd wedi'i hyfforddi a'i achredu i gyflawni'r rôl hon.

Ffigur 3.7 – Cwricwlwm i gynorthwyo i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion yng Nghymru



Darparu cymorth yn ystod gwahanol gamau wrth ddatblygu arweinyddiaeth

Mae'r fframwaith datblygu arweinyddiaeth a ddisgrifir uchod nid yn unig yn llwybr sy'n cynnig gwell cymorth i ennill y cymhwyster sydd ei angen er mwyn dod yn bennaeth, ond mae'n un sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer datblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion yn y system drwyddi draw. Byddai'r rhaglenni a'r cymorth yn adlewyrchu egwyddorion a chynnwys y fframwaith, ond byddent yn cael eu haddasu a'u teilwra er mwyn iddynt fod yn berthnasol i athrawon ac arweinwyr yn ystod pob cam o'u datblygiad. Mae Ffigur 3.8 yn disgrifio sut y gallai hyn weithio'n ymarferol, a'r mathau o ddatblygu arweinyddiaeth a ddylai fod ar gael ar wahanol adegau yn ystod gyrfa athro.

Ffigur 3.8 – Cymorth priodol er mwyn datblygu arweinwyr ysgolion ar wahanol adegau yn eu datblygiad

Cyfnod arwain	Math o raglen datblygu arweinyddiaeth
Athrawon sydd Newydd Gymhwyso	Rhaglenni ymsefydlu i Athrawon sydd Newydd Gymhwyso – yn cynnwys canllawiau ynghylch llwybrau dilyniant a chyfleoedd Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol
Datblygu ymarferwyr	Rhaglenni cymorth ar gyfer arwain dysgu – fel y'u disgrifiwyd ym Mhennod 2
Ymarferwyr Arweiniol	Hyfforddi i fedru coetsio'n effeithiol yn yr ystafell ddosbarth – fel y disgrifir ym Mhennod 2 Cymorth i ddatblygu sgiliau ymchwil ac arwain cymunedau dysgu proffesiynol Defnyddio adrannau ac ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol i greu cysylltiadau â phrifysgolion er mwyn meithrin datblygiad proffesiynol Ymarferwyr Arweiniol o ran gwybodaeth am eu pwnc.
Arweinwyr canol	Rhaglenni datblygu arweinwyr canol ar gyfer clystyrau o ysgolion wedi'u seilio ar ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol ac sy'n cael eu darparu ganddynt Rhaglenni megis Arweinwyr Addysgu (gweler isod)
Uwch Arweinwyr	Cyflwyno cymhwyster neu achrediad sy'n gam ymlaen at achrediad llawn y CPCP Cymryd rhan yn y cynllun arolygu gan gymheiriaid a drefnir gan Estyn Ffederasiynau, ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a phartneriaethau eraill rhwng ysgolion yn cynnig cyfleoedd ar gyfer aseiniadau arwain tymor byr
Darpar benaethiaid	Cymryd rhan mewn hyfforddiant ffurfiol a ddarperir gan ddarparwyr achrededig sy'n adeiladu ar yr achrediad camu ymlaen ac sy'n paratoi'r rheini sy'n cymryd rhan i gael eu hasesu ar gyfer y CPCP Ffederasiynau, ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a phartneriaethau eraill rhwng ysgolion yn cynnig cyfleoedd ar gyfer aseiniadau arwain tymor byr Consortia rhanbarthol yn achredu penaeithiaid profiadol i goetsio darpar benaethiaid Cymryd rhan yn y cynllun arolygu gan gymheiriaid a drefnir gan Estyn Aseiad ffurfiol ar gyfer y CPCP
Penaethiaid sydd yn eu swydd	Pob pennaeth newydd i gael pennaeth profiadol a galluog yn fentor Hyfforddiant ar y cyd ar arwain gwella mewn ysgolion i benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr Cymryd rhan yng nghynllun arolygu gan gymheiriaid Estyn Cyflwyno'r rhaglen ysgolion sy'n gwella a'r rhaglen ysgolion rhagorol
Penaethiaid gweithredol	Cyflwyno rhaglen datblygu Cymru gyfan ar gyfer prifathrawiaeth weithredol.

Yn ogystal â chwricwlwm datblygu arweinyddiaeth cyffredinol, mae sawl nodwedd bwysig arall o'r rhaglen arfaethedig y byddai gofyn eu newid.

Pwyslais cryfach o lawer ar ddatblygu arweinwyr canol. Mae Ffigur 3.9 yn cynnig enghraifft o sut y mae un ysgol uwchradd, a oedd yn 'rhagorol' ym marn Estyn ac a ddynodwyd yn ddiweddar yn ysgol sy'n Ymarferydd Arweiniol, wedi rhoi rhaglen ar waith i ddatblygu ei rheolwyr canol. Mae'n arwyddocaol ei bod yn cysylltu hyfforddiant ag ymarfer arweinyddiaeth ganol – o dan oruchwyliaeth uwch arweinwyr. Mae rhai o'r consortia rhanbarthol eisoes yn cynnig hyfforddiant yn y maes hwn ond, drwy gomisiynu ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol i arwain neu i ymwneud â'r gwaith hwn, mae'n sylfaen gryfach ar gyfer cysylltu'r hyfforddiant ag aseiniadau arweinyddiaeth ymarferol. Neu, mae'r rhaglenni megis y rheini a ddarperir gan Arweinwyr Addysgu⁸ sy'n cynnig cymorth rhagorol ar gyfer datblygu arweinwyr canol.

Ffigur 3.9 – Datblygu arweinwyr canol yn Ysgol Uwchradd Gatholig San Joseff

Ysgol gymysg a gynorthwyr yn wirfoddol, i blant 11-18, yw Ysgol Uwchradd Gatholig San Joseff yn ninas Casnewydd. Mae ganddi 1,480 o ddisgyblion sy'n dod o ystod o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, ac mae ganddi 320 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn sylweddoli bod arweinyddiaeth ganol yn sbardun pwysig o ran gwella safonau. Dros y tair blynedd diwethaf, mae ysgol San Joseff wedi ymrwymo i gynorthwyo a datblygu dros 30 o arweinwyr canol profiadol, rhai a benodwyd yn ddiweddar a darpar arweinwyr, fel rhan o'r gwaith y mae'n ei wneud i wella'r ysgol.

Nod yr ysgol yn wreiddiol oedd cynnig pecyn hyfforddi i arweinwyr canol a oedd yn newydd i'w rôl. Er bod ganddynt, fel rheol, arbenigedd cryf yn eu pwnc a/neu yn y maes bugeiliol, nid oedd ganddynt gymaint o brofiad o arwain a rheoli pobl eraill. Felly, yn 2010, bu cohort o 15 o athrawon yn cymryd rhan mewn rhaglen a oedd yn cynnwys sesiynau cyfnos dan arweiniad yr ysgol ar rôl arweinwyr canol, gan roi sylw i dracio cynnydd disgyblion, defnyddio data'n effeithiol, arsylwi gwersi, a rôl llais disgyblion wrth hunanwerthuso. Ategwyd y gwaith datblygu mewnol gan ddigwyddiad hyfforddi allanol dros gyfnod o ddeuddydd i arweinwyr canol. Roedd y digwyddiad hwnnw'n canolbwyntio ar sgiliau arwain a rheoli ac yn cynnwys sesiynau ar roi adborth effeithiol, datblygu tîm, coetsio a mentora.

Arweiniodd llwyddiant y rhaglen at ddatblygu ail gohort o 15 o athrawon yn 2011/2012 gyda llawer o'r cohort hwnnw mewn swyddi lle'r oedd ganddynt gyfrifoldeb am addysgu a dysgu, neu'n rhai a oedd yn awyddus i gael swydd arweinydd canol. Yn 2012/2013, mae'r ysgol yn gobeithio datblygu rhaglen wedi'i theilwra'n arbennig i benaethiaid blwyddyn, a byddai'n hoffi cynnig rhagor o gyfleoedd hyfforddi i athrawon sy'n awyddus i gyflawni rolau arwain uwch yn y dyfodol.

Yn ogystal â'r hyfforddiant, mae'r tîm uwch arweinwyr wedi gweithio'n glos iawn gydag

⁸ Elusen addysg yw Teaching Leaders sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu arweinwyr canol rhagorol. Fe'i datblygwyd yn 2008 mewn partneriaeth â phedwar o sefydliadau addysgol mwyaf blaengar y Deyrnas Unedig: y National College, ARK, Teach First a Future Leaders.

arweinwyr canol i ddatblygu trefn hunanwerthuso adrannol a chynllunio ar gyfer gwella. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio cyfarfodydd adran i wyllo gwersi ar ffilm a thrafod ansawdd yr addysgu a'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi. Yn sgil datblygu iaith gyffredin i ddisgrifio addysgu a dysgu effeithiol drwy ddulliau cydweithredol, llwyddwyd i lunio ffurflenni newydd ar gyfer cynllunio ac arsylwi gwersi. Mae'r holl adolygiadau adrannol bellach yn cael eu gwneud drwy ddull cydweithredol. Mae uwch arweinwyr, ochr yn ochr â phenaethiaid adran a deiliaid swyddi sy'n gyfrifol am addysgu a dysgu, yn arsylwi gwersi, yn craffu ar waith myfyrwyr ac yn cynnal ymarferion 'gwrando ar ddysgwyr'. Mae'r dystiolaeth a geir yn sgil yr adolygiadau hyn a'r cylch hunanwerthuso gan adrannau yn bwydo'n uniongyrchol i adroddiadau hunanwerthuso adrannol a chynlluniau gwella sydd o safon uchel iawn.

Mae'r gwaith datblygu hwn gydag arweinwyr canol yn cael ei gyfuno â chyfarfodydd cyswllt bob hanner tymor rhwng uwch arweinwyr ac arweinwyr canol. Mae cynllun gwella adran, y cynnydd a wneir o'i gymharu â'r camau gweithredu ac effaith y cynllun yn eitem sefydlog ar agenda'r cyfarfodydd hyn. Mae'r pennaeth yn bresennol ym mhob cyfarfod, gan gyflawni rôl sicrhau ansawdd a chael golwg gyffredinol ar draws pob maes pwnc.

Mae ansawdd arweinyddiaeth ganol bellach yn nodwedd ragorol yn yr ysgol ac mae wedi bod yn ffactor allweddol o ran helpu'r ysgol i berfformio ar lefel uchel ar ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol ar draws pob cyfnod allweddol.

Mae'r uwch dîm arwain wedi gweithio'n galed i ddatblygu diwylliant arwain yn yr ysgol. Nid yn unig y mae hyn wedi cyfrannu at well deilliannau i ddysgwyr, mae hefyd wedi arwain at ddyrchafu nifer o staff i swyddi arwain allweddol yn yr ysgol ac i swyddi arwain mewn ysgolion eraill yng Nghymru.

Ffynhonnell: Ysgol Uwchradd Catholig San Joseff

Cyflwyno cymhwyster newydd a fydd yn gam at gydnabyddiaeth lawn y CPCP. Yn Lloegr, er enghraifft, anelir y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Uwch Arweinwyr (NPQSL) at arweinwyr ysgol sydd nid yn unig yn arwain tîm, ond sydd hefyd yn ymwneud ag arwain ystod o faterion sy'n effeithio ar yr ysgol gyfan - boed hynny fel pennaeth adran, grŵp blwyddyn neu gyfnod allweddol, fel cydlynnydd anghenion arbennig neu fel pennaeth cynorthwyol. Efallai na fydd y rhai sy'n cymryd rhan yn awyddus i fod yn benaethiaid yn ystod y cam hwn yn eu gyrfa ond eu bod yn awyddus i ddatblygu'n broffesiynol a chael cydnabyddiaeth i gefnogi'r rôl arwain sylweddol sydd ganddynt yn eu hysgol. Mae'r rhaglen yn cynnwys dysgu ar-lein ac yn y gweithle ar sail prosiectau, darllen a myfyrio, a grwpiau tiwtorial o dan oruchwyliaeth hwylusydd. Yng nghyd-destun Cymru, gallai cwblhau cymhwyster o'r fath gyfrif tuag at gwblhau rhai o'r modiwlau sy'n angenrheidiol ar gyfer asesiad y CPCP. Gallai'r cymhwyster hefyd fod yn briodol ar gyfer y rheini sy'n cyflawni rôl pennaeth mewn ysgol o fewn ffederasiwn – fel y trafodir ym Mhennod 4.

Defnyddio ffederasiynau, ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a phartneriaethau eraill rhwng ysgolion i gynnig cyfleoedd ar gyfer aseiniadau arwain tymor byr. Fe all rhai llywodraethwyr ac arweinwyr ysgol fod yn gyndyn o gollu arweinydd egniol ac uchelgeisiol o'u hysgol am flwyddyn ysgol gron neu am ran o'r flwyddyn, ond byddai trefniant o'r fath yn drefniant dwy ffordd – sy'n golygu y byddent yn croesawu arweinwyr a fyddai yn eu tro yn dod â syniadau newydd i'r ysgol. At hynny, pan fyddai arweinwyr yn dychwelyd i'w hysgol eu hunain, byddent yn dod â phrofiad a dysgu a fyddai'n gymorth i ddatblygu a gwella'u hysgol. Byddai hwyluso swyddi arwain dros dro'n cyflymu'r gwaith o ddatblygu arweinwyr ac yn galluogi holl system ysgolion Cymru i ddod yn fwy deinamig gan ledaenu'r dysgu o amgylch yr ysgolion yn gyflymach.

Neilltuo unigolion i goetsio pawb sy'n gweithio tuag at achrediad y CPCP. Byddai hyn yn ei dro'n golygu bod gofyn i'r consortia rhanbarthol recriwtio, hyfforddi ac achredu digon o bennaethiaid profiadol i goetsio arweinwyr.

Adolygu gweithdrefnau a phrosesau ymgeisio ac asesu'r CPCP i adlewyrchu'r trefniadau diwygiedig. Byddai'n rhesymegol i'r cymhwyster camu ymlaen arfaethedig fod yn borth i'r arweinwyr hynny a oedd am fynd yn eu blaen i fod yn bennaethiaid. Fel rheol, disgwyliad i'r sawl a fyddai'n ymgeisio am y Cymhwyster fod wedi dilyn yr hyfforddiant i uwch arweinwyr cyn dilyn rhaglenni sy'n cefnogi achrediad llawn ar gyfer y CPCP. Byddai'r broses asesu ar gyfer y CPCP yn ben draw i'r broses hon ac yn fodd o ddilysu dealltwriaeth a gallu ymgeisydd i roi'r dysgu a'r wybodaeth a enillwyd ar waith.

Cyflwyno rhaglen ysgolion sy'n gwella a rhaglen ysgolion rhagorol. Mae Ffigur 3.10 yn disgrifio sut y byddai'r rhaglenni hyn yn gweithio a'r meysydd y byddent yn ymdrin â hwy. Byddent yn cael eu harwain a'u darparu gan yr ysgolion sy'n perfformio'n dda ac sydd ar y rhestr gymeradwy a ddisgrifiwyd ym Mhennod 2. Byddai'r rhaglenni'n ategu'r rhaglen Athrawon sy'n Gwella a'r rhaglen Athrawon Rhagorol a ddisgrifiwyd yn y bennod honno a byddent yn gymorth i bennaethiaid wrth iddynt arwain y gwaith o wella'r ysgol gyfan.

Datblygu rhaglen Cymru gyfan a fyddai'n gefn i dwf ac ymarfer prifathrawiaeth weithredol – fel y'i rhagwelir yn y cynigion a ddisgrifir ym Mhennod 4.

Ffigur 3.10 – Y rhaglen ysgolion sy'n gwella a'r rhaglen ysgolion rhagorol

Y rhaglen ysgolion sy'n gwella	Y rhaglen ysgolion rhagorol
<p>Wedi'i bwriadu ar gyfer ysgolion y mae angen iddynt symud o 'ddigonol' i 'dda'.</p> <p>Bydd grwpiau o ysgolion yn gweithio fesul tair a bydd y rhaglen yn cael ei hwyluso gan bennaeth ysgol sy'n Ymarferydd Arweiniol neu gan bennaeth ysgol ragorol arall.</p>	<p>Wedi'i bwriadu ar gyfer ysgolion sydd am symud o 'dda' i 'ragorol'.</p> <p>Y prif feysydd fyddai:</p> <p>cynllun gweithredu sydd wedi'i seilio ar hunanwerthusiad ysgol sy'n nodi meysydd ar gyfer gwella</p>

<p>Yn ddelfrydol, bydd yr ysgolion ym mhob triawd yn agos at ei gilydd yn ddaearyddol a bydd un o'r ysgolion yn dda neu'n well a bydd ganddi arweinydd effeithiol.</p> <p>Bydd y penaethiaid yn nodi meysydd i weithio arnynt ar y cyd er mwyn gwella cyrhaeddiad (ar sail hunanwerthuso'r ysgolion eu hunain).</p> <p>Bydd y penaethiaid yn llunio cynllun gweithredu sy'n cynnwys meysydd megis datblygu'r cwricwla llythrennedd a rhifedd; gwella sgiliau athrawon wrth roi adborth, defnyddio data, darparu coetsio allanol; arsylwi gwersi ar y cyd; cynllunio gwersi ar y cyd, a'r ddarpariaeth ar draws meysydd pwnc; a datblygu arweinwyr canol.</p> <p>Adolygir y cynllun gweithredu gan yr hwylusydd.</p> <p>Dyrennir cyllideb gymharol fach i'r ysgolion i'w helpu i ddarparu staff cyflenwi er mwyn iddynt allu rhyddhau pobl i gydweithio ar y rhaglen.</p> <p>Bydd penaethiaid yn dod ynghyd bob hanner tymor i adolygu'r cynnydd, i herio a chael eu herio gan eu cymheiriaid ac i elwa ar farn arbenigwyr allanol.</p>	<p>gallu manteisio ar adolygiadau diagnostig sydd wedi'u teilwra'n arbennig gan arweinwyr systemau a/neu Arolygwyr EM</p> <p>gallu manteisio ar seminarau a dosbarthiadau meistr sydd wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer arweinwyr canol ac uwch arweinwyr ac sy'n canolbwyntio ar wella meysydd penodol ym mherfformiad yr ysgol</p> <p>partneriaeth gweithio a/neu fod yn rhan o gymuned dysgu broffesiynol gydag ysgol ardderchog i ymdrin â maes ymarfer lle'r oedd angen i'r ysgol wella</p> <p>cymorth gan unigolion sy'n coetsio ym maes arweinyddiaeth</p> <p>gallu manteisio ar gymorth Ymarferwyr Arweiniol ac ar adrannau sy'n Ymarferwyr Arweiniol sydd ag arbenigedd mewn meysydd penodol yn y cwricwlwm.</p>
--	--


Casgliad: darparu datblygiad mwy effeithiol i arweinwyr mewn ysgolion

Mae angen bod yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth os yw'r cynigion a ddisgrifir yn y bennod hon i'w rhoi ar waith yn effeithiol ac er mwyn iddynt gael dylanwad. Mae angen i bob rhan o'r system ysgolion ddeall sut y dylai chwarae ei rhan. Mae Ffigur 3.11 yn crynhoi'r rolau y byddai angen eu cyflawni ar lefel yr ysgol, ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol. Wrth wraidd y cynllun cyflawni hwn, mae opsiwn i roi llawer mwy o rôl i benaethiaid o ran arwain ar gynllunio a darparu rhaglenni datblygu arweinwyr a rhaglenni gwella ysgol gyfan. Rhagwelir y sefydlir byrddau datblygu arweinwyr ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol i arwain, helpu i gynllunio, cymeradwyo, llywio a chynorthwyo i roi newid o bwys ar waith o ran datblygu capasiti arweinyddiaeth mewn ysgolion. Petai gan y pedwar bwrdd datblygu arweinyddiaeth rhanbarthol

gyd-gadeiryddion cynradd ac uwchradd, yna byddent hwy – ynghyd â phennaeth ysgol arbennig – efallai'n ffurfio'r bwrdd datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol.

Mae'n bosibl, wrth i amser fynd heibio y gallai datblygu bwrdd datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol arwain at greu academi neu sefydliad addysgu ac arweinyddiaeth – a fyddai'n annibynnol ar y llywodraeth ond yn cael rhywfaint o arian grant i'w helpu gyda'i gylch gwaith.

Ffigur 3.11 – Cyfrifoldebau am ddatblygu arweinyddiaeth



Tasg y byrddau datblygu arweinyddiaeth, gyda chymorth y consortia rhanbarthol, fyddai datblygu strategaethau cynllunio olyniaeth ar gyfer eu rhanbarth ar sail dadansoddiad o broffil y penaethiaid presennol, y darpar benaethiaid a'r uwch arweinwyr yn eu hardal. Byddai'r consortia hefyd, fel y disgrifir ym Mhennod 6, yn gyfrifol, ochr yn ochr â'r awdurdodau lleol, am fynd i'r afael â'r sefyllfaoedd hynny lle byddai arweinyddiaeth wan yn cyfrannu at berfformiad gwael ysgol neu'n llesteirio'i gallu i sicrhau cynnydd.

Ar lefel yr ysgol a'r ffederasiwn, byddai disgwyl i ysgolion fynd ati'n fwy rhagweithiol o lawer i ganfod ac i feithrin pobl â doniau arwain ac i gynorthwyo darpar arweinwyr i ddatblygu. Byddai hyn yn cynnwys hwyluso mynediad at hyfforddiant a chyfluoedd i ddysgu ac arwain mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

O ran ariannu'r llwybr at y CPCP, mae'n bosibl y gallai ysgolion ac unigolion rannu'r gost o ennill unrhyw gymhwyster camu ymlaen, gan y byddai'r ysgolion eu hunain ar eu hennill o gael uwch dimau arwain cryfach yn eu hysgol. Fe allai Llywodraeth Cymru gynnig ysgoloriaethau ar gyfer y ffi gyfan neu ar gyfer rhan ohoni i dalu am gost y

rhaglen i symud ymlaen o'r cymhwyster camu ymlaen at achrediad CPCP llawn. Gellid cysylltu'r broses o ddyfarnu'r ysgoloriaethau â'r broses ymgeisio ddiwygiedig ar gyfer y CPCP.

Pennod 4: Opsiynau ar gyfer meithrin rhagor o bartneriaethau rhwng ysgolion o fewn cyd-destun sy'n cynnig rhagor o annibyniaeth

Cyflwyniad

Mae cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol imi:

gynnig modelau ar gyfer arwain, llywodraethu ac ariannu ysgolion a fydd yn cyfrannu at wella safonau addysgol

edrych ar fodelau ariannu sy'n hyrwyddo perchnogaeth ar waith i wella ysgolion.

Mae'r maes hwn yn un cymhleth. Byddai llawer o arweinwyr ysgolion – gan gynnwys nifer o'r rheini y cyfarfûm â hwy – yn dweud mai'r un cam mwyaf a fyddai'n cryfhau'r ymdeimlad o berchnogaeth ar waith i wella ysgolion fyddai iddynt gael mwy o reolaeth dros y cyllid. Byddent yn ei ddefnyddio, meddent, i ariannu datblygiad proffesiynol ac i wella'r addysgu a'r dysgu. Maent hefyd o blaid cael gwared ar y gofynion i gyflwyno cynlluniau ar gyfer defnyddio grantiau penodol ac yn dadlau y byddai hynny'n rhyddhau amser y byddai'n well ei dreulio'n gwella addysgu a dysgu.

Ar y llaw arall, mae rhai arweinwyr ysgol hefyd – yr un rhai weithiau – sy'n poeni ynghylch yr annibyniaeth gryfach a ddeuai yn sgil cam o'r fath. Maent yn gweld yr annibyniaeth honno, a'r camau ychwanegol i fesur atebolrwydd ar sail deilliannau a fyddai'n siar o gyd-fynd â hynny, yn arwain at fwy o gystadlu rhwng ysgolion, yn tanseilio diwylliant cydweithredol ac, o bosibl, yn darnio'r system.

Mae tystiolaeth yr ymchwil a realiti'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad yng Nghymru yn cymhlethu'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy. Fel yr esbonia Ffigur 4.1, fe all rhagor o annibyniaeth fod yn gaffaeliad o gael y fframwaith cymorth iawn, ond nid yw'n golygu o reidrwydd y bydd perfformiad ysgolion yn gwella. O ran y posibilrwydd y gallai hyn beryglu cydweithredu rhwng ysgolion, nid oes cymaint o waith partneriaeth effeithiol yng Nghymru ag yr oeddwn wedi disgwyl ei weld.

Ymdrech i ymlwybro'n ofalus drwy'r maes ffrwydron hwn yw'r bennod hon. Fy nadl sylfaenol yw mai'r ffordd orau o ddatblygu rhagor o ryddid ariannol, o rymuso arweinwyr ysgolion a sicrhau llywodraethu cryfach yw o fewn gwaith partneriaeth strwythuredig neu galed rhwng ysgolion. Mae'r opsiynau a restrir isod yn deillio o'r dadansoddiad hwn.

Ffigur 4.1 – Prif gasgliadau'r ymchwil ar bartneriaethau rhwng ysgolion a rhagor o annibyniaeth

Nid yw mecanweithiau polisi sy'n rhyw led bwysu i gyfeiriad y farchnad⁹ a rhoi rhagor o ryddid i ysgolion yn debygol o arwain ar eu pen eu hunain at effaith sylweddol ar ymarfer yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae cydberthynas gadarnhaol rhwng rhoi rhagor o annibyniaeth i ysgolion (o ran cyflogi a rheoli staff, diffinio'u cwricwlwm a'u harferion asesu a rheoli eu cyllideb) a gwell perfformiad gan fyfyrwyr, ar yr amod bod:

data o brofion ac arholiadau allanol ar adegau allweddol yn cael eu cyhoeddi a bod hynny'n golygu y gellir dal ysgolion yn atebol am eu penderfyniadau a'u hymarfer

bod arweinwyr ysgolion yn gallu manteisio ar hyfforddiant a bod ysgolion yn cael cymorth ar ffurf dulliau, technegau, fframweithiau a chanllawiau i'w helpu i ddefnyddio'u hannibyniaeth i arloesi mewn ffordd ddisgybledig ac effeithiol

bod arweinwyr ysgolion yn rhannu'r arweinyddiaeth, yn enwedig o ran rheoli busnes ysgolion, er mwyn cadw'r ffocws ar arwain yr addysg neu'r hyfforddiant gan osgoi gorlwytho'r rôl, sef rhywbeth a allai ddigwydd fel arall yn sgil rhagor o annibyniaeth.

Mae angen i'r system atebolrwydd gadw'r ddysgl yn wastad o ran y tensiwn cynhenid sydd rhwng cystadleuaeth a chydweithredu mewn system fwy annibynnol. Fe all fod angen cymryd camau i sicrhau nad yw rhagor o annibyniaeth a dewis yn niweidio'r ysgolion hynny sy'n gwasanaethu myfyrwyr sy'n wynebu anfanteision.

Mae sawl agwedd ar yr agenda annibyniaeth a dewis hefyd yn gysylltiedig â gwell deilliannau mewn meysydd megis creu gwell ysbryd ac ymrwymiad ymhlith y myfyrwyr, llai o ymddygiad sy'n tarfu ar y dosbarth a gwell hinsawdd disgyblu.

Mae angen amser i'r bartneriaeth rhwng ysgolion aeddfedu, ond o'i threfnu mewn ffordd strwythuredig, daw budd i'r ysgolion sy'n cymryd rhan – hyd yn oed os bydd rhai ysgolion i bob golwg yn cyfrannu mwy o wasanaethau i'r bartneriaeth nag y maent yn eu cael.

Gall ffederasiynau gynnig amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol.

Mae deilliannau myfyrwyr yn well pan fydd ysgolion sy'n perfformio'n well yn partneru ag ysgolion sy'n perfformio'n waeth, er bod cyfnod o ryw ddwy i bedair blynedd yn mynd heibio rhwng ffurfio'r ffederasiwn a'r adeg pan fydd ei berfformiad yn rhagori ar berfformiad ysgolion tebyg sydd heb gael eu ffedereiddio – mae'r deilliannau'n well yn y ddau fath o ysgol.

⁹ Fe allai hyn gynnwys pwysleisio safle ysgol yn y tablau perfformiad ac annog ysgolion i gystadlu am ddisgyblion a rhieni'n dewis ysgol i'w plentyn ar sail ei lleoliad yn y tablau perfformiad.

Manteision eraill yw bod yr addysgu a'r dysgu ac ymddygiad disgyblion yn well a bod y llywodraethu'n gryfach.

Mae ffederasiynau ysgolion uwchradd yn gwneud yn well nag y bydd trefniadau cydweithredol llacach rhwng ysgolion, yn enwedig pan fo ganddynt arweinydd gweithredol.

Mae'r cyfraddau gwella o ran cyrhaeddiad ymddiriedolaethau aml-academi noddedig wedi bod yn well nag mewn ymddiriedolaethau academi annibynnol, er nad yw bod yn rhan o ffederasiwn neu o ymddiriedolaeth aml-academi'n warant o lwyddiant nac ychwaith yn golygu na fyddant yn tanberfformio.

Mae ffederasiynau'n dod â mwy o adnoddau a chapasiti ar gyfer newid – gan gynnwys gwasanaethau ychwanegol na fyddai ysgolion yn gallu eu fforddio ar eu pen eu hunain. Gellir gwneud arbedion maint drwy ailstrwythuro swyddi arwain, darparu datblygiad proffesiynol parhaus ar y cyd, rhannu swyddi a lleihau'r gwariant ar athrawon cyflenwi.

Dylid rheoleiddio'n ofalus y 'caniatâd' i ffederasiynau ac ymddiriedolaethau ehangu, drwy gynnwys ysgolion ychwanegol, a dylai hynny ddigwydd yn unol â'u perfformiad a'u gallu.

Ffynonellau: Glatter, R. (2009); Hill (2008); Hill et al (2012); Jensen and Clark (2013); Lubienski (2009); OECD (2011a); Ofsted (2011); Pearson and RSA (2013); Peltason and Raymond (2013); Todman et al (2009); Wöbmann, et al. (2007)

Cynnydd diweddar

Mae ysgolion yng Nghymru yn dod yn fwyfwy annibynnol. Yn 2012/13, ar gyfartaledd, dirprwywyd 81 y cant o'r cyllid gan awdurdodau lleol i'r ysgolion ac mae hynny'n debygol o gynyddu i 85 y cant o fis Ebrill 2014 ymlaen. Mae'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen¹⁰ yn golygu bod llai o gronfeydd wedi'u neilltuo ar gyfer ysgolion. Mae tri chwarter y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a hanner y Grant Cymraeg mewn Addysg yn cael eu dirprwyo i ysgolion.

Mae rhai awdurdodau lleol yn annog ysgolion i fod yn fwy annibynnol drwy ddirprwyo gwasanaethau i glystyrau o ysgolion gan feithrin eu gallu i reoli adnoddau'n effeithiol. Mae Ffigur 4.2 isod yn rhoi enghraifft o'r hyn sy'n digwydd yng Nghyngor Sir Ddinbych.

¹⁰ Ym mis Gorffennaf 2010, lansiodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen, sef rhaglen dros gyfnod o flwyddyn i symud adnoddau addysg o swyddogaethau cymorth swyddfa gefn i wasanaethau'r rheng flaen.

Ffigur 4.2 – Dirprwyo rheolaeth ariannol i gystyrau o ysgolion yn Sir Ddinbych

Y sbardun ar gyfer yr hyn sydd wedi digwydd yn Sir Ddinbych oedd adroddiad gan Estyn a oedd yn dangos bod y rheolaeth ariannol yn ei hysgolion yn aneffeithiol. Gan gydnabod bod datrys y mater hwn ar ei ben ei hun y tu hwnt i allu tîm cyllid canolog y cyngor sir, aeth yr awdurdod lleol ati i weithio gydag ysgolion i ganfod ateb. Mewn cynllun peilot, rhoddwyd rheolwr ariannol mewn ysgol lle'r oedd diffyg yn y gyllideb. Cyflogwyd y rheolwr yn uniongyrchol gan y corff llywodraethu ond fe gafodd ei hyfforddi gan staff y cyngor sir a bu'n gweithio'n glos gyda hwy. Llwyddodd y cynllun peilot a rhoddwyd cynllun adfer ariannol cadarn ar waith o fewn chwe mis i ddechrau'r prosiect.

Y cam nesaf oedd llunio cynigion ar gyfer rhoi rheolwr cyllid a rheolwr busnes ym mhob clwstwr o ysgolion yn y sir. Y nod oedd meithrin gallu mewn ysgolion gan leihau'r baich gweinyddol ar benaethiaid a chaniatáu iddynt ganolbwyntio ar arwain a rheoli eu hysgol. Treuliwyd dros chwe mis yn gweithio gyda phenaethiaid a llywodraethwyr yn ymgynghori, yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer patrwm posibl y model ym mhob un o'r clystyrau, gan gydnabod na fyddai'r un drefn yn gweddu i bawb.

Erbyn mis Ebrill 2012, roedd y trefniadau newydd ar waith ac, erbyn hyn, mae gan bob clwstwr reolwr busnes a rheolwr cyllid neu reolwr busnes/cyllid. Yr ysgol uwchradd sy'n cyflogi'r rheolwyr ac yn yr ysgolion hynny y maent yn gweithio ond maent yn rhoi cymorth i bob ysgol o fewn y clwstwr.

Dirprwywyd y gwaith rheoli ariannol i'r rheolwyr cyllid – gydag ambell eithriad lle'r oedd angen. Ar yr un pryd, diddymwyd tîm cyllid ysgolion y cyngor sir ac, erbyn hyn, yr unig beth sy'n cael ei lywio o'r canol yw rheoli'r fformiwla ariannu. Ariannwyd y prosiect drwy ddirprwyo rhywfaint o arian newydd i'r ysgolion o'r cyllidebau canolog, yn ogystal â'r arian a oedd eisoes yn cael ei ddirprwyo iddynt ac yr oeddent wedi bod yn ei ddefnyddio gynt i brynu'r gwasanaeth a ddarperid yn ganolog.

Cam nesaf y model fydd recriwtio rheolwr adnoddau dynol ar gyfer pob clwstwr er mwyn parhau i feithrin gallu yn y manau lle mae mwyaf ei angen. Mae'r drefn hon ar waith mewn dau o'r clystyrau ac fe ddaeth y manteision yn amlwg bron ar unwaith wrth i'r nifer a oedd yn absennol oherwydd salwch ostwng yn un o'r ysgolion.

Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r platfform ar gyfer rhagor o annibyniaeth hefyd yn cael ei gryfhau drwy gyfrwng yr hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr newydd, cadeiryddion a chlercod cyrff llywodraethu a gaiff ei gyflwyno o fis Medi 2013 ymlaen. Dylai hyn, ynghyd â hyfforddiant ynghylch deall a defnyddio data perfformiad ysgolion, olygu bod cyrff llywodraethu'n gallu ysgwyddo'u rôl yn fwy effeithiol.

Fel y mae tystiolaeth yr ymchwil yn dangos, mae symud tuag at ragor o annibyniaeth yn digwydd ar yr un pryd â'r pwyslais mwy ar atebolrwydd ysgolion. Wrth gyflwyno

Fframwaith Arolygu Cyffredin diwygiedig, bandio ar gyfer ysgolion uwchradd (a drafodir ym Mhennod 5) a'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol diwedd blwyddyn sydd ar y gweill ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 2 i 9, mae gwell sail ar gyfer dal ysgolion yn atebol.

Mae mwy o waith partneriaeth rhwng ysgolion hefyd. Ym mhob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol yr ymwelais â hwy, bûm yn siarad ag arweinwyr ac ag athrawon sy'n ymwneud â gwaith partneriaeth â grwpiau eraill o ysgolion yn eu hardal. Mae hyn yn digwydd mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol ardaloedd. Mae gwaith partneriaeth yn cynnwys cynnal hyfforddiant mewn swydd ar y cyd; cynnal hyfforddiant ar y cyd ar gyfer athrawon sydd newydd gymhwyso; cyfarfod ag ysgolion eraill mewn teuluoedd o ysgolion; cefnogaeth o ran yr hyn a gynigir yn y cwricwlwm ôl-16; a datblygu gwaith ar y cyd ar lythrennedd a rhifedd ar draws Cyfnod Allweddol 2/3 er mwyn i'r pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd fod yn fwy effeithiol.

Mae Estyn wedi hybu'r broses bartneriaeth drwy bennu mai'r unig ysgolion sy'n cael eu dyfarnu'n rhai 'rhagorol' ganddo yw'r rheini sy'n gallu dangos arferion sy'n arwain y sector. Mae diffiniad Estyn o'r term hwnnw'n cynnwys disgygliad y bydd ysgolion arweiniol yn gweithio gydag ysgolion eraill.

'Mae'n anodd i ddarparwyr fod yn arwain y sector os nad yw'r sector yn gwybod unrhyw beth amdano. Felly, mae angen i arolygwyr ofyn a yw'r darparwyr eisoes wedi rhannu'r arfer y maent wedi'i gweld gydag eraill, mewn rhwydweithiau arfer broffesiynol, yn fewnol ac yn allanol.'
Estyn (2010a)

Mae arwyddion hefyd fod nifer y ffederasiynau'n dechrau tyfu wrth i awdurdodau lleol ddod yn fwy rhagweithiol a'u defnyddio i helpu i ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion a, thrwy baru ysgolion sy'n perfformio'n well ac yn waeth gyda'i gilydd, i fynd i'r afael â her ysgolion sy'n tanberfformio. Mae Ffigur 4.3 yn cynnig enghraifft o gynllun gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae Cyngor Caerdydd yn gwneud rhywbeth tebyg ac mae ffederasiynau a Phartneriaeth Gwella Addysg yn rhai o brif nodweddion ei strategaeth gwella ysgolion. Mae'r p er newydd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n galluogi awdurdodau lleol i fynnu bod ysgol wan yn cydweithredu neu'n ffedereiddio gydag ysgol arall neu â choleg addysg bellach yn debygol o arwain at fwy o waith partneriaeth o'r math hwn.

Ffigur 4.3 – Ffurio ffederasiwn Cwm Afan Uchaf

Mae pump ysgol yn rhan uchaf Cwm Afan, pedair ysgol gynradd ac un ysgol uwchradd. Roedd nifer y disgyblion a fynychai'r ysgolion wedi bod yn gostwng, gan roi pwysau ar y llywodraethwyr a'r staff i ddarparu addysgu a dysgu o ansawdd da mewn cyd-destun lle'r oedd dyraniadau'r gyllideb yn llai a chynnydd yn nifer y lleoedd gwag. Roedd daearyddiaeth rhan uchaf Cwm Afan (casgliad o gymoedd ar wahân ac iddynt eu cymunedau eu hunain) yn golygu bod ad-drefnu ysgolion yn anodd, er bod un ysgol gynradd fach wedi'i chau.

Yn ogystal â'r gostyngiad yn nifer y plant, roedd cyngor Castell-nedd Port Talbot o'r farn bod angen mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwella ysgolion. Credai fod addysgu a dysgu drwy bartneriaeth yn elfen hanfodol er mwyn gwella safonau.

Y cam cyntaf oedd sefydlu bwrdd gwella partneriaeth i oruchwylio'r cydweithio ac i ddatblygu arferion cyffredin ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm. Roedd llywodraethwyr yr ysgolion yn cefnogi hyn ac fe ymrwymwyd i edrych ar bob cyfle i gynnal addysg gynradd ac uwchradd yn rhan uchaf Cwm Afan.

Gyda'r awdurdod lleol yn eu llywio a'u cynorthwyo, dangosodd Ysgol Gynradd Pen Afan ac Ysgol Gyfun Cymer Afan y ffordd wedyn drwy benodi un pennaeth i reoli'r ddwy ysgol. Yr arferion cydweithio a gyflwynwyd yn yr ysgolion hyn oedd y camau pendant cyntaf tuag at ffederasiwn ffurfiol. Estynnwyd y trefniant 'pennaeth ar y cyd' wedyn i gynnwys Ysgol Gynradd Cymer Afan; ac roedd cynlluniau ar y gweill hefyd i gynnwys Ysgol Gynradd Glynorrwg. Fodd bynnag, cyn bod modd gwneud hynny, daeth cyfle i bob un o'r pum ysgol yn rhan uchaf Cwm Aman ffedereiddio.

Bu llawer iawn o drafod a phendroni cyn i gyrff llywodraethu'r ysgolion hyn a'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli benderfynu ffedereiddio oherwydd bod hynny'n newid mawr i'r drefn arferol. Ceisiodd y llywodraethwyr sicrwydd ynghylch manteision ffedereiddio yn y tymor byr a'r tymor hir gan ofyn i'r awdurdod lleol am gymorth i ddatblygu model ffedereiddio a oedd yn briodol ar gyfer eu hamgylchiadau.

Caiff y ffederasiwn ei greu ym mis Medi 2013 a bydd yn arwain at:

un corff llywodraethu sy'n gyfrifol am y pum ysgol

gweledigaeth, ethos a gwerthoedd cyffredin, ynghyd â chysoni blaenoriaethau gwella'r ysgolion

un pennaeth ac is-strwythur newydd lle rhennir yr arweinyddiaeth

polisiâu a gweithdrefnau cyffredin, a chydlynu'r gwaith cynllunio, y gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm a rhoi cymorth ar draws y cyfnod cynradd ac uwchradd

systemau cyffredin ar gyfer asesu, monitro, tracio ac adrodd ynghylch cynnydd disgyblion

cyfleoedd i roi ystod ehangach o'r arbenigedd sydd gan staff ar waith mewn ffordd briodol a hyblyg rhwng yr ysgolion, ynghyd â rhagor o gyfleoedd i ddatblygu staff

cyfleoedd i lywodraethwyr feithrin sgiliau a gwybodaeth wrth reoli ar draws cyfnodau ysgol.

Gan ragweld ffedereiddio ffurfiol, mae ysgolion rhan uchaf Cwm Afan wedi cytuno i

sefydlu tîm o uwch arweinwyr sy'n cynnwys un pennaeth a dau uwch arweinydd yn gefn iddo/iddi – un sy'n arbenigo ar addysg gynradd a'r llall ar addysg uwchradd. Ym mhob ysgol, bydd uwch aelod o staff, a fydd yn arwain y dysgu, yn gyfrifol am faterion beunyddiol. O dan y strwythur hwn, bydd wyth aelod o staff uwch a fydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i sicrhau bod pob un o'r pump ysgol yn cael cymorth llawn. Bydd rheolwr cyllid ac adnoddau yn rhan o'r tîm arwain hefyd.

Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy

Gellir crynhoi'r her sy'n wynebu'r system ysgolion mewn un frawddeg. Mae angen ac mae lle i ymestyn annibyniaeth ysgolion, ond nid yw'r systemau a'r strwythurau y mae eu hangen i gefnogi'r annibyniaeth honno ar waith eto.

Un o nodweddion rhai rhannau o'r system ysgolion yw bod ganddynt ddiwylliant o ddibynnu ar yr awdurdod lleol, yn enwedig yn y sector cynradd. Wrth ddweud hynny, rwy'n golygu bod ysgolion yn dibynnu gormod ar yr awdurdod lleol am gymorth i wella ysgolion, i'r graddau nad yw llywodraethwyr a phenaethiaid yn teimlo'n atebol am berfformiad eu hyssgol. Un enghraifft o'r diffyg cydbwysedd yn y berthynas rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol yw natur y cytundebau lefel gwasanaeth rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae'r cytundebau hyn yn egluro'r telerau a'r taliadau ar gyfer ystod o wasanaethau cymorth a ddarperir ar gyfer ysgolion gan awdurdodau. Dylid eu negodi'n briodol a dylent fod yn gystadleuol o'u cymharu â chost sicrhau'r gwasanaethau gan gyflenwyr eraill. Fodd bynnag, yn ei hymateb, mae Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon (NAHT) Cymru yn dweud fel hyn am Gytundebau Lefel Gwasanaeth:

'Nid yw gwerth gorau yn rhywbeth a ystyrir mewn perthynas â hwy, a phan fydd gwasanaethau yn wael mae'n anodd, os nad yn amhosibl, sicrhau bod y broblem yn cael ei chywiro (fel y byddai rhywun yn ei ddisgwyl, yn gywir felly, pan fo rhywun yn talu am wasanaeth)'.

Mae NAHT Cymru'n dweud hefyd bod pwysau ar gyrff llywodraethu i beidio â cheisio na chaffael gwasanaethau cymorth o'r tu allan i'r awdurdod lleol.

Yn ogystal â'r gwasanaethau y mae ysgolion yn eu prynu'n ôl gan y cynghorau drwy'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth, mae swm mawr o'r cyllid ar gyfer addysg yn dal i gael ei gadw gan adrannau addysg awdurdodau lleol. Yn 2012/13 yn ôl y gyllideb, cyfanswm y gwariant ar ysgolion yng Nghymru oedd bron £2.5 biliwn¹¹. Dirprwywyd 81 y cant o'r arian hwn yn uniongyrchol i'r ysgolion gan awdurdodau lleol – roedd hyn yn cyfateb i

¹¹ Daw'r ystadegau o Fwletin Ystadegol SB 51/2012 (R) *Local Authority Budgeted Expenditure on Schools: 2012-13*, Gorffennaf 2012 a <https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/Local-Government/Finance/Revenue/Education/BudgetedEducationRevenueExpenditure-by-Authority-Service>, cyrchwyd Mawrth 2013

ychedig dros £2 biliwn. Defnyddiodd yr ysgolion ryw faint o'r arian hwn i brynu gwasanaethau yn ôl gan awdurdodau lleol.

Gyda'r 19 y cant o'r arian ar gyfer ysgolion a gadwyd yn ôl ganddynt – sy'n cyfateb i £474 miliwn – roedd awdurdodau lleol wedi cyllidebu i wario £109 miliwn¹² ar wasanaethau cymorth i ysgolion megis gwasanaethau cerddoriaeth teithiol, athrawon Cymraeg a gwasanaethau llyfrgelloedd ac amgueddfeydd i ysgolion, £104 miliwn ar gludiant i'r ysgol, £97 miliwn ar anghenion dysgu ychwanegol a £48 miliwn ar sicrhau bod lle ar gael mewn ysgol i bob plentyn.

At hynny, roedd awdurdodau lleol yn bwriadu gwario £26 miliwn ar fonitro perfformiad a gwella ysgolion a £60 miliwn ar 'reolaeth strategol gwasanaethau addysg mewn ysgolion'. O ran y ffigur olaf, mae'n ffaith anochel bod cael cynifer o wasanaethau addysg yng Nghymru yn golygu, fel y dywedir ym Mhennod 6, nad oes modd sicrhau arbedion maint.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn colli cyfle i ddatganoli'r cyllid a gwasanaethau i grwpiau o ysgolion a allai arwain at ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o ddarparu gwasanaethau. Er enghraifft, gellid comisiynu ffederasiynau a/neu glystyrau o ysgolion i chwarae mwy o ran wrth ddarparu gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys problemau ymddygiad.

Nid yw arweinwyr ysgolion yn teimlo bod pobl yn ymddiried ynddynt, na'u bod wedi'u grymuso. Er enghraifft, mae'r gofynion er mwyn cael arian dirprwyedig y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn cael eu hystyried yn feichus. Fel y dadleua Cyngor Sir Ddinbych, mae angen caniatáu i arweinwyr ysgolion effeithiol gael eu rhyddhau rhag gofynion rhy benodol a gadael iddynt ffynnu ar sail deilliannau cadarnhaol.

Agwedd arall ar y diffyg grymuso, fel y'i disgrifir ym Mhennod 2, yw'r gweithdrefnau trwsogl a hirfaith y mae'n rhaid i benaethiaid ymdrin â hwy wrth ddelio â materion galluogrwydd athrawon. Soniodd bron pob pennaeth y cyfarfûm ag ef/ hi am hyn. Rhestrir opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r sefyllfa hon ym Mhennod 5.

Fodd bynnag, ar un olwg, nid yw'n syndod nad oes diwylliant mwy annibynnol ar waith, o gofio nad yw'r blociau adeiladu sydd eu hangen er mwyn cynnal system fwy annibynnol yn eu lle.

Nid oes digon o awdurdodau, er enghraifft, yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu gallu rheoli busnes a rheoli ariannol yn ysgolion eu hardal – gan ddilyn esiampl Sir Ddinbych a ddisgrifiwyd uchod. Mae un ymateb a gefais gan lywodraethwr ysgol sydd â 25 mlynedd o brofiad yn gweinyddu ysgolion, yn dadlau o blaid datblygu gwell cymorth gweinyddol i arweinwyr ysgolion er mwyn eu rhyddhau i dreulio mwy o'u hamser a'u hymdrechion yn

¹² Mae'r swm hwn yn debygol o gynnwys rhywfaint o gymorth ar gyfer gwella ysgolion ond nid oedd ffigurau alldro'r gyllideb ar gyfer 2012/13 ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

monitro addysgu a dysgu a chodi safonau. Mae UCAC yn gwneud pwynt tebyg, gan awgrymu mai clystyrau ysgolion ddylai reoli ystadau.

Mae safon lywodraethu ysgolion, a benthyg y term a ddefnyddir gan Estyn yn ei ymateb, yn "amrywiol". Yn yr ysgolion gorau, bydd llywodraethwyr yn chwarae rhan gref yn gosod trywydd ar gyfer yr ysgol yn y dyfodol ac yn cyfrannu at ddeialog drylwyr a heriol ynghylch safonau cyflawni disgyblion. Ond, mae Estyn yn dweud mai prin yw'r wybodaeth sydd gan lywodraethwyr oddeutu chwarter yr ysgolion am ddata perfformiad yr ysgol, ac nad ydynt yn cymharu'r ysgol ag ysgolion tebyg nac yn aml yn herio arweinwyr neu'n eu dal yn atebol.

Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen ar lywodraethu ysgolion, a sefydlwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn nodi hefyd bod nifer o broblemau gyda'r model llywodraethu ysgolion presennol. Yn ei dystiolaeth, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cydnabod mai'r duedd gyffredinol yw datganoli llywodraethu ysgolion ac mae'n cefnogi egwyddor rhoi rhagor o annibyniaeth dros eu hysgolion i gyrff llywodraethu. Ond, mae'n dweud bod problemau mawr y mae angen rhoi sylw iddynt ac mae'n amau a oes gan lywodraethwyr ysgolion cynradd y capasiti i ymgymryd â rhagor o gyfrifoldebau. Mae hynny'n arwain y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gasglu bod eisiau:

mwy o bwyslais ar y sgiliau y mae eu hangen ar lywodraethwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau, yn hytrach na phwyslais ar bwy y maent yn eu cynrychioli

mwy o hyfforddiant a chymorth i lywodraethwyr. Atgyfnerthir y pwynt hwn gan y nifer cynyddol o alwadau i linell gymorth gyfrinachol Llywodraethwyr Cymru. Yn 2011/12 cafwyd dros 860 o ymholiadau (traean yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol) a'r rheini'n ymwneud â materion megis penodi penaethiaid, gweithdrefnau disgyblu a chwynion ysgolion a gweithdrefnau cyfarfodydd

mwy o eglurder ynghylch rolau ac atebolrwydd cyrff llywodraethu – mater sy'n cael ei ystyried ym Mhennod 5


ystyried ffurfiau llywodraethu amgen – a drafodir isod.

Mae nifer y ffederasiynau'n cynyddu ond mae'r sylfaen gychwyn yn fechan iawn, ac mae hynny'n wendid arall. Ddiwedd Mawrth 2013, dim ond oddeutu 20 o ffederasiynau oedd drwy Gymru gyfan a'r rheini ond yn cwmpasu oddeutu 50 o ysgolion. Mae hyn yn syndod ar ddwy lefel.

Yn gyntaf, mae nifer mawr o ysgolion bach iawn yng Nghymru. Mewn ysgol gynradd sydd ag un dosbarth ym mhob blwyddyn a 30 o ddisgyblion ym mhob un o'r blynyddoedd hynny o'r Flwyddyn Derbyn i Flwyddyn 6, bydd oddeutu 200 o ddisgyblion. Fel y dengys Ffigur 4.4 yn 2012, roedd ymhell dros hanner yr holl ysgolion cynradd yng Nghymru yn llai na hynny. Roedd gan fwy na 400 o'r ysgolion cynradd lai na 100 o ddisgyblion, roedd gan 184 ohonynt lai na 50 o ddisgyblion ac roedd gan 51 ohonynt 25 o ddisgyblion neu lai.

Mae'n bosibl bod yr ysgolion hyn yn darparu addysg dda ond maent yn gymharol ddrud i'w cynnal a byddant yn aml yn ei chael hi'n anodd recriwtio penaethiaid. Dywed NAHT Cymru fod llawer o'r ysgolion hyn yn cael eu harwain gan benaethiaid sy'n gorfod treulio llawer o'u hamser yn addysgu plant yn ogystal ag ysgwyddo tasgau gweinyddol. Oherwydd hynny, nid oes gan y penaethiaid hyn ddigon o amser ac adnoddau i fod yn gefn i'w staff, i ganolbwyntio ar wella'r ysgol ac i reoli'r newidiadau mewn addysg megis cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd. At hynny, mae'r ysgolion hyn yn aml wedi'u hynysu, nid dim ond yn ddaearyddol, ond o ran eu gallu i rannu a gweithio gydag athrawon eraill. Mae awdurdodau lleol wedi cau rhai o'r ysgolion lleiaf¹³ nad ydynt yn hyfyw rhagor ond, i bob golwg, byddai rhagor o ffedereiddio hefyd yn ffordd amlwg o fwrw ymlaen.

Ffigur 4.4 Nifer yr ysgolion cynradd yng Nghymru, yn ôl nifer y disgyblion



Ffynhonnell: Compendiwm Ystadegau Ysgolion Llywodraeth Cymru, 2012

Yn ail, ac ystyried y dystiolaeth ynghylch gwerth paru ysgolion sy'n perfformio'n wael â'r rheini sy'n perfformio'n dda mewn ffederasiwn o dan arweiniad pennaeth gweithredol, mae awdurdodau lleol wedi bod yn araf yn defnyddio cryfderau ac adnoddau eu hysgolion gorau. Mae pethau'n dechrau newid ond dylid ffedereiddio ysgolion gwan â rhai cryf lle bynnag y bo modd gan mai dyma'r ffordd sydd wedi'i phrofi a'r ffordd gost effeithiol o drawsnewid ysgolion sydd â phroblemau perfformio difrifol.

Un o'r rhesymau dros beidio â defnyddio ffederasiynau'n fwy eang efallai yw bod y rheoliadau ynghylch strwythurau llywodraethu ffederasiynau'n rhy anhyblyg. Pan fydd ysgolion yn ffedereiddio, rhaid ailffurfio'r cyrff llywodraethu a bydd y drefn llywodraethu'n cwmpasu'r holl ysgolion yn y ffederasiwn – h.y. ni fydd gan ysgolion unigol eu corff llywodraethu eu hunain rhagor. Efallai y bydd rhai ysgolion yn derbyn bod angen ffedereiddio neu eu bod yn awyddus i fod yn rhan o ffederasiwn ond eu bod yn

¹³ Roedd 29 yn llai o ysgolion â 100 neu lai o ddisgyblion yn 2011/12 o'u cymharu ag yn 2010/11.

gyndyn o golli eu hunaniaeth o fewn strwythur unedig. Fel yr esbonia Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru:

‘Gall ffedereiddio gael ei ystyried yn rhywbeth sy'n gwanhau ymwybyddiaeth arweinwyr ysgolion a rhieni o berchnogaeth.’

Bydd rhai ffederasiynau'n datrys yr anhawster hwn drwy gael un corff llywodraethu cyffredinol i'r ffederasiwn ond bydd hefyd yn sefydlu pwyllgor llywodraethwyr ar gyfer pob ysgol neu ar gyfer rhai o'r ysgolion o fewn y ffederasiwn. Fodd bynnag, ni ddefnyddir y dull hwn ym mhobman ac mae dadl o blaid sefydlu model newydd mwy addas at y diben ar gyfer llywodraethu ffederasiwn.

Mae strwythur ffederasiynau'n anhyblyg hefyd mewn tair ffordd arall. Yn gyntaf, rhaid ailffurfio corff llywodraethu ffederasiwn os a phan fydd ysgol arall yn penderfynu ymuno ag ef. Mae hyn yn feichus ac mae'n rhwystr diangen rhag datblygu cwmpas a dylanwad ffederasiynau.

Yn ail, mae'r rheoliadau ffedereiddio a roddwyd ar waith yn 2010 yn dweud bod yn rhaid i gyrff llywodraethu ffederasiynau gael o leiaf 15 o lywodraethwyr a dim mwy na 25. Nid yw'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynharach yn 2013, yn sgîl y ddeddfwriaeth a basiwyd yn 2011 a oedd yn caniatáu ar gyfer ffurfio ffederasiynau mwy o faint, yn cynnig diwygio'r niferoedd hyn. Fodd bynnag, mae'n dweud y gellir newid cyfansoddiad y niferoedd. Yn fy marn i, mae corff o 15 i 25 o bobl yn nifer anhylaw er mwyn cael corff llywodraethu effeithlon sy'n addas at y diben. Pwrpas pennu'r maint hwn yw bod angen darparu ar gyfer buddiannau gwahanol randdeiliaid ar gyrff llywodraethu. Fodd bynnag, byddai'n well ystyried model llywodraethu amgen a fyddai'n darparu ar wahân ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol ar y naill law ac ar gyfer cynrychiolaeth i randdeiliaid ac atebolrwydd ar y llall.

Yn drydydd, mae'n anodd, os nad yn amhosibl, i ysgolion a gynhelir fod yn rhan o'r un ffederasiwn ag ysgolion sefydledig ac ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyr. Y rheswm dros hyn yw bod gan yr olaf o'r rhain statws elusen yn ôl y gyfraith, ac oni chaiff y statws ymddiriedolaeth/elusen ei ddiddymu, ni allant, o dan gyfraith elusennau, fod yn rhan o strwythur llywodraethu integredig ffurfiol gyda chorff nad yw'n elusen¹⁴. Mae rhai ysgolion yn Lloegr wedi llwyddo i ochrgamu'r cyfyngiad hwn ond mae'n eithriadol o gymhleth. Felly, mae angen ffurf llywodraethu newydd i hwyluso'r ffordd ar gyfer clystyrau caled o ysgolion¹⁵ a allai gwmpasu ysgolion a gynhelir, ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol a/neu ysgolion sefydledig.

¹⁴ Yn ei ymateb i'r rheoliadau drafft sy'n rhoi pwerau i awdurdodau lleol sefydlu ffederasiynau o ysgolion a gynhelir, dywedodd y Comisiwn Elusennau wrth Lywodraeth Cymru ei bod yn gyfreithiol amhosibl i endid fod yn rhannol elusennol yn ôl y gyfraith neu'n elusen ac nid yn elusen ar yr un pryd. Dyma fyddai'r sefyllfa petai'r awdurdod lleol yn diddymu cyrff llywodraethu amrywiaeth o ysgolion gwirfoddol a/neu sefydledig ac ysgolion cymuned ac yn creu un corff llywodraethu ar gyfer y gymysgedd hon o ysgolion.

¹⁵ Ystyr 'clwstwr caled' yw grwpiau o ysgolion sy'n cydweithio o dan un strwythur llywodraethu ond nad ydynt o reidrwydd yn defnyddio'r rheoliadau ffedereiddio. Disgrifir opsiynau ar gyfer hwyluso'r trefniant hwn isod.


Mae a wnelo'r her olaf hon ag i ba raddau y mae ysgolion yn cydweithio a pha mor ddwfn yw'r bartneriaeth. Fel y nodwyd uchod, mae tuedd gadarnhaol ar waith sef bod mwy o ysgolion yn ymrwmo i gydweithio a chynorthwyo'i gilydd ond, drwyddi draw, mae'r diwylliant partneriaeth yn dal yn gymharol arwynebol ac ynysig. 'Dewch i weld beth rydyn ni'n ei wneud' – dyna yw hanfod gormod o'r gwaith partneriaeth, yn hytrach na'i fod wedi'i seilio ar arweinwyr ac athrawon yn rhannu data ac yna'n cydweithio i wella'r dysgu. Hyd yn oed lle bydd ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n wirioneddol ddwfn, ni fyddent yn disgwyl i'w hymrwymiad i'r bartneriaeth ei gwneud yn ddyletswydd arnynt i herio ysgol ac ymyrryd i'w chynorthwyo petaent yn ei gweld yn suddo i anawsterau.

Mae'n amlwg hefyd bod terfynau clir ynghylch pa mor bell yr aiff llawer o ysgolion o ran cydweithio ag ysgolion eraill. Mae llawer o benaethiaid a chyrrff llywodraethu'n gyndyn o adael i arweinydd disglair ac egniol fynd i ysgol arall am dymor neu am flwyddyn i'w chynorthwyo i ddatblygu. Maent yn teimlo y byddai eu hysgol hwy eu hunain ar ei cholled – er y gellid gweld hynny'n gyfle i godi proffil darpar arweinydd o'r tu mewn i'r ysgol neu i ennill arweinydd yn ei le o ysgol arall a allai gynnig syniadau newydd.

Yn yr un modd, yn fy nhrafodaethau, gwelais amheuaeth ynghylch rhannu addysgwyr rhagorol gydag ysgol arall (neu ysgolion eraill) am un diwrnod yr wythnos hyd yn oed – er bod holl dystiolaeth gwaith ymchwil yn dangos bod y naill ysgol a'r llall ar eu hennill yn fawr yn sgîl y profiad.

Fodd bynnag, fel y disgrifiwyd gan yr Athro David Hargreaves (gweler Ffigur 4.5) mae cysylltiad rhwng ysgolion yn dyfnhau eu cydweithio a datblygu strwythurau llywodraethu ac atebolrwydd ffurfiol. Bydd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn dechrau tua gwaelod ochr chwith y grid a ddangosir isod. Yr hyn sy'n nodweddu partneriaethau aeddfed mewn ysgolion yw sut y maent, dros gyfnod, yn symud tua phen uchaf y grid ar y dde – gan ffurfioli a chadarnhau eu trefniadau cydweithio wrth iddynt ddyfnhau eu gweithgareddau ar y cyd er mwyn gwella'r addysgu a'r dysgu. Yn ei dro, bydd hyn yn darparu'r sylfaen iawn ar gyfer cryfhau annibyniaeth ysgolion a meithrin system gwella dan arweiniad ysgolion.

Ffigur 4.5 – Y berthynas rhwng dyfnder a strwythur mewn partneriaethau rhwng ysgolion



Ffynhonnell: Hargreaves (2012)

Opsiynau ar gyfer diwygio

Ac ystyried y ddadl sydd wedi bod yn thema drwy'r bennod hon, mae'n gall edrych yn gyntaf ar yr opsiynau ar gyfer cryfhau cyd-allu ysgolion, cyn ystyried yr opsiynau ar gyfer cryfhau annibyniaeth.

Opsiynau ar gyfer ffederasiynau a gwaith partneriaeth

Wrth ystyried sut y dylai ysgolion gydweithio, nid oes un model sy'n gweddu i bawb. Yn wir, bydd llawer o ysgolion yn rhan o fwy nag un bartneriaeth ar yr un pryd. Er enghraifft, fe allai ysgol gynradd fod yn gweithio gyda'i hysgol uwchradd leol ar faterion sy'n ymwneud â disgyblion yn croesi'r bont o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 ac fe allai ar yr un pryd fod yn rhan o ffederasiwn neu glwstwr o ysgolion cynradd. Fodd bynnag, credaf fod dadl gref, ar sail addysgol ac ar sail cost-ffeithiolrwydd, o blaid sicrhau bod mwyafrif ysgolion Cymru, os nad pob un ohonynt maes o law, yn rhan o ffederasiwn neu glwstwr caled ffurfiol sy'n rhannu eu trefniant llywodraethu o dan arweinydd gweithredol. Gallai'r ffederasiwn neu'r clwstwr caled fod ar ffurf:

gr p o ysgolion cynradd-a-chynradd neu gr p o ysgolion uwchradd-ac-uwchradd

grŵp trawsyfnod o ysgolion sy'n cynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig

grŵp o ysgolion pob oed sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed – gallai hyn fod ar ffurf ffederasiwn, neu fe allai fod yn un ysgol dros sawl safle.

Dylai ysgolion, awdurdodau lleol a chyrff esgobaethol gydweithio i ddatblygu clystyrau a ffederasiynau priodol. Mae'r blociau adeiladu ar gael mewn llawer ardal ar ffurf y cysylltiadau a'r partneriaethau sydd eisoes ar waith. Fodd bynnag, byddai'n gwbl hanfodol sicrhau bod pob clwstwr neu ffederasiwn yn cynnwys digon o arbenigedd gwella ysgolion er mwyn iddi fod yn werth yr ymdrech i ffurfioli'r bartneriaeth. O ran gwella ysgolion, ni fyddai fawr o bwynt clystyru ysgolion diddrwg-didda ag ysgolion diddrwg-didda eraill. Mae angen i'r bartneriaeth gynnwys digon o DNA gwella ysgolion. Felly, byddwn yn disgwyl bod o leiaf un o'r ysgolion yn y clwstwr caled neu'r ffederasiwn wedi cael ei chategoreiddio'n 'dda' neu'n well na hynny gan Estyn a'r consortiwm rhanbarthol. Lle na fyddai modd sicrhau bod o leiaf un ysgol dda yn rhan o'r trefniant, oherwydd cyfyngiadau daearyddol, yna, byddai'n hollbwysig sicrhau arweiniad pennaeth gweithredol rhagorol i arwain y clwstwr caled neu'r ffederasiwn.

Dylai'r clystyru fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i ysgolion sy'n rhannu gwerthoedd neu nodweddion allweddol fod yn rhan o'r un grŵp. Felly, dylai ysgolion ffydd allu partneru ag ysgolion eraill o'r un ffydd a dylai ysgolion cyfrwng Cymraeg allu partneru ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill – er y byddai'r model llywodraethu newydd a ddisgrifir isod yn help i warchod hunaniaeth unigryw ysgol lle y byddai'n rhan o ffederasiwn neu glwstwr cymysg. Lle y byddai ysgolion wedi'u rhoi yn un o gategoriâu Estyn a'u bod felly'n 'destun pryder' neu lle y gwelwyd bod lle i boeni drwy ryw fodd arall, byddai eu hawl i benderfynu i ba glwstwr caled neu ffederasiwn y byddent yn perthyn yn cael ei diddymu.

O ran maint clystyrau caled a ffederasiynau o'r fath, byddai hyn yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau – megis daearyddiaeth, maint yr ysgolion a maint yr her a wynebid o fewn ysgolion yn y bartneriaeth. Fodd bynnag, fel rheol, ni fyddwn yn disgwyl i ffederasiynau neu glystyrau o'r fath gynnwys mwy na phum neu o bosibl chwech ysgol neu fe fyddai rychwant rheolaeth un pennaeth gweithredol yn rhy fawr. Fodd bynnag, petai ffederasiynau a chlystyrau caled mwy o faint yn cael eu ffurfio, yna, byddai'n ddoeth i'r ffederasiwn grwpio ysgolion yn is-glystyrau o fewn y ffederasiwn – pob is-glwstwr â'i arweinydd gweithredol ei hun.

Opsiynau ar gyfer llywodraethu ffederasiynau a chlystyrau caled


Yn union fel nad yw'r un math o bartneriaeth yn gweddu i bob ysgol, ni ddylai fod un model llywodraethu penodedig ychwaith ar gyfer pob partneriaeth rhwng ysgolion. Cytunaf â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y dylid sefydlu:

‘...modelau mwy hyblyg wrth ffurfio cyrff llywodraethu, er enghraifft drwy drefniadau ffedereiddio clwstwr neu gyd-lywodraethu.’

Rwyf am gynnig tri phrif fodel llywodraethu'n opsiynau. Wrth wraidd pob un, mae cysyniad a ystyriwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffenn ar Lywodraethu Ysgolion ac mae'n debyg i gynnig a awgrymwyd gan ASCL Cymru. Yn ei hanfod, y syniad yw cael bwrdd mewnol cymharol fach gyda'r llywodraethwyr yn cael eu recriwtio ar gyfer eu sgiliau, a grŵp rhanddeiliaid sy'n canolbwyntio ar gymorth a chraffu. Yng nghyd-destun ffederasiwn, byddai'r bwrdd, fel y'i dangosir yn Ffigur 4.6, yn gyffredinol atebol ac yn atebol yn y pen draw am berfformiad a rheolaeth pob ysgol sy'n rhan o'r ffederasiwn. Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru syniad tebyg, gan ddadlau o blaid aelodau anweithredol profiadol arbenigol a thimau uwch reoli y gellid eu rhannu ar draws nifer o ysgolion.

Fodd bynnag, yn ogystal â bwrdd bychan cyffredinol, byddai gan bob ysgol hefyd ei phennaeth ysgol ei hun (sef y pwynt cyswllt allweddol i rieni) a'i chorff llywodraethu neu ei chyngor rhieni lleol i ystyried materion bugeiliol a chymunedol, i gefnogi bywyd yr ysgol ac i graffu ar berfformiad a chynnydd.

Ffigur 4.6 – Model llywodraethu newydd posibl ar gyfer ffederasiynau o ysgolion



Byddai'r cysylltiadau rhwng rolau'r ddau gorff yn cael eu cadarnhau drwy bennu'n ffurfiol gyfrifoldebau'r naill a'r llall a thrwy drefnu i gadeirydd pob un o'r cyngorau rhieni fod yn aelod hefyd o'r corff neu'r bwrdd llywodraethu cyffredinol.

Nid yw'r model yn annhebyg i hwnnw a ddefnyddir gan ymddiriedolaethau aml-academi yn Lloegr lle mae wedi cynnig mwy o gyfeiriad strategol a dealltwriaeth o waith

llywodraethwyr. Mae hefyd yn adlewyrchu sut y mae rhai ffederasiynau yng Nghymru'n dechrau esblygu. Mae dwy fantais bosibl arall i'r model:

byddai pob ysgol mewn ffederasiwn yn gallu cadw'i hannibyniaeth unigryw – er enghraifft, gallai cyngor yr ysgol neu'r rhieni helpu i sicrhau bod ethos yr ysgol nid yn unig yn cael ei chadw ond yn cael ei datblygu o fewn cyd-destun partneriaeth eangach gydag ysgolion eraill


gallai nifer corff llywodraethu'r ffederasiwn fod yn llai na 25 - sef y nifer a gynigir o dan y rheoliadau drafft ar gyfer ffedereiddio a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2013. Fel y dadleuwyd uchod, mae'r nifer hwn yn anhylaw ar gyfer corff llywodraethu ac nid yw'n gydnaws â llywodraethu effeithlon. Mae'r model dwy haen yn delio â'r mater hwn drwy ganolbwyntio cynrychiolaeth i randdeiliaid ar lefel yr ysgol yn hytrach nag ar lefel y ffederasiwn. O ganlyniad, gallai ac fe ddylai bwrdd cyffredinol y ffederasiwn fod yn llai o lawer gan ganolbwyntio ar ddatblygiad strategol a pherfformiad y ffederasiwn.

Nes y gellid cyflwyno rheoliadau neu ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer model fel hyn ar gyfer llywodraethu ffederasiwn, fe allai'r ffederasiynau sefydlu a defnyddio pwyllgorau rhieni ar gyfer pob ysgol er mwyn sicrhau rhai o nodweddion a manteision y model a ddisgrifir uchod.

Mae'r ail opsiwn yn debyg iawn, ond, fel y dengys Ffigur 4.7, mae'n addasu'r cysyniad llywodraethu dwy haen, ac mae'n dangos sut y gallai weithio mewn cyd-destun lle y gallai awdurdodau lleol fod yn dymuno dod â sawl ysgol bresennol at ei gilydd i greu sefydliad dysgu 3-19 newydd ar gyfer ardal. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai un ysgol yn gweithredu ar draws sawl gwahanol gampws. Mae'r model llywodraethu'n help i sicrhau bod gan rieni a'r gymuned bwynt cyfeirio ar gyfer campws penodol eu plentyn hwy, gan sicrhau hefyd bod y drefn llywodraethu strategol yn gadarn ar gyfer yr ysgol drwyddi draw. Rhinwedd arall y model hwn yw, drwy gael un sefydliad, bod modd i Estyn arolygu pob campws sy'n rhan o'r ysgol ar yr un pryd¹⁶.

¹⁶ Byddai hefyd yn ddamcaniaethol bosibl i Estyn newid ei amserlen arolygu er mwyn arolygu pob ysgol o fewn ffederasiwn ar yr un pryd.

Ffigur 4.7 – Model llywodraethu newydd posibl ar gyfer ysgol 3-19 ar sawl campws



Mae'r trydydd opsiwn, unwaith eto, yn defnyddio model llywodraethu dwy haen ond mae'n benthycu syniadau gan Ysgolion Ymddiriedolaethau Cydweithredol sydd wedi bod yn boblogaidd yn Lloegr¹⁷. Ffordd arall o edrych ar y model hwn yw ei weld yn estyniad ar ddull yr ysgolion sefydledig ond ei fod yn cael ei roi ar waith ar gyfer grwpiau o ysgolion – yn hytrach nag mewn ysgolion unigol¹⁸. Yn y model hwn, a ddisgrifir yn Ffigur 4.8, bydd ymddiriedolaeth (neu elusen) yn cael ei ffurfio sy'n dal tir ac asedau ysgolion yr ymddiriedolaeth ac yn cyflogi'r holl staff – fel sy'n wir mewn ysgolion sefydledig ac ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol. Fe allai'r ymddiriedolaeth gynnwys partneriaid strategol – megis prifysgolion, colegau AB, elusennau a sefydliadau sydd ag arbenigedd addysgol a chyflogwyr lleol – i ychwanegu arbenigedd mewn meysydd penodol. Dadleuai Colegau Cymru, er enghraifft, fod gan golegau AB:

'gronfa o arbenigedd a allai fod o gymorth i uwch reolwyr ac arweinwyr ysgolion...ac a allai, lle bo angen, helpu ysgolion sy'n methu drwy ddarparu cyngor a chymorth arbenigol mewn pob math o feysydd.'


Byddai ymddiriedolaeth yn cael ei ffurfio hefyd i gynnig cyfle i rieni, disgyblion a staff yr ysgolion ffurfio cyngor aelodau a fyddai'n ethol rhai o'r ymddiriedolwyr a byddai hyn yn rhoi cyfran iddynt yng ngweithrediad yr ysgolion. Byddai'r ymddiriedolwyr yn

¹⁷ I gael gwybod rhagor am Ysgolion Ymddiriedolaethau Cydweithredol, gweler <http://www.co-op.ac.uk/wp-content/uploads/2012/07/Co-operative-Trust-Schools-brochure.pdf>

¹⁸ Ataliwyd datblygu ysgolion sefydledig ar eu ffurf wreiddiol gan Lywodraeth Cymru, ac roedd hynny'n ddealladwy gan fod perygl iddynt hyrwyddo annibyniaeth o fewn cyd-destun ysgolion unigol a darnio'r system.

enwebu rhai o'r llywodraethwyr – a byddent hwy, ynghyd â chadeiryddion cynghorau'r rhieni, yn atebol am berfformiad gweithredol yr ysgolion.

Ffigur 4.8 – Model newydd posibl ar gyfer llywodraethu ar sail ymddiriedolaeth gydweithredol



Rhinwedd y dull hwn yw ei fod yn rhoi opsiwn i ysgolion gael rhagor o annibyniaeth ond mae'n gwneud hynny o fewn fframwaith sy'n hybu partneriaeth, yn cynnal cysylltiadau â'r gymuned ac yn gymorth i sicrhau llywodraethu mwy effeithiol. Gallai'r dull hwn ddarparu strwythur buddiol ar gyfer cydweithio 14-19 rhwng ysgolion, colegau a chyflogwyr. Dylai'r model hefyd gynnig fframwaith a fyddai'n ei gwneud yn gyfreithiol bosibl i ysgolion sefydledig ac ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol fod yn rhan o glwstwr caled gydag ysgolion a gynhelir – er, i lawer o ysgolion a gynorthwyr yn wirfoddol, efallai y bydd angen cryfhau'r drefn lywodraethu ar lefel ysgolion unigol er mwyn sicrhau bod y dimensiwn ffydd a buddiannau hynny yn cael eu gwarchod.

Mae dau ddewis arall ar gyfer llywodraethu y gellid eu hystyried hefyd. Mae partneriaethau gwella addysg yn ddull llacach i ysgolion a rhanddeiliaid allweddol eraill gydweithio er mwyn gwella ysgolion a, thrwy gytundebau lefel gwasanaeth gyda'u hawdurdod lleol ac asiantaethau eraill, gydlynu darpariaeth gwasanaethau eraill i blant. Gall cwmnïau addysg heb fryd ar wneud elw hefyd fod yn fodd i ysgolion gydysgwyrddo'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau ar y cyd. Defnyddir dull o'r fath fel rheol lle bydd ysgolion yn darparu gwasanaethau gwella drwy gyfnewid ag ysgolion eraill.

Nid strwythurau yw popeth – er enghraifft, mae cydwerthoedd, cenhadaeth ac ymddiriedaeth hefyd yn elfennau hollbwysig o waith partneriaeth. Gellir cyflawni'r rheini yr un mor rhwydd drwy ffurfiau llacach ar gydweithredu â thrwy bartneriaethau mwy ffurfiol. Fodd bynnag, o'm profiad i o weithio'n helaeth gyda phartneriaethau rhwng ysgolion, os yw partneriaeth am fod o sylwedd yn y tymor hir a pharhau, yna, mae'n anochel y bydd angen trefn lywodraethu ffurfiol. Rhaid dychwelyd at ddadansoddiad David Hargreaves (gweler Ffigur 4.5): sef bod yn rhaid i'r llywodraethu fod yn ddigon cadarn i gwmpasu maint a dyfnder cynyddol yr ymdrech gydweithredol ac er mwyn sicrhau bod eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am wella ysgol. Felly, er fy mod yn derbyn bod Partneriaethau Gwella Addysg, cwmnïau ysgol, a threfniadau cydweithredol anffurfiol eraill rhwng ysgolion o gryn fudd ac y dylid eu hannog, ni chredaf eu bod yn cynnig plattform digon cadarn ar eu pen eu hunain er mwyn gwneud gwella dan arweiniad ysgolion yn fwy systematig ac er mwyn sicrhau mwy o annibyniaeth.

Opsiynau ar gyfer cymell ffederasiynau a chlystyrau caled

Os derbynnir y ddadl o blaid gwaith partneriaeth cadarn rhwng ysgolion drwy ffederasiynau, ymddiriedolaethau neu glystyrau caled eraill, yna'r cwestiwn nesaf yw sut mae symud o'r fan lle mae'r system ar hyn o bryd i'r fan lle mae angen iddi fod. Ni fyddai'n iawn nac yn angenrheidiol symud yn llwyr at set o drefniadau strwythurol newydd i ysgolion. Byddai hynny'n tarfu ar bethau ac yn tynnu'r sylw oddi ar y brif flaenoriaeth, sef gwella'r addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Ond ni ddylid gadael y sefyllfa fel y mae ychwaith. Yn hytrach, rwy'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru bennu trywydd clir drwy nodi ei bod yn disgwyl i ysgolion symud tuag at weithio mewn ffederasiynau neu fathau eraill o glystyrau caled. Fel y dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, dylai ffedereiddio a phartneru fod yn norm yn hytrach nag yn eithriad. Gellid camu ymlaen at hyn drwy:

ffedereiddio ysgolion wrth i benaethiaid ymddeol – fel y gwelsom ym Mhennod 3, mae hyn yn debygol o gynnwys nifer sylweddol o ysgolion dros yr ychydig flynyddoedd nesaf

awdurdodau lleol yn gweithio gydag ysgolion a chymunedau i roi strategaethau ysgolion yr unfed ganrif ar hugain ar waith. Wrth i ysgolion gael eu had-drefnu ac wrth i ysgolion newydd gael eu codi, byddai disgwyl iddynt fod yn rhan o ffederasiwn neu glwstwr caled

defnyddio'r canllawiau statudol sydd ar y gweill ynghylch ymyrryd statudol o dan y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ddangos mai ffederasiwn gydag ysgol sy'n perfformio'n dda ddylai fod yn graidd i raglen adfer, lle bo hynny'n ymarferol, pan fydd ysgol yn dod o dan un o gategoriâu Estyn sy'n dangos bod gofyn ei gwella'n ddifrifol, bod angen mesurau arbennig neu ei bod yn cael eu hystyried yn ysgol sydd fel arall yn 'achosi pryder'

defnyddio'r rheoliadau newydd o dan Fesur Addysg (Cymru) 2011 sy'n rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol sefydlu ffederasiynau o ysgolion a gynhelir yng Nghymru.

Opsiynau eraill a allai gymell ysgolion i symud at ffederasiwn neu glwstwr caled o bosibl fyddai:

disgwyl (neu ei gwneud yn ofynnol) i awdurdodau lleol ddatganoli rheolaeth fusnes a rheolaeth ariannol i ffederasiynau a chlystyrau caled o ysgolion yn yr un modd â model Cyngor Sir Ddinbych a ddisgrifiwyd yn Ffigur 4.2. Gellid gwahodd Cymdeithas Lywodraeth Leol Cymru i ddynodi tîm bychan o swyddogion awdurdodau lleol, rheolwyr busnes ysgolion a phenaethiaid i arwain y gwaith hwn a sicrhau bod y dull yn cael ei roi ar waith ledled Cymru erbyn 2014/15

cymhellion ariannol i ysgolion rhagorol ysgwyddo arweinyddiaeth ysgol sy'n straffaglu neu sy'n tanberfformio'n ddirifol. Gellid cyflawni hyn, er enghraifft, drwy sianelu'r arian ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer ysgolion uwchradd band 4 a 5 drwy ysgolion sy'n perfformio'n dda. Byddai'r cam hwn yn gysylltiedig â gofyniad bod yr ysgolion gorau'n cynorthwyo ac yn gweithio gydag ysgolion yn y bandiau isaf – yn unol â'r hyn y cytunir arno drwy'r consortia rhanbarthol

rhoi'r hawl i ysgolion mewn ffederasiwn neu glwstwr caled, yn enwedig lle byddant yn cynnwys ysgol anghenion arbennig, ddarparu gwasanaethau lles addysg a gwasanaethau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol i ddisgyblion. O dan y model hwn, byddai'r awdurdod lleol yn comisiynu'r ddarpariaeth hon

dirprwyo lefel uwch o grantiau penodol i ysgolion sy'n gweithio drwy ffederasiwn neu glwstwr caled gan ddisgwyl i'r holl grantiau hynny, yn y tymor canolig, gael eu talu drwy ffederasiynau a chlystyrau caled

symud at ddyrannu arian cyfalaf i ysgolion drwy ffederasiynau a chlystyrau caled yn hytrach nag i ysgolion unigol

addasu'r drefn atebolrwydd ac arolygu er mwyn iddi gydnabod y gwerth ychwanegol a ddaw yn sgîl ffederasiynau a chlystyrau caled – mae rhagor o fanylion am yr opsiwn hwn ym Mhennod 5.

Ar yr un pryd ag annog symudiadau tuag at ffedereiddio a chlystyru caled, fe allai hefyd fod yn ddoeth symud tuag at ddefnyddio systemau gwybodaeth rheoli data safonol ar gyfer yr holl ysgolion ledled Cymru. Byddai hyn yn help i warchod rhag darnio'r system ac yn osgoi sefyllfa lle byddai gofyn i bob ffederasiwn a chlwstwr gomisiynu a chaffael ei systemau ei hun er mwyn gallu safoni ar draws ei grŵp o ysgolion. Fodd bynnag, byddai'n bwysig, petai'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu, bod ymgynghori llawn yn digwydd â'r ysgolion a'u bod yn cael eu cynnwys wrth gynllunio'r systemau a'u bod yn ddigon hyblyg i alluogi ffederasiynau a chlystyrau i'w teilwra i'w gofynion penodol hwy.

Opsiynau ar gyfer cryfhau annibyniaeth ysgolion

Effaith llawer o'r opsiynau a ddisgrifiwyd uchod fydd cryfhau annibyniaeth ysgolion o fewn cyd-destun lle bydd ysgolion yn cynorthwyo'i gilydd ac yn cydweithio. Fodd bynnag, mae'r fframwaith hwn hefyd yn cynnig platfform ar gyfer ehangu annibyniaeth mewn meysydd eraill. Rwy'n cefnogi'r egwyddor y cyfeiriwyd ati yn adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol a gadeiriwyd gan Vivian Thomas (Llywodraeth Cymru, 2011) sef y dylai'r arian fynd yn uniongyrchol i'r lefel sy'n gyfrifol am ddarparu a pherfformiad.

Drwy gyfuno sawl peth, sef symud swyddogaethau i ddwylo ffederasiynau a chlystyrau caled o ysgolion, consortia'n ysgwyddo swyddogaethau gwella ysgolion, ac atgyfnerthu gwasanaethau addysg yn gyflym (gweler Pennod 6), dylai fod modd dirprwyo mwy o arian i ysgolion nag 85 y cant, sef y targed erbyn 2014. Fodd bynnag, sylfaen fwy rhesymegol ar gyfer llunio targed newydd fyddai dynodi bloc ar wahân yn yr Asesiad o Wariant Safonol ar gyfer swyddogaethau statudol awdurdodau lleol a swyddogaethau eraill nad oes modd eu dirprwyo'n synhwyrol - megis cludiant i ysgolion a chydlynu derbyniadau - a'i gadw ar wahân i'r bloc ar gyfer gwariant ar ysgolion (gan gynnwys gwariant ar anghenion arbennig). Y rhagdybiaeth fyddai bod y rhan fwyaf helaeth o'r arian sy'n gysylltiedig â'r bloc arian ar gyfer ysgolion yn cael ei dirprwyo i'r ysgolion – ac mai'r eithriad yn hytrach na'r rheol fyddai cadw cronfeydd yn ganolog (er y gallai Fforymau Ysgolion o bosibl gytuno y dylid cadw rhai meysydd gwariant yn ganolog). Byddai hyn yn golygu y gellid cael system fwy tryloyw a byddai'n help hefyd i fraenaru'r tir ar gyfer ariannu ysgolion yn uniongyrchol, pe tybid mai'r opsiwn hwnnw, fel y'i trafodir isod, fyddai'r ffordd iawn ymlaen.

Fe all fod dadl hefyd, fel y'i cynigir gan ASCL Cymru, o blaid cyflwyno templed cenedlaethol ar gyfer cytundebau lefel gwasanaeth rhwng awdurdodau lleol a'r ysgolion. Byddai hyn yn sicrhau eglurdeb a chysondeb o ran safonau perfformiad a monitro perfformiad, a byddai'n awgrymu lefelau'r cosbau am danberfformio. Fodd bynnag, yn fy marn i, trefniant dros dro yn unig ddylai hyn fod. Mae'r ateb yn y tymor hwy'n dibynnu ar ffederasiynau a chlystyrau caled yn meithrin eu harbenigedd caffael eu hunain er mwyn iddynt allu profi'r farchnad a sicrhau eu bod yn cael y gwerth gorau am arian wrth brynu gwasanaethau i'r ysgolion yn eu clwstwr. Lle bydd awdurdodau lleol yn dal i ddarparu'r cynnig gorau, byddant yn dal i brynu'r gwasanaeth hwnnw ganddynt, ond lle bydd yr awdurdod yn ddrud a/neu fod yr ansawdd yn wael, byddant yn chwilio amdano mewn manau eraill.

Mae opsiwn hefyd i gynnig rhagor o annibyniaeth wrth ymdrin â grantiau penodol. Awgrymaf hefyd un cam y gellid ei gymryd rhag blaen cyn dirprwyo lefelau uwch o grantiau penodol i ffederasiynau a chlystyrau caled (fel y'i disgrifiwyd uchod), sef yng nghyswllt yr ysgolion hynny y mae eu consortia'n eu categoreiddio'n 'dda' neu'n well, y dylid talu eu cyfran o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion, y Grant Cymraeg Mewn Addysg a'r Grant Amddifadedd Disgyblion iddynt heb fod yn rhaid iddynt gyflwyno cynlluniau i ddangos sut y byddant yn gwario'r arian. Dylid dal ysgolion yn atebol am ddefnyddio'r arian yn effeithiol, ond mae'n fwy synhwyrol gwneud hyn drwy ganolbwyntio ar

gynnydd disgyblion ac ar wella cyrhaeddiad. Mae gan y system drefniadau ar gyfer gwneud hynny eisoes drwy gyfuniad o fandio, arolygiadau Estyn ac ymweliadau gan arweinwyr systemau, ac ni welaf fawr o rinwedd mewn gorfodi arweinwyr ysgolion sy'n 'dda' neu'n well i lenwi a chyflwyno cynlluniau. I'r ysgolion hynny nad ydynt eto'n 'dda', yna dylai'r consortia rhanbarthol barhau i lywio a chymeradwyo sut y dylid defnyddio'r arian grant penodol.

Gellid cryfhau annibyniaeth unwaith eto drwy ariannu ysgolion yn uniongyrchol. Byddai hyn yn sicrhau bod yr ariannu'n fwy tryloyw, bod modd rhagweld y sefyllfa ariannol yn well a byddai'n newid natur y berthynas gyda'u hawdurdod lleol. Mae NAHT Cymru yn gweld y gall fod rhinwedd mewn model lle bydd ysgolion yn cael eu hariannu'n ganolog; byddai ASCL Cymru yn hoffi gweld fformiwla ariannu craidd genedlaethol; a chred y Gwasanaeth Addysg Gatholig y dylid cyflwyno cyllid fformiwla cyfartal yn ôl grwpiau oedran ar draws pob awdurdod lleol.

Serch hynny, mae NAHT Cymru'n dweud hefyd bod angen bod yn ofalus a chofio faint o ysgolion bychain sydd, a chapasiti penaethiaid ar hyn o bryd i reoli'r newid ac ymdopi â'r cyfrifoldeb ychwanegol – er ei fod yn derbyn y gallai ffedereiddio a chlystyru fynd i'r afael â'r anhawster hwn wrth i amser fynd rhagddo.

Y profiad yn Lloegr yw bod safoni trefniadau ariannu i ysgolion ymhell o fod yn syml. Mae'n anochel bod unrhyw newid i fformiwlâu ariannu'n creu cyfres o enillwyr a chollwyr. Er enghraifft, mae gwahaniaeth o £1,000 y disgybl rhwng lefel gyfartalog cyllid i ysgolion uwchradd mewn rhai awdurdodau yng Nghymru o'u cymharu ag awdurdodau eraill. Credaf hefyd, ac ystyried y lluo o newidiadau eraill sydd ar waith yn y system addysg, y gallai diwygio'n radical drefn ariannu ysgolion dynnu'r sylw i raddau helaeth oddi wrth fusnes craidd ysgolion, sef gwella'r addysgu a'r dysgu. Yn wir, byddai'r ysgolion a fyddai ar eu colled yn sgîl y trefniadau newydd bron yn sicr o ddefnyddio'r newidiadau yn y drefn ariannu'n esgus dros beidio â gwneud yn well. Yn ogystal mae'r nifer mawr o ysgolion cynradd bach iawn yn ei gwneud yn anodd iawn pennu fformiwla genedlaethol sy'n adlewyrchu eu hamgylchiadau.

Fodd bynnag, ni chredaf fod yr anawsterau'n golygu nad oes modd newid dim. Felly, rwy'n cynnig dau opsiwn i baratoi ac i fod yn sail ar gyfer ffordd o feddwl am hyn yn y tymor hwy.

Yn gyntaf, mae dadl gref o blaid trefnu bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i symud tuag at fwy o safoni ar fformiwlâu ariannu. Un ffordd o gyflawni hyn fyddai cynyddu cyfran y cyllid y mae'n rhaid ei ddyrannu ar sail niferoedd disgyblion o 70 y cant i ffigur uwch. Mewn geiriau eraill, cam synhwyrol cyntaf tuag at fformiwla ariannu genedlaethol fyddai gweld mwy o gysylltiad rhwng y fformiwlâu ariannu a roddir ar waith ar draws pob awdurdod lleol.

Yn ail, gallai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth fanwl o lwybr posibl tuag at fabwysiadu fformiwla ariannu genedlaethol ac archwilio goblygiadau hynny. Gallai'r astudiaeth greu sawl darlun posibl a mynd i'r afael â sut y byddai'n bosibl croesi'r bont at system newydd. Dylai'r astudiaeth ystyried y potensial i ariannu ysgolion fesul


ffederasiwn a chlwstwr caled (gallai hyn o bosibl helpu i ddatrys problem ysgolion cynradd bychain iawn) a chynnwys, yn un o'r darluniau posibl hyn, yr opsiwn o gael llai o awdurdodau a gwasanaethau addysg o lawer yn y tymor canolig – fel y'i disgrifir ym Mhennod 6.

Casgliad: symud at fwy o bartneriaethau a hynny'n gysylltiedig â mwy o annibyniaeth

Mae Ffigur 4.9 yn disgrifio'r hyn yr wyf wedi'i alw'n fap ffordd ar gyfer defnyddio partneriaethau i helpu i hybu gwelliannau mewn ysgolion dan arweiniad yr ysgol a chryfhau annibyniaeth ysgolion yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yng Nghymru'n gweithredu ar ochr chwith y siart – h.y. maent yn gweld gwella'r ysgol yn fater y dylid mynd i'r afael ag ef yn bennaf o fewn eu sefydliad, er eu bod yn agored i gydweithredu ag ysgolion eraill, a'u bod, o bosibl, yn gwneud hynny, mewn perthynas ag agweddau ar ddatblygu athrawon a'r ysgol. Mae adran ganol y deagram yn dangos yr ysgolion hynny sy'n gweithio mewn partneriaethau mwy ffurfiol sydd naill ai'n canolbwyntio ar ddarparu gwell cymorth busnes i ysgolion a/neu'n ffurfioli eu gwaith partneriaeth ar wella ysgolion.

Fodd bynnag, yr her i system addysg Cymru yw symud at sefyllfa lle bydd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn gweithio o fewn model a ddisgrifir ar ochr dde Ffigur 4.9. Nid yn unig byddai hyn yn sicrhau sylfaen gadarnach o lawer ar gyfer datblygu system gwella ysgolion a fyddai'n hunangynhaliol, byddai hefyd yn sefydlu'r fframwaith cymorth iawn er mwyn cryfhau annibyniaeth.

Ffigur 4.9 – Map ffordd ar gyfer defnyddio partneriaethau i helpu i hybu'r broses o wella ysgolion dan arweiniad yr ysgol a chryfhau annibyniaeth ysgolion



Pennod 5: Gwella atebolrwydd

Cyflwyniad

Nid yw datblygu trefniadau atebolrwydd effeithiol mewn ysgolion yn dasg rwydd ac mae llawer o awdurdodaethau addysg wedi straffaglu i wneud hyn yn iawn. Fel yr esbonia Ffigur 5.1, ar y naill law mae 'na berygl o orddibynnu ar brofion a'u hystyried yn hollbwysig. Fe all hynny arwain at gulhau'r cwricwlwm, dysgu arwynebol ac at sefyllfa lle bydd ysgolion ac athrawon yn chwarae'r gêm. Gall hefyd gyfrannu at sefyllfa lle bydd arweinwyr ysgolion ac athrawon yn cael eu dieithrio oddi wrth strategaethau i ddiwygio ysgolion ac yn gyndyn o rannu eu dysgu gydag ysgolion eraill y maent yn eu hystyried yn gystadleuwyr.

Ond mae fframwaith atebolrwydd gwan neu ddryslud yn golygu bod ysgolion yn troi'n erddi dirgel ac nad yw rhieni, y cyhoedd na llunwyr polisïau'n gallu barnu pa mor effeithiol ydynt. Nid oes sail i ysgolion allu meincnodi a dysgu oddi wrth ei gilydd ac ychydig o gymhelliant sydd i wella perfformiad. Yr her, felly, yw datblygu system atebolrwydd sydd:

yn glir ynghylch y deilliannau addysgol allweddol y mae'n ymdrechu i'w cyflawni – a pha lefelau o'r system sy'n gyfrifol am ba ganlyniadau

yn rhoi'r wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth i ysgolion ac athrawon wella perfformiad disgyblion yn yr ystafell ddosbarth o ddydd i ddydd ac o wythnos i wythnos

yn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng cyrhaeddiad a chynnydd o ran deilliannau dysgu ehangach

yn galluogi rhieni, disgyblion, ysgolion, y cyhoedd a llunwyr polisïau i gymharu perfformiad ysgolion ar sail ystod o feini prawf gan asesu'r cynnydd cymharol y maent yn ei wneud

yn rhoi cymhellion i ysgolion wella cyrhaeddiad a chyflawniad drwy gydweithio.

Fy nghasgliad i yn y bennod hon yw bod y system atebolrwydd yng Nghymru yn cynnwys llawer o'r nodweddion hyn ond y gellid cynnig opsiynau ar gyfer ei diwygio i gryfhau'r trefniadau eto.

Ffigur 5.1 – Canlyniadau ymchwil allweddol am atebolrwydd ysgolion

Gall atebolrwydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau profion myfyrwyr fod yn arf pwerus i newid ymddygiad athrawon ac ysgolion, ond fe all arwain hefyd at ganlyniadau annymunol megis addysgu er mwyn pasio profion, llurgunio sgoriau profion a gwneud ysgolion sy'n sgorio'n uchel yn hunanbodlon. Mae'r systemau atebolrwydd gorau wedi'u cynllunio i gynnwys amcanion dysgu ehangach i fyfyrwyr hefyd ac i annog ysgolion i

barhau i fod yn uchelgeisiol.

Mae angen i ganlyniadau profion fod yn ddilys ac yn ddibynadwy er mwyn iddynt fod yn sail ar gyfer yr hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ac er mwyn ei wella. Mae tystiolaeth ymchwil PISA yn awgrymu bod rhyddhau canlyniadau myfyrwyr i'r cyhoedd yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad myfyrwyr.

Po fwyaf o bwys a roddir ar ganlyniadau'r profion, mwyaf soffistigedig y bydd angen i'r data fod er mwyn creu darlun cyflawn a chytbwys o'r perfformiad.

Dylai athrawon ac ysgolion ond fod yn atebol am ffactorau sydd o fewn eu rheolaeth – mae defnyddio mesurau gwerth ychwanegol fel rhan o system atebolrwydd yn ffordd dda o helpu i gyflawni hyn.

Ni all yr un asesiad ar ei ben ei hun ddiwallu anghenion gwybodaeth pob rhanddeiliad. Nid yw asesiad sy'n ddilys at un diben o anghenraid yn ddilys at ddiben arall. Er enghraifft, efallai na fydd asesiad blynyddol sydd â'r bwriad o ddal ysgolion yn atebol o fawr o werth i athrawon o ran gwella'u harferion beunyddiol yn yr ystafell ddosbarth. Wrth gynllunio pob agwedd ar system atebolrwydd, fe ddylai'r agwedd honno ddangos beth yw ei phwrpas ac fe ddylai'r gwahanol agweddau gydweddu â'i gilydd.

Mae angen cysylltu atebolrwydd â rhoi gwybodaeth i ysgolion a staff am sut mae gwella – er enghraifft, mae angen i ysgolion ac athrawon allu dehongli a defnyddio canlyniadau profion i fyfyrwyr.

Mae angen cyfuno targedau perfformiad a disgwyliadau'r llywodraeth o'r brig i lawr â meithrin gallu ysgolion o'r gwraidd i fyny. Mae systemau atebolrwydd yn fwy tebygol o arwain at wella os byddant yn canolbwyntio'r sylw ar yr wybodaeth sy'n berthnasol i addysgu a dysgu, ac yn cymell athrawon ac ysgolion i ddefnyddio'r wybodaeth honno i wella'u hymarfer.

Ffactorau economaidd a diwylliannol, gweithdrefnau contractaidd trwsogl a diffyg hyfforddiant a sgiliau yw'r materion sydd fwyaf tebygol o atal arweinwyr ysgolion rhag dal staff i gyfrif.

Ffynonellau: Donaldson (2011); Elmore (2008); Faubert (2009); OECD (2011b); O'Day (2002); Rosenkist (2010)

Cynnydd diweddar

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gwelwyd nifer o newidiadau cadarnhaol sy'n help i ddatblygu system atebolrwydd fwy aeddfed yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r asesiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyflwyno Bagloriaeth Cymru yn sicrhau bod gwerth yn cael ei roi ar ddatblygiad, gwybodaeth, sgiliau a dysgu ehangach a bod y rhain yn cael eu hasesu hefyd – nid dim ond cyrhaeddiad mewn profion. Bydd cyflwyno graddau i Fagloriaeth Cymru ar Safon Uwch ar gyfer cyrsiau sy'n dechrau o fis Medi 2013 ymlaen,

yn unol ag argymhelliad Estyn, yn help i adlewyrchu'n fwy teg yr hyn y mae myfyrwyr yn ei gyflawni.

Drwy gyflwyno un fframwaith arolygu, sefydlwyd trefn gyson ar gyfer arolygu a barnu ysgolion, colegau, darparwyr blynyddoedd cynnar ac awdurdodau lleol. Mae defnyddio arolygiadau dilynol hefyd yn helpu darparwyr addysg sy'n straffaglu i wybod i ba raddau y maent yn gwneud cynnydd o ran gwella.

Fe allai'r trefniadau rheoli perfformiad diwygiedig i athrawon a phenaethiaid, a ddaeth i rym ar ddechrau 2012, rymuso penaethiaid a llywodraethwyr i gysylltu gwella ysgolion â pherfformiad staff. Mae cyhoeddi set ddata graidd Cymru gyfan wedi mynd gryn ffordd tuag at sicrhau bod iaith gyffredin ar gael i ddadansoddi a dehongli perfformiad a chynnydd ysgolion.

Mae cyflwyno trefn fandio i ysgolion uwchradd¹⁹ yn help i herio agweddau hunanfodlon yn y system drwy ganolbwyntio ar gynnydd ysgolion bob blwyddyn, drwy edrych ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion o'u cymharu â'u cyrhaeddiad blaenorol a thrwy roi cymhelliant i ysgolion yn y bandiau gwaelod wella'u perfformiad. Yn 2012, gwelwyd cynnydd yng nghanran y bobl ifanc a gafodd bum gradd TGAU da, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg, mewn 61 o'r 79 ysgol a oedd ym mandiau 4 a 5. Wrth ystyried yr un mesur, y cynnydd cyffredinol ar gyfer ysgolion bandiau 4 a 5 oedd 4.8 a 5.8 pwynt canran, yn y drefn honno.

Mae'r ymrwymiad i wella safonau'n cael ei atgyfnerthu drwy gyflwyno proses ddioli newydd a chryfach ar gyfer cymwysterau galwedigaethol er mwyn sicrhau mai dim ond ar gyfer cymwysterau o ansawdd sy'n drwyadl, yn berthnasol ac o werth y bydd arian cyhoeddus yn cael ei gymeradwyo.

Mae gwefan *Fy Ysgol Leol*²⁰ yn sicrhau bod data ysgolion ar gael i bobl eu gweld ac mae'n galluogi rhieni a phobl eraill sydd â diddordeb yn eu hysgol leol i weld pa mor dda y mae'n ei wneud. Mae'r safle'n cynnwys cyfoeth o ddata am niferoedd a nodweddion disgyblion, staffio mewn ysgolion, ariannu, presenoldeb a pherfformiad. Mae perfformiad ysgol hefyd yn cael ei osod o fewn ei gyd-destun. Er enghraifft, bydd ysgolion yn cael eu meincodi o'u cymharu ag ysgolion sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael pryduau ysgol am ddim ac yn cael eu cymharu ag ysgolion o fewn yr un 'teulu' (grwpiau o ysgolion sy'n wynebu her weddol debyg).

Bydd y profion darllen a rhifedd cenedlaethol newydd a gymerir gan ddisgyblion, o fis Mai 2013 ymlaen, ar ddiwedd pob blwyddyn o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9, yn helpu ysgolion i asesu safonau darllen a rhifedd disgyblion. Bydd y prawf darllen ar gael mewn dwy ran. Bydd prawf 'craidd' statudol. Bydd hwn yn cynhyrchu data a fydd yn help i athrawon ddeall ble mae eu disgyblion arni o ran eu gallu i ddarllen ac yn help i rieni ac eraill hefyd farnu cynnydd cyffredinol plant yr ysgol o ran hyfedredd darllen o'u cymharu

¹⁹ Mae bandio'n defnyddio perfformiad ysgolion ar ystod o fesurau i'w grwpio mewn un o bump band – o fand 1, ysgolion sy'n gwneud yn dda, i fand 5, ysgolion y mae angen iddynt wella.

²⁰ Mae gwefan *Fy Ysgol Leol* i'w gweld yn www.mylowalschool.wales.gov.uk

â phlant mewn ysgolion eraill. Yn ogystal â hynny, a chan adlewyrchu egwyddorion system atebolrwydd dda, bydd cyfres o ddeunyddiau profi anstatudol at ddibenion datblygu, i gynorthwyo athrawon i weld beth yw anghenion disgyblion unigol a grwpiau o ddysgwyr. Mae'r prawf rhifedd wedi'i rannu'n ddau bapur: gweithdrefnau rhifol a rhesymu rhifol; a bydd y ddau bapur yn 30 munud o hyd.

Gwelwyd cynnydd hefyd o ran egluro rolau a chadarnhau pwerau ymyrryd awdurdodau lleol a gweinidogion Cymru mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a ddaeth i rym yn ddiweddar, yn cynnig fframwaith clir gan nodi'r rhesymau dros ymyrryd, y broses ymyrryd, ar ba bwynt y ceir ymyrryd ac mae'n manylu ynghylch yr hyn y gellir ei wneud wrth ymyrryd.

Bydd yn rhaid i bob llywodraethwr gael ei hyfforddi i ddefnyddio a dehongli data er mwyn eu cynorthwyo yn eu rôl o ddal ysgolion i gyfrif.

Heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy

Mae rhai o'r heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy o ran atebolrwydd yn berthnasol i sectorau penodol ac mae eraill yn berthnasol i bob ysgol.

Yn y sector cynradd, nid yw'r asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn ddigon trwyadl. Yn 2010, gwelodd Estyn nad oedd asesiad athrawon o waith disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gyson nac yn ddigon cywir yn y gwahanol ysgolion gan ddweud mai asesu yw un o'r meysydd gwaith gwannaf mewn ysgolion (Estyn 2010b). Yn ei adroddiad blynyddol yn 2010/11, disgrifiad Estyn o ddeilliannau diwedd cyfnod allweddol 2 asesiadau athrawon ar iaith oedd eu bod yn rhy hael yn gyffredinol. Gwelais ddiffyg hyder ar raddfa eang yn asesiadau athrawon a threfniadau cysoni – barn a gadarnhawyd yn sgîl casgliadau dros dro arolwg allanol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (Cyngor Ymchwil Addysgol Awstralia (ACER), 2013). Roedd hyn yn dangos mai gwraidd y broblem yw:

diffyg dealltwriaeth ymhlith ysgolion ac athrawon o'r system asesu, o'r canllawiau cysylltiedig ac o ddisgrifyddion lefelau'r cwricwlwm cenedlaethol;

pwysau ar athrawon ac ysgolion i fod yn or-hael eu barn oherwydd bod y canlyniadau'n cael eu defnyddio'n sail ar gyfer cymharu ag ysgolion eraill;

systemau olrhain ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd yn anghydnaws â'i gilydd;

arferion safoni a chysoni mewnol gwan mewn ysgolion cynradd a'r rheini'n gysylltiedig â chysoni allanol aneffeithiol mewn clystyrau.

Bydd cyflwyno'r profion darllen a rhifedd yn cynnig fframwaith cadarnach o lawer ar gyfer defnyddio'r asesiad athrawon. Ond mae hynny'n dal i adael meysydd megis sgiliau ysgrifennu, siarad a gwrando (llafaredd) a gwyddoniaeth lle mae angen asesu cadarn o hyd. Mae angen y newidiadau hyn er mwyn i rieni, awdurdodau lleol, Llywodraeth

Cymru a'r cyhoedd allu cael gwybodaeth ddibynadwy i asesu perfformiad cyffredinol pob plentyn a phob ysgol gynradd.

Yn y sector uwchradd, deuthum a draws dau fater sydd, er eu bod ar wahân, yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae a wnelo'r mater cyntaf â'r system fandio. Roedd rhai arweinwyr ysgolion y cyfarfûm â hwy'n gefnogol iawn i'w dylanwad – hyd yn oed lle'r oedd eu hysgol wedi disgyn i fand is. Roedd arweinwyr eraill yn poeni am fanylion ystadegol graddnodi'r fasedged o fesurau a ddefnyddir. Roedd ASCL Cymru, er enghraifft, yn meddwl bod dibynnu ar ddata blynyddol yn arwain at amrywiadau anfuaddiol a sylweddol o'r naill flwyddyn i'r llall yn safle rhai ysgolion yn y bandiau.

Dadleuai Cyngor Sir Caerfyrddin fod y bandio o bosibl yn tanseilio cynhwysiant drwy sgiwio perfformiad yr ysgolion hyn yr oedd ganddynt nifer mawr o ddisgyblion ag anawsterau dysgu sylweddol neu lle'r oedd uned anghenion arbennig fawr. Dyma ddisgrifiad y cyngor sir o lawer o'r disgyblion hyn: "unable to aspire to level 2 inclusive or metrics such as capped or wider points score". Yn ei dro, roedd hyn yn amharu ar sut yr oedd ysgolion o'r fath yn ymddangos yn yr adroddiadau bandio.

Fel yr esboniwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae bandio'n cael effaith gadarnhaol o ran cymell a chynorthwyo ysgolion uwchradd i wella. Fodd bynnag, hanfod bandio yw rhoi sgôr i ysgolion a'u meincnodi o'u cymharu â'i gilydd. Os mai'r uchelgais yw i ysgolion Cymru berfformio cystal â systemau addysg eraill sy'n perfformio'n dda, yna, yr her fydd ystyried cynnwys meincnod mwy gwrthrychol ochr yn ochr â chymharu ysgolion ag ysgolion eraill yng Nghymru. Mewn geiriau eraill, bydd angen seilio'r bandio yn y tymor hwy ar feini prawf yn ogystal ag ar y norm.

Un o nifer o setiau data a gaiff ysgolion yw'r data sy'n sail i'r system fandio. Y setiau eraill yw set ddata graidd Cymru gyfan a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, data gan Ymddiriedolaeth Teulu Fischer, data ar wahân ynghylch gwerth ychwanegol a'r crynodeb o ddata perfformiad ysgolion uwchradd (y mae'n rhaid ei gynnwys mewn adroddiadau i rieni). At hynny, clywais am enghreifftiau lle bydd awdurdodau lleol hefyd yn anfon allan eu setiau data eu hunain. Mae penaethiaid hefyd yn ei chael hi'n rhwystredig gweld gwahanol ddiffiniadau'n cael eu defnyddio mewn gwahanol setiau data – er enghraifft mae'r ffordd o fandio disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn amrywio o'r naill set ddata i'r llall. Mae rhywfaint o wahaniaethau hefyd yn y ffordd y bydd Estyn a Llywodraeth Cymru yn defnyddio data i ddadansoddi perfformiad ysgolion.

Yn y sector ôl-16, mae'r sefyllfa atebolrwydd yn cael ei drysu'n ddiangen oherwydd bod y trefniadau'n wahanol ar gyfer y chweched dosbarth mewn ysgolion i'r trefniadau ar gyfer colegau AB. Asesir colegau AB ar sail cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant. Mae'r gyfradd llwyddiant yn cyfuno cwblhau a chyrhaeddiad yn un mesur cyffredinol: faint o'r gweithgareddau dysgu a ddechreuwyd a gwblhawyd ac a gyflawnwyd yn llwyddiannus. Mewn ysgolion, asesir llwyddiant neu gyflawniad fel cyfran o'r cohort o fyfyrwyr a gofrestrir i sefyll arholiad – ac ni asesir cyfraddau cwblhau. Canlyniad net hyn yw:

‘Nad ydym yn gallu cymharu cyfraddau llwyddo cyrsiau ôl-16 fel Bagloriaeth Cymru, Safon Uwch a chysiau galwedigaethol yn y chweched dosbarth ac mewn sefydliadau addysg bellach...[ac] nad yw dysgwyr a rhieni'n gallu dewis cyrsiau a manau astudio ar sail gwybodaeth gynhwysfawr.’

Estyn (2013)

Yn ogystal â'r heriau hyn sy'n benodol i sectorau arbennig, mae tair her gyffredinol yn codi yng nghyswllt atebolrwydd:

mae'n rhy hawdd rhagweld y drefn arolygu – ar hyn o bryd arolygir ysgolion ar sail cylch chwe blynedd ac fe roddir rhybudd o 20 diwrnod gwaith ynghylch arolygiad. Mae hyn yn golygu y gall darparwyr rhagweld, gyda chryn dipyn o sicrwydd, pa bryd maent yn debygol o gael arolygiad (Llywodraeth Cymru ac Estyn, 2013)

mae'r systemau ar gyfer ymdrin ag athrawon a phenaethiaid sy'n tanberfformio dro ar ôl tro, fel y'u disgrifiwyd mewn penodau blaenorol, yn feichus i'w rhoi ar waith

nid yw gwahanol randdeiliaid yn y system – penaethiaid, llywodraethwyr, awdurdodau lleol a chonsortia – yn glir ynghylch pwy sy'n atebol am beth. Dywed NAHT Cymru, er gwaethaf ymdrechion nifer o adolygiadau i sefydlu pwy sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau addysg, na lwyddwyd i sicrhau eglurder hyd yn hyn. Roedd hon yn neges a glywais droeon yn ystod fy sgysiau a'm hymweliadau. Er enghraifft, awgrymodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffenn ar Lywodraethu Ysgolion fod diffyg eglurder ynghylch ai diben llywodraethwyr yw bod yn gyfrifol am ymddygiad a safonau'r ysgol ynteu ai eu rôl yw bod yn fwy o gyfaill beirniadol i'r penaethiaid – gan gynnig cefnogaeth a chynghor adeiladol.

Opsiynau ar gyfer diwygio

Nid yw'r opsiynau yr wyf yn eu cynnig ar gyfer gwella atebolrwydd yn golygu newid drwy'r trwch. Yn hytrach, maent yn ceisio adeiladu ar sail y cryfderau sydd yno eisoes, gan geisio mynd i'r afael ar yr un pryd â'r heriau a nodwyd uchod.

Opsiynau ar gyfer gwella atebolrwydd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3

Fel y dadleuwyd ym Mhennod 2, mae dadl gref, os nad diymwad, dros gyflwyno system asesu ac olrhain genedlaethol o Flwyddyn 2 i Flwyddyn 9, system debyg i ddull Incerts. Byddai hyn yn help i ddatblygu cysondeb yn y ffordd y mae athrawon yn defnyddio asesiadau at ddibenion datblygu ac yn cofnodi data am gynnydd pob disgybl o ran cyflawni'r deilliannau a bennir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Byddai'r dull hefyd yn gymorth gyda'r canlynol:

hwyluso dadansoddi fesul dosbarth, fesul grŵp blwyddyn, a fesul grŵp y disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim yn ogystal â galluogi athrawon ac arweinwyr ysgolion i weld yn union ble yr oedd cynnydd yn araf

helpu athrawon i reoli eu llwyth gwaith – rhywbeth sy'n destun pryder cyson i undebau'r athrawon

darparu iaith a geirfa gyffredin i athrawon eu defnyddio wrth drafod cynnydd o dan y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol newydd – a chynnig dilyniant wrth i athrawon symud o un ysgol i'r llall ac wrth i ddisgyblion symud o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3

cynnig tystiolaeth yn sail ar gyfer asesiadau diwedd blwyddyn. O ran darllen a rhifedd, byddai'r wybodaeth hon yn cael ei gosod ochr yn ochr â data'r profion blynyddol. Ar gyfer ysgrifennu, llafaredd (siarad a gwrando) a gwyddoniaeth – meysydd sydd heb eu cynnwys yn y profion diwedd blwyddyn blynyddol – byddai'r system olrhain yn cynhyrchu adroddiad crynhoi ar ddiwedd blwyddyn.

Fodd bynnag, mae bod yn glir ynghylch cynnydd wrth ysgrifennu, siarad a gwrando yr un mor bwysig ag yw bod yn glir ynghylch darllen a rhifedd. Byddwn yn argymhell ar gyfer y meysydd hyn, (ac ar gyfer gwyddoniaeth hefyd o bosibl), yr opsiwn o ddarparu banc o dasgau safonol (nid profion) ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3 y byddai athrawon yn eu defnyddio yn ystod ffenestr dwy neu dair wythnos y cytunir arni tua diwedd y cyfnod allweddol. Byddai'r tasgau'n adlewyrchu'r disgrifyddion a'r deilliannau a ddisgrifir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 a Blwyddyn 9, a dylent (fel y bydd y TGAU Saesneg iaith newydd) hefyd gynnwys tasgau sy'n help i asesu perfformiad a chynnydd o ran sillafu, atalnodi a gramadeg.

Gallai'r brif dasg ysgrifennu fod yn debyg i asesiad rheoledig yn yr ystyr y byddai angen ei chwblhau o fewn amser penodedig a'i hasesu ar sail drafft cyntaf disgybl. Byddai strwythuro tasgau fel hyn yn gymorth i athrawon fynd i'r afael â'r gwendidau sylfaenol a welwyd gan Estyn sef nad oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig. O ran llafaredd, gallai fod yn briodol gosod rhai o'r tasgau ar gyfer grwpiau yn ogystal ag ar gyfer disgyblion unigol.

Byddai gofyn rhoi canllawiau clir i athrawon ynghylch sut mae asesu'r tasgau ysgrifenedig a llafaredd. Byddent yn ffurfio asesiad cyffredinol o hyfedredd disgyblion yn y meysydd hyn ar sail cyfuniad o gynnydd disgyblion fel y'i mesurid drwy'r system olrhain ynghyd â'u perfformiad yn y tasgau. Er y byddai elfen o oddrychedd o hyd ynghlwm wrth y broses asesu, dylai'r cyfuniad o adroddiadau'r asesiad cenedlaethol a'r system olrhain a defnyddio tasgau safonol gynnig sail gadarnach o lawer ar gyfer barnu. Byddai angen atgyfnerthu'r dull hwn drwy fabwysiadu prif argymhellion adroddiad ACER ynghylch cryfhau arferion safoni a chysoni er mwyn sicrhau dulliau cyson rhwng ysgolion. Opsiwn arall fyddai i'r Uned Safonau Ysgolion a Chyflawni oruchwylio'r gwaith o samplu pump y cant o ysgolion drwy'r wlad er mwyn sicrhau safonau cyson y byddai'r system ysgolion drwyddi draw yng Nghymru'n gallu teimlo'n hyderus yn eu cylch.

Opsiyau ar gyfer diwygio ac ymestyn bandio

Cyn esbonio'r opsiynau posibl ar gyfer addasu system fandio'r ysgolion uwchradd ac ystyried a ddylid ymestyn y drefn i'r sector cynradd ac os dylid, sut, fe hoffwn esbonio'r egwyddorion sy'n sail i'm syniadau. Mae'r egwyddorion wedi'u seilio ar gasgliadau'r ymchwil ar ddechrau'r bennod.

Dylai casgliad am berfformiad ysgol ystyried lefel absoliwt cyrhaeddiad disgyblion, ond dylai hefyd adlewyrchu ei chynnydd drwy ei hasesu ynghylch y canlynol:

- y lefel cyflawni a ragfynegydd ar ei chyfer a'r gwerth ychwanegol gwirioneddol – gan roi sylw i gyrraeddiad blaenorol disgyblion a pherfformiad y rhai uchaf ac isaf eu cyrraeddiad
- ei chyd-destun, o'i mesur yn ôl cyfran y myfyrwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim a nifer y myfyrwyr sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig
- ei chynnydd o ran cau'r bylchau rhwng cyrraeddiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn eu cael
- ei pherfformiad o'i chymharu ag ysgolion eraill sydd â chohort tebyg o fyfyrwyr.

Ar gyfer ysgolion bach, gallai'r data ffurfio rhan o gyfartaledd treigl tair neu bedair blynedd.

Dylai'r gwerth cymharol a roddir ar gymwysterau fod yn glir (er enghraifft, o ran cymwysterau galwedigaethol neu'r gwerth penodol a roddir ar y cymwysterau trothwy megis cael gradd C neu well mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg) gan gynnwys hynny mewn ffordd sy'n osgoi gymaint ag y bo modd gymhellion anffodus (megis canolbwyntio gormod ar fyfyrwyr sydd ar y ffin rhwng C a D neu annog myfyrwyr i gasglu nifer mawr o gymwysterau TGAU).

Dylai asesu perfformiad gynnwys cyfraddau presenoldeb, lefelau ymgysylltu â disgyblion a rhieni a'u boddhad (mae'n bosibl asesu'r ddau hyn bellach yn gymharol rwydd drwy ddefnyddio arolygon safonol ar lein) ac, wrth i'r trefniadau graddio ddod i rym, perfformiad ym Magloriaeth Cymru.

Dylai'r un drefn asesu gael ei defnyddio gan bob math o ddarparwr ar gyfer y gr p oedran dan sylw.

Mae defnyddio ystod o fesurau yn anochel yn golygu bod gennych fasedd o fesurau sydd wedi'u pwysoli – ac nid yw hynny'n annhebyg, o ran egwyddor, i'r ffordd y trefnir system fandio'r ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, ffordd arall o raddnodi perfformiad cyffredinol drwy ddefnyddio basged o fesurau yw mabwysiadu cerdyn sgorio cytbwys ar gyfer pob ysgol - a fyddai'n gysylltiedig â gwefan *Fy Ysgol Leol*. Mae Ffigur 5.2 isod yn

disgrifio'n gryno sut mae fframwaith cerdyn sgorio cytbwys yn gweithio mewn ysgolion yn ninas Efrog Newydd.

Ffigur 5.2 – Defnyddio adroddiadau cynnydd ysgolion yn ninas Efrog Newydd

Yn 2007, cyflwynodd adran addysg Efrog Newydd adroddiad cynnydd i werthuso a chyfleu perfformiad a chynnydd holl ysgolion cyhoeddus y ddinas i rieni a'r cyhoedd ehangach. Mae un fersiwn o'r adroddiad cynnydd ar gyfer ysgolion elfennol a chanol ac un arall ar gyfer ysgolion uwchradd. Rhoddir sgôr cyffredinol i bob ysgol ar ffurf llythyren i ddangos ei gradd drwyddi draw: A, B, C, D neu F. Pennir y radd drwy fesur perfformiad yr ysgol mewn pedwar maes:

amgylchedd yr ysgol – yn seiliedig ar bresenoldeb yn yr ysgol (pump y cant o gyfanswm y sgôr) a data arolygon a gynhelir ymhlith myfyrwyr, rhieni ac athrawon (10 y cant)

perfformiad myfyrwyr – wedi'i seilio ar ganran y myfyrwyr sy'n cyrraedd lefelau diffiniedig, naill ai yn arholiadau'r wladwriaeth neu mewn profion a ddefnyddir ar gyfer derbyn myfyrwyr i goleg. Yn y flwyddyn gyntaf, roedd yr elfen hon yn 30 y cant o gyfanswm sgôr ysgol ond fe'i gostyngwyd i 25 y cant mewn blynyddoedd wedyn

cynnydd myfyrwyr – wedi'i seilio ar y cynnydd y bydd myfyrwyr yn ei wneud yn ystod blwyddyn ysgol. Mae'r union fanylion wedi amrywio yn ystod cyfnod rhoi'r adroddiad cynnydd ar waith ond, yn 2010, defnyddiwyd dau ddangosydd wrth asesu: canradd ganolrif y gwerth ychwanegol ar gyfer pob myfyriwr yn yr ysgolion a chanradd ganolrif gwerth ychwanegol y traean isaf o'r myfyrwyr o'i chymharu â'u perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Diffiniwyd gwerth ychwanegol drwy gyfeirio at arholiadau'r wladwriaeth. Mae'r ffactor hwn yn 60 y cant o gyfanswm y sgôr (wedi'i godi o 55 y cant cyn hynny)

credydau ychwanegol – rhoddir marciau ychwanegol i ysgolion os llwyddant i godi lefelau hyfedredd hanner lefel neu fwy i'r myfyrwyr hynny sydd yn y traean perfformiad isaf drwy'r ddinas.

Pwysolir sgôr ysgol ar gyfer y tri ffactor cyntaf er mwyn cyfrif sut mae ysgol yn perfformio o'i chymharu â'r holl ysgolion eraill yn y ddinas ac â gr p o 40 o ysgolion sydd â myfyrwyr tebyg. Yna, ychwanegir y credydau ychwanegol i ddarparu cyfanswm sgôr allan o 100.

Yn y flwyddyn gyntaf, dyrannwyd llythyren i bob ysgol i ddangos ei gradd gyffredinol (A, B, C, D neu F): bydd y 15 y cant sy'n sgorio uchaf yn cael A, y 40 y cant nesaf yn cael B, y 30 y cant nesaf yn cael C, y 10 y cant nesaf yn cael D a'r pump y cant isaf yn cael F. Mewn blynyddoedd wedyn, mae trothwyon y graddau wedi'u codi fymryn er mwyn cymell ysgolion i ymdrechu i wella o hyd.

Nodyn: mae'r disgrifiad hwn yn ymwneud â strwythur yr adroddiadau cynnydd rhwng 2007 a 2010. Ffynhonnell: Childress et al (2011)

Ar gyfer ysgolion cynradd, lle'r ystyrir cyflwyno system fandio, rwyf yn argymhell y dylid ystyried o ddifrif yr opsiwn o gyflwyno cerdyn sgorio cytbwys. Byddai'n cydweddu'n dda â'r pwyslais a roddir ar gynnydd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol – a byddai ar yr un pryd yn cydnabod ffactorau eraill megis presenoldeb ac ymgysylltu â disgyblion a rhieni. Byddai'r cardiau sgorio cytbwys yn cael eu defnyddio gan ysgolion yn sail i'w hunanwerthuso, ar gyfer eu trafodaethau gyda llywodraethwyr a sgysiaid gydag arweinwyr systemau ynghylch yr hyn yr oedd angen iddynt ei wneud i adeiladu ar sail eu cryfderau ac i fynd i'r afael â'u meysydd gwan.

Ar gyfer ysgolion uwchradd, credaf ei bod yn rhy fuan i gyflwyno newidiadau sylfaenol i'r system fandio ar hyn o bryd ac y byddai'n tarfu gormod ar bethau. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru barhau i drafod ac ymgysylltu ag arweinwyr ysgolion ynghylch eu pryderon am fanylion y system fandio gyda'r nod o feithrin mwy o gonsensws ynghylch sut mae'r system yn gweithio a mwy o ymdeimlad o berchnogaeth arni. Ac ystyried y gyfran gymharol uchel a chynyddol o bobl ifanc 16 i 18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (oddeutu 12 y cant²¹) byddai'n ddoeth cynnwys data yn y system fandio ynghylch cyrchfannau myfyrwyr ar ddiwedd Blwyddyn 11.

Byddwn yn cynnig hefyd y dylid symleiddio a chyfuno'r gwahanol setiau data er mwyn i ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol ac Estyn i gyd ddefnyddio'r un setiau ac er mwyn iddynt i gyd weithio arnynt a'u dehongli yn yr un ffordd. Dylai grŵp bychan o ystadegwyr Llywodraeth Cymru, Estyn ac ymarferwyr ysgolion weithio ar y dasg hon ar fryd. Gan fod *Fy Ysgol Leol* wedi'i chreu, ac o ystyried ei rôl, efallai mai dyma'r adeg iawn hefyd i adolygu a dileu'r gofyniad ar i ysgolion uwchradd orfod anfon adroddiad cryno at rieni.

Yn y tymor canolig, bydd angen diwygio system fandio'r ysgolion uwchradd wrth gyflwyno'r TGAU newydd sydd yn yr arfaeth ar gyfer Cymraeg a Saesneg iaith gyntaf a'r ddau TGAU mathemateg newydd a fydd yn cynnwys rhifedd a thechnegau mathemategol. Mae'n bosibl y gellid mesur gwerth ychwanegol a chynnydd disgyblion yn y dyfodol drwy fesur llythrennedd a rhifedd, yn hytrach na thrwy fesur Cymraeg a Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. Wrth i'r adolygiad mwy sylfaenol hwn ddigwydd, dylai fod yn sbardun ar gyfer ystyried yr opsiwn o symud at ddull cerdyn sgorio yn y sector ysgolion uwchradd.

Opsionau ar gyfer diwygio dulliau eraill o fesur perfformiad

Yn ogystal â diwygio'r system fandio, mae dau opsiwn arall ar gyfer gwneud i'r system atebolrwydd weithio mewn ffordd fwy deallus.

Wrth i rôl ffederasiynau a chlystyrau caled dyfu, dylid ystyried adrodd ynghylch perfformiad ffederasiynau ac ymddiriedolaethau ochr yn ochr â pherfformiad ysgolion unigol.

²¹ Gweler <http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/post16education2013/young-people-neet-30-sept-2012/?lang=cy>

Dylid cyflwyno dulliau mesur cyffredin i asesu ac adrodd am berfformiad ar draws y system mewn lleoliadau ôl-16. Dylid asesu pob darparwr (ysgolion, colegau AB a darparwyr yn y gweithle) ar sail cyfraddau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant. At hynny, dylid cynnwys data am gyrchfannau (h.y. cyfran y myfyrwyr sy'n mynd yn eu blaen i addysg uwch, addysg bellach, hyfforddiant neu waith) hefyd mewn fframwaith adrodd safonol. Byddai hyn wedyn yn sail, fel y'i disgrifir isod, ar gyfer Estyn wrth iddo arolygu ac adrodd ar ddarpariaeth ôl-16 ysgolion mewn ffordd a fyddai'n golygu bod modd eu cymharu â darparwyr eraill.

Ystyriais hefyd gynnwys opsiwn a fyddai wedi golygu cynnal profion ymhlith sampl bychan o ddisgyblion yn y blynyddoedd rhwng profion PISA, er mwyn i lunwyr polisïau allu olrhain cynnydd cyffredinol system addysg Cymru. Fodd bynnag, gallai fod yn anodd recriwtio digon o ysgolion a disgyblion i gymryd rhan bob blwyddyn ac fe allai hynny danseilio'r gefnogaeth o blaid cymryd rhan ym mhroses PISA. Felly, nid wyf wedi cynnwys y syniad hwn yn ffurfiol fel opsiwn. Fodd bynnag, petai arweinwyr ysgolion yn teimlo y byddai o fudd a'u bod yn barod i ymrwymo i samplu hyd at bump y cant o ddisgyblion 15 oed bob blwyddyn er mwyn mesur eu cynnydd dros gyfnod, yna, byddai'n werth mynd ar drywydd yr opsiwn hwn.

Opsiynau ar gyfer diwygio system arolygu'r ysgolion

Rwy'n cefnogi'n gryf yr opsiwn a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac Estyn, sef y dylid arolygu ysgolion mewn ffordd fwy cymesur ac anos ei rhagweld. Byddai hyn yn golygu y gallai darparwyr sy'n perfformio'n well gael bylchau hwy na'r cyffredin rhwng eu harolygiadau craidd a byddai hyn yn rhyddhau adnoddau i ysgolion sy'n perfformio'n waeth gael eu harolygu'n gynharach nag y byddent fel arall. Er mwyn sicrhau na fyddai ysgolion sydd wedi bod yn perfformio'n dda yn 'diflannu dros y gorwel', gallai Estyn ddewis defnyddio'r setiau data cyfun y cytunir arnynt ac a gynigiwyd i weld a oedd unrhyw un o'r ysgolion yn llithro neu a oedd eu perfformiad yn gwanhau. Petai rheswm dros boeni yn y cyswllt hwn, byddai Estyn yn ailgynnwys yr ysgol yn ei amserlen arolygu.

Rwyf hefyd o blaid rhoi llai o rybudd i ysgol bod arolygiad ar y gorwel. Ni welaf pam mae angen rhoi mwy na dau neu dri diwrnod gwaith o rybudd - er fy mod yn derbyn y byddai angen newid pethau yn sgîl hyn, oherwydd y rheoliadau presennol ynghylch ymgynghori â rhieni. Fodd bynnag, gellid cynnal ymgynghoriadau fel hyn fwyfwy ar lein. Yr egwyddor bwysig i'w sefydlu yw y dylai arolygiad weld ysgolion a chael profiad ohonynt fel y maent go iawn bob dydd - yn hytrach na gweld sut y byddant yn perfformio (ar ôl cyfnod o baratoi ac ymarfer dygn) am ychydig o ddiwrnodau bob chwe blynedd. Dylai ysgolion fod yn 'barod am arolygiad' drwy'r flwyddyn yn hytrach na mynd i banig ynghylch arolygiad pan gânt wybod bod Estyn yn bwriadu ymweld.

Opsiynau eraill ar gyfer diwygio trefniadau arolygu ysgolion, er mwyn iddynt fod yn gyson ag opsiynau eraill a gynigir yn fy adroddiad, yw:

cynnwys mewn arolygiadau asesiad o ba mor effeithiol y mae ysgol yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion gyda golwg ar y dystiolaeth ynghylch ei chynnydd wrth gau'r bylchau cyrhaeddiad ac i ba raddau y mae'n gwario'r adnoddau ar ymyriadau y gwyddys eu bod yn effeithiol

adolygu'r ffordd y mae'r model arolygu'n gweithio er mwyn sicrhau ei fod yn briodol ar gyfer ysgolion sy'n rhan o ffederasiwn, ymddiriedolaeth neu fath arall o glwstwr caled

darparu asesiad arolygu ar wahân o'r ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion a hwnnw'n gysylltiedig â defnyddio data perfformiad cyffredin, fel y'i disgrifiwyd uchod

cynnal adolygiad sylfaenol o'r meini prawf arolygu ar gyfer awdurdodau lleol i adlewyrchu trosglwyddo swyddogaethau gwella ysgolion i gonsortia rhanbarthol – ym Mhennod 6, trafodir cefndir hyn yn fwy manwl.

Opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â galluogrwydd staff

Ym Mhennod 2, cadarnhawyd rôl athrawon fel gweithwyr proffesiynol, ac ym Mhennod 3 atgyfnerthwyd pwysigrwydd eu rôl arwain yn yr ystafell ddosbarth. Mae fy adroddiad hefyd wedi pwysleisio'n gryf fod angen cynorthwyo athrawon ac arweinwyr ysgolion i ddatblygu. Fodd bynnag, rhaid i'r system ysgolion hefyd allu ymdrin yn deg ac yn ddi-oed â'r addysgwyr hynny y mae eu perfformiad yn gyson is na'r safon. Nid yw'n iawn amddifadu dosbarth o ddisgyblion neu grŵp o bobl ifanc rhag cael addysg o'r ansawdd y maent yn ei haeddu oherwydd bod ganddynt athro gwael neu bennaeth nad yw'n mynd i'r afael â gwendidau mewn ysgol. Nid yw'n deg ychwaith i aelodau eraill y staff nac i enw da'r ysgol gynnal athro neu arweinydd am gyfnod hir os nad yw hwnnw'n gallu cyflawni ei rôl broffesiynol yn ddigonol. Mae tri opsiwn a fyddai'n help i fynd i'r afael â'r pryderon y mae nifer o benaethiaid wedi sôn wrthyf amdanynt yn y cyswllt hwn.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir ynghylch gwerth datblygiadol ac arfer arsylwi yn yr ystafell ddosbarth a chadarnhau rôl penaeithiaid o ran gallu 'picio i mewn' a monitro'r ymarfer mewn ystafell ddosbarth. Ni welaf ddim rheswm o gwbl dros bennu rhyw derfyn artiffisial ar nifer yr arsylwadau ffurfiol y dylid eu cynnal yn ystod blwyddyn. Dylai penaeithiaid ac uwch arweinwyr fod yn rhydd i gymryd y camau sy'n angenrheidiol yn eu barn hwy i sicrhau bod ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob ystafell ddosbarth yn eu hysgol gystal byth ag y gall fod.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi gweithdrefnau a chanllawiau i sicrhau bod penaeithiaid a llywodraethwyr yn gallu mynd i'r afael yn ddi-oed â chwestiwn gallu staff a phenaethiaid sydd wedi cael y cyfle a'r cymorth i wella ond bod eu perfformiad yn dal yn annigonol. Dylai arweinwyr ysgolion (neu, yn achos penaeithiaid, consortia rhanbarthol llywodraethwyr ac awdurdodau lleol) wrth gwrs weithio gyda staff nad yw eu perfformiad yn foddhaol mewn ffordd sy'n eu datblygu er mwyn eu helpu i wella. Os oes rhaid troi at y weithdrefn galluogrwydd, yna dylid bod wedi trio popeth arall yn gyntaf. Fodd bynnag, pan gaiff y weithdrefn ei rhoi ar waith yn ffurfiol, ni

ddylai gymryd mwy na thymor ar y mwyaf i fynd drwy'r gweithdrefnau ffurfiol – gan gynnwys cynnal unrhyw apêl.

Lleoli cynghorwyr adnoddau dynol arbenigol naill ai mewn clystyrau o ysgolion a/neu mewn consortia rhanbarthol er mwyn helpu arweinwyr a llywodraethwyr i gyflawni eu dyletswyddau fel cyflogwyr. Dylai ysgolion allu cael gafael ar gyngor arbenigol cadarn yn ddi-oed a hwnnw'n berthnasol i'r cyd-destun neu i'r mater penodol sydd dan sylw.

Opsiynau ar gyfer gwella sut mae ysgolion yn cael eu llywodraethu

Dylai'r system lywodraethu ddwy haen ar gyfer ffederasiynau a chlystyrau caled a ddisgrifiwyd ym Mhennod 4, dros gyfnod, ddarparu fframwaith llywodraethu ysgolion cryfach o lawer. Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Lywodraethu Ysgolion yn ailafael yn ei waith ar ôl cyhoeddi fy adroddiad. Bydd yn ystyried yn fanwl pa gamau pellach y gellid eu cymryd i gryfhau sut mae ysgolion yn cael eu llywodraethu. Mewn rhai ysgolion, fel y disgrifir yn yr astudiaeth achos yn Ffigur 5.3, mae'r llywodraethu'n gryf eisoës ac mae llywodraethwyr yn deall sut mae dehongli a defnyddio data. Fodd bynnag, nid dyma'r darlun cyffredinol o bell ffordd. Felly, byddwn yn argymhell yr opsiynau a ganlyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen eu hystyried:

monitro effaith y trefniadau newydd ar gyfer hyfforddi llywodraethwyr er mwyn sicrhau bod eu hansawdd yn dda a'u bod yn helpu i sicrhau llywodraethu mwy effeithiol ar lefel ymarferol;

cytuno â'r consortia rhanbarthol ynghylch templed sy'n darlunio beth yw gwasanaeth cymorth effeithiol ar gyfer llywodraethu;

darparu templed safonol ar gyfer adrodd am ddata am berfformiad ysgol i lywodraethwyr. Mae'r wefan *Fy Ysgol Leol* yn rhoi set ddata sy'n cynnig golwg gyffredinol ardderchog i lywodraethwyr ar berfformiad eu hysgol. Ond dylai llywodraethwyr hefyd fod yn cael siartiau data ar fformat hawdd ei ddarllen sy'n crynhoi, bob tymor neu bob hanner tymor, y sefyllfa ar y pryd yn yr ysgol o ran presenoldeb disgyblion, gwahardd disgyblion, absenoldeb staff oherwydd salwch, ansawdd yr addysgu (fel y'i hasesir drwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth), a data ynghylch cynnydd a chyrhaeddiad o'u cymharu â'r targedau ar gyfer pob grŵp oedran;

galluogi cadeiryddion rhagorol byrddau llywodraethu i fod yn Ymarferwyr Arweiniol a chynorthwyo ysgolion eraill i wella'u trefniadau llywodraethu;

gweithio gyda CBI Cymru a chyda chyflogwyr eraill i ddatblygu cofrestr o ddarpar arweinwyr busnes a'r rhai sy'n arweinwyr eisoës, sy'n barod i wasanaethu'n llywodraethwyr ysgolion ym mhob rhanbarth. Byddai cefnogi menter o'r fath nid yn unig yn fodd i gwmni gyflawni ei gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, fe allai hefyd fod yn rhan o raglen datblygu arweinyddiaeth i'w staff.

Ffigur 5.3 – Llywodraethu yn Ysgol Uwchradd Crucywel

Ysgol gyfun i fechgyn a merched 11-19 oed yn ne-ddwyrain Powys yw Ysgol Uwchradd Crucywel ac mae ganddi oddeutu 750 o ddisgyblion. Mae'r corff llywodraethu'n rhoi cefnogaeth effeithiol iawn i'r ysgol am ei fod yn deall yn glir beth yw ei brif rolau a'i gyfrifoldebau ac am ei fod yn canolbwyntio'n gyson ar wella'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn gweithio fel tîm o dan arweiniad abl y cadeirydd a'r is-gadeirydd gyda chymorth cadeiryddion y pwyllgorau. Mae'r cyfathrebu rhwng y corff llywodraethu, y pennaeth a'r tîm arwain yn agored, mae'n digwydd yn aml ac mae'n dryloyw.

Mae'r llywodraethwyr yn deall gweledigaeth yr ysgol yn glir ac yn deall sut mae ei gwireddu. Maent yn gweithio fel partneriaeth strategol i gefnogi'r ysgol wrth iddi fireinio a miniogi'r weledigaeth honno. Byddant yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, nid dim ond i gyfarfodydd ond er mwyn creu cysylltiad ag adrannau a chael cyfarfodydd rheolaidd â'r pennaeth ac ag aelodau'r uwch dîm arwain. Maent yn gyfrwng i ddatrys problemau, i rannu arferion da ac i gyflwyno syniadau newydd i'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn deall yn glir beth yw eu rôl fel cyfaill beirniadol i'r ysgol a'u hatebolrwydd am safonau.

Fel rhan o galendr sicrhau ansawdd Crucywel, bydd grŵp Sicrhau Ansawdd y corff llywodraethu'n mynd drwy'r holl ddata meincnodi'n rheolaidd megis cyfrifiadau bandio ysgolion, setiau data craidd Cymru gyfan, a thargedau D Ymddiriedolaeth Teulu Fischer – er enghraifft pan fydd canlyniadau arholiadau modiwlwr yn cyrraedd. Bydd y rheolwr data'n eu hesbonio i'r llywodraethwyr yn ystod pob cam ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, a bydd y corff llywodraethu yn ei gryswth yn cael cyflwyniadau i sicrhau bod yr aelodau'n deall y data'n llawn. Yna, bydd y llywodraethwyr yn defnyddio data craidd Cymru gyfan a thargedau D Ymddiriedolaeth Teulu Fischer yr ysgol ei hun i herio'r hyn a gyflawnwyd ym mhob cyfnod allweddol ac ym mhob maes pwnc.

Ym mis Medi 2012 arolygwyd Crucywel gan Estyn a'r asesiad oedd 'da' gyda 'rhagolygon da ar gyfer gwella'. Yn ei adroddiad, dywedodd Estyn:

'Mae gan y corff llywodraethu ddealltwriaeth dda o'r heriau sy'n wynebu'r ysgol a'i blaenoriaethau allweddol. Mae'r llywodraethwyr yn wybodus am berfformiad yr ysgol, ac maent yn gwerthfawrogi'n gadarn ei chryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r llywodraethwyr yn cynnig cymorth effeithiol a her adeiladol i'r ysgol, lle bo'n briodol.'

Casgliad: mwy o eglurdeb ynghylch atebolrwydd

Dylai'r opsiynau hyn ar gyfer diwygio atebolrwydd, ynghyd â'r newidiadau eraill yr wyf yn eu cynnig, ddod â mwy o eglurdeb o lawer ynghylch pwy neu ba haen lywodraethu sy'n gyfrifol am beth. Yn y bennod nesaf, byddaf yn trafod yn fwy manwl yr hyn y mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol ill dau'n atebol amdanynt. Fodd bynnag, yn fras, rhagwelaf y dylai system ysgolion Cymru fod yn symud tuag at sefyllfa lle bydd cyfrifoldebau'n cael eu dosbarthu fel y'u dangosir yn Ffigur 5.4.


Ffigur 5.4 – Crynodeb o brif elfennau atebolrwydd y gwahanol haenau sy'n llywodraethu addysg

Penaethiaid	<ul style="list-style-type: none"> • Penodi a rheoli perfformiad staff • Arwain gwella addysgu a dysgu • Drafftio cynllun datblygu'r ysgol, blaenoriaethau/targedau gwella a'u cyflwyno i'r llywodraethwyr • Paratoi'r gyllideb, ei chyflwyno i'r llywodraethwyr ac ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ei gweithredu • Monitro cynnydd yr ysgol, arwain hunanwerthuso ac adrodd i'r llywodraethwyr
Llywodraethwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Penodi pennaeth a rheoli perfformiad y pennaeth • Gwrando apeliadau disgyblu • Cytuno ar gynllun datblygu'r ysgol, adolygu perfformiad a herio • Gosod y gyllideb a monitro gwariant • Adrodd i rieni ac ymgysylltu â hwy, â'r disgyblion ac â'r gymuned leol
Awdurdodau lleol	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau digon o leoedd mewn ysgolion, cydlynu derbyniadau a dyrannu arian • Hybu partneriaethau/ffederasiynau rhwng ysgolion a chomisiynu gwasanaethau gan grwpiau o ysgolion • Rhoi rhybuddion ac ymyrryd (gan gynnwys sefydlu Byrddau Gweithredol dros Dro a chau/ffedereiddio ysgolion) pan fydd Estyn neu gonsortiw rhanbarthol yn dweud bod problemau o ran perfformiad
Consortia Rhanbarthol	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybod am berfformiad pobl ysgol, ei olrhain a'i herio • Brocera cymorth ar gyfer ysgolion sy'n tanberfformio • Comisiynu rhaglenni datblygu a meithrin gallu rhwng ysgolion • Cydlynu darparu rhaglenni hyfforddi cenedlaethol • Adrodd i awdurdodau lleol lle bydd gofyn ymyrryd yn ffurfiol mewn ysgol
Llywodraeth Cymru	<ul style="list-style-type: none"> • Gosod fframwaith atebolrwydd a blaenoriaethau ar gyfer gwella • Cymeradwyo a monitro perfformiad y consortia rhanbarthol • Gweithredu lle na fydd consortia ac ALLau yn cyflawni'u dyletswyddau'n iawn • Comisiynu rhaglenni hyfforddi cenedlaethol

Mae rhai o'r ymatebion wedi dadlau y dylid rhoi mwy o reolaeth dros ysgolion i awdurdodau lleol – o ran penodi penaethiaid a goruchwyllo llywodraethwyr. Ni chredaf mai dyna'r ffordd iawn ymlaen. Mae angen inni ddatblygu'r strwythurau, y systemau a'r cymorth er mwyn i ysgolion (a grwpiau o ysgolion) wybod eu bod yn gyfrifol am eu gwella'u hunain – ac er mwyn iddynt allu cyflawni'r rôl honno'n gyfrifol. Rôl consortia rhanbarthol yw helpu i feithrin y gallu angenrheidiol. Bydd awdurdodau lleol yn cynorthwyo drwy brocera partneriaethau ac ymyrryd pan aiff pethau o'u lle. Bydd angen ychydig o amser i symud i'r byd newydd hwn, ond rwyf yn gwbl sicr bod hwn yn cynnig model mwy cynaliadwy er mwyn adeiladu gwelliannau tymor hir ar gyfer ysgolion.

Mae Ffigur 5.5. yn dangos sut y gallai'r system hon weithio o ran atebolrwydd am y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae athrawon yn asesu, at ddibenion datblygu, drwy adolygu llyfrau disgyblion a chynnig adborth a thrwy ddefnyddio system olrhain ac asesu genedlaethol. Daw'r asesiad crynhoi drwy brofion diwedd blwyddyn, ac, ar gyfer ysgrifennu a llafaredd, cynhelir asesiad gan athro. Mae'r consortia rhanbarthol yn cydlynu'r broses meithrin gallu er mwyn cynorthwyo ysgolion i wella a bydd Estyn yn dadansoddi'r sefyllfa ac yn cynnig adborth wrth arolygu ysgolion. Mae cerdyn adrodd yr ysgol, sy'n gysylltiedig â *Fy Ysgol Leol*, yn rhoi adborth i rieni ac i'r cyhoedd ehangach. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cynnydd drwyddi draw ac yn comisiynu newidiadau o ran cymorth a pholisïau wrth i bethau gael eu rhoi ar waith.

Ffigur 5.5: Crynodeb o elfennau'r atebolrwydd am ddarparu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol



Pennod 6: Opsiynau ar gyfer trefnu swyddogaethau gwella ysgolion

Cyflwyniad

Rwyf o fwriad wedi gadael un mater trafferthus tan y diwedd, sef sut orau mae trefnu swyddogaethau gwella ysgolion. Nid oherwydd mai dyma'r pwnc lleiaf pwysig yr wyf wedi gwneud hyn – mae hynny ymhell o'r gwir – ond oherwydd bod angen i'r ffurf ddilyn y swyddogaeth. Wrth ddweud hynny, yr hyn sydd gennyf mewn golwg yw y dylai rôl a gwaith awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn y dyfodol ddeillio o'r hyn y mae angen ei wneud er mwyn cefnogi'r strategaeth ar gyfer gwella addysgu a dysgu, meithrin partneriaethau rhwng ysgolion a chryfhau arweinyddiaeth ysgolion. Mae angen deall sut mae ysgolion yn debygol o ddatblygu, sut y byddant yn cydweithio a pha gymorth sydd ei angen arnynt, er mwyn inni allu cynllunio a datblygu strwythurau effeithiol a all fod o help iddynt yn eu gwaith yn y dyfodol.

Mae Ffigur 6.1 yn disgrifio nodweddion y systemau addysg hynny sydd wedi llwyddo i weithio gyda'u hysgolion i sicrhau bod deilliannau ysgolion a myfyrwyr yn gwella'n sylweddol. Er bod y cyd-destun yn amrywio, mae rhai nodweddion amlwg i'w gweld yn y ffordd y maent wedi mynd o'i chwmpas hi i drefnu i wella'u hysgolion ac i fynd ar drywydd hynny.

Mae'r trefniadau presennol yng Nghymru'n ddifrifol o anfoddhaol ac yn brin iawn o'r nod o ran dilyn yr arfer dda hon. Y newyddion da yw imi weld cydnabyddiaeth gyffredinol ymhlith pawb fwy neu lai y cyfarfûm â hwy na all bethau barhau fel hyn. Yn y bennod hon, byddaf yn sôn am y camau y mae angen eu cymryd ar frys yn awr er mwyn cydlynu'r cymorth a roddir i ysgolion wella a sicrhau ei fod yn gymorth o ansawdd. At hynny, rhoddaf y camau tymor byr yng nghyd-destun opsiynau mwy pellgyrhaeddol ar gyfer diwygio yn y tymor canolog.

Ffigur 6.1 – Nodweddion trefniadaeth gwella ysgolion mewn awdurdodaethau lle mae ysgolion yn perfformio'n dda

Y ffordd orau o gydlynu gwella ysgolion yw ar lefel ranbarthol, ar lefel dinas neu ar lefel isranbarthol – oherwydd fel hynny, mae modd sicrhau arbedion maint o ran yr arbenigedd a'r adnoddau sydd eu hangen.

Mae angen arweiniad gwleidyddol cadarn i hyrwyddo diwygio a gwella addysg ar sail nifer bach o nodau sydd, er eu bod yn uchelgeisiol, yn rhai y gellir eu cyflawni ac yn rhai sydd ar sylfaen gadarn.

Strategaethau llwyddiannus ar gyfer gwella ysgolion:

ennyn diddordeb ac ennill cefnogaeth arweinwyr ar wahanol lefelau yn y system er mwyn meithrin 'clymblaid i dywys' y diwygio a'r gwella

grymuso arweinwyr gweithredol effeithiol, rhoi corff o arbenigwyr gwella ysgolion o ansawdd da ar waith a defnyddio adnoddau sydd wedi'u neilltuo mewn ffordd effeithiol

codi disgwyliadau myfyrwyr, arweinwyr, athrawon a rhieni a blaenoriaethu gwella pob ysgol a llwyddiant i bob myfyriwr

cyfuno ymyriadau caled (disodli arweinwyr ysgolion, sefydlu byrddau gweithredol dros dro a ffedereiddio ysgolion) ag ymyriadau meddal (coetsio a mentora, rhaglenni hyfforddi a datblygu). Dylid targedu ysgolion sy'n straffaglu â pheccynau gwella sydd wedi'u teilwra'n arbennig

defnyddio fframwaith atebolrwydd sy'n seiliedig ar ddeilliannau, ac yn gefn i hynny, olrhain data a data cymharol er mwyn monitro'r cynnydd drwyddo draw, gwerthuso effaith ymyriadau, gweld pa ysgolion a grwpiau o ddisgyblion sydd â phroblemau penodol a hwyluso'r ffordd i ysgolion ddysgu oddi wrth ei gilydd

meithrin gallu'r system i'w chynorthwyo'i hun. Dylai'r diwygiadau rymuso a datblygu gallu arweinwyr canol ac uwch mewn ysgolion i gynorthwyo'i gilydd, i gydweithio ac i ddysgu oddi wrth ei gilydd ac arwain y gwella

cysoni blaenoriaethau, strategaethau, polisiâu, arweinyddiaeth, datblygu athrawon, diwygiadau strwythurol, atebolrwydd, arolygu ac adnoddau o gwmpas cydweledigaeth. Rhaglenni ac ymyriadau'n atgyfnerthu ei gilydd er mwyn gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu; mae angen i bob un ohonynt dynnu i'r un cyfeiriad

mae angen eu cynnal dros gyfnod a thros fwy nag un cylch etholiadol.

Bydd strategaethau diwygio'n symud drwy wahanol gamau – wrth i'r perfformiad ddechrau gwella, caiff y rheini sydd ar y rheng flaen eu grymuso fwyfwy.

Ffynonellau: Hill (2012); Hutchings et al (2012); Levin (2012); Mourshed et al (2010)

Cynnydd hyd yn hyn

Aseswyd bod pump o'r awdurdodau lleol a arolygwyd gan Estyn o dan y fframwaith arolygu cyffredin yn dda – gan gynnwys rhai a oedd wedi bod yn straffaglu yn y gorffennol. Er enghraifft, ddiwedd 2007, sefydlodd Llywodraeth Cymru Fwrdd Adfer Addysg Annibynnol yn sgîl adroddiadau beirniadol ar wasanaethau addysg ac ieuencid Cyngor Sir Ddinbych. Erbyn mis Mai 2010, barnwyd bod Sir Ddinbych yn gwneud digon o gynnydd i'r bwrdd adfer gael ei ddiddymu. Ym mis Ionawr 2012, asesiad Estyn oedd bod gwasanaethau addysg ac ieuencid y sir yn 'dda' a bod ganddi 'ragolygon da ar gyfer gwella'.

Enghraifft arall o'r math o arweinyddiaeth ym maes addysg y dylai awdurdodau lleol fod yn ei ddarparu yw Cyngor Caerdydd – er bod yr awdurdod yn gwybod bod ganddo gryn ffordd i fynd eto cyn i'w ysgolion a'i wasanaethau berfformio fel y dylent. Ym mis Ionawr 2011 disgrifiad Estyn o berfformiad y cyngor oedd 'digonol'. Ym mis Mai 2012, etholwyd gweinyddiaeth newydd a chanfu mai llai nag 20 y cant o'r disgyblion mewn tair o'i 20 ysgol uwchradd a oedd yn llwyddo i gael pum gradd A*–C gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg. Mewn tair ysgol uwchradd, roedd y gyfran yn is na 30 y cant ac, mewn pedair arall, roedd y ffigur yn is na 40 y cant.

Wrth drafod gydag ysgolion, mae cyngor y ddinas wedi bod yn defnyddio ffederasiynau a Phartneriaeth Gwella Addysg er mwyn manteisio i'r eithaf ar arbenigedd ei ysgolion gorau a darparu cymorth cryfach rhwng ysgolion. Yn ogystal â rhoi newidiadau strwythurol ar waith – a oedd hefyd yn cynnwys cau ysgolion a dileu lleoedd gwag – mae'r cyngor wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n rhestru holl fandiau a graddau consortiwm pob ysgol yn y ddinas. Mae penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr pob ysgol sydd wedi'i gosod yn un o gategoriâu Estyn, ym mand 4 a 5 (ynghyd ag ysgolion sydd wedi llithro band neu ddau) ac yn y ddwy radd consortiwm isaf, wedi cael eu gwahodd fesul ysgol am gyfarfod â'r aelod cabinet dros addysg ac uwch swyddogion addysg. Yn y cyfarfodydd hyn, trafodwyd y materion y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn i'r ysgolion wella.

Mae cynnydd wedi'i wneud hefyd o ran sefydlu consortia rhanbarthol, fel y'i disgrifir yn Ffigur 6.2. Gwelwyd mai manteision posibl symud at weithio drwy gonsortia oedd:

gwell gwerth am arian drwy arbedion maint ac effeithlonrwydd, gan ei gwneud yn bosibl datganoli arian yn haws i ysgolion

mwy o gyfleoedd i rannu arferion da rhwng awdurdodau lleol a chwalu'r arfer o weithio ynysig

galluogi'r arweinwyr addysg gorau i ddylanwadu ar ysgolion a'u cynorthwyo ar draws ardal ddaearyddol ehangach

hwyluso'r ffordd i ysgolion gynorthwyo ysgolion eraill i wella.

Ffigur 6.2: Cefndir sefydlu a gweithredu'r consortia addysg rhanbarthol

Ym mis Chwefror 2011, rhestrodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau 20 o flaenoriaethau ar gyfer trawsnewid safonau cyflawni yn gyflym yng Nghymru, gan ymateb i'r gwaethygu cymharol o ran perfformiad yn asesiadau rhyngwladol PISA. Un o'r blaenoriaethau a nodwyd ganddo oedd arwain a rheoli strwythurol ar addysg yng Nghymru a dyma ran o'r cyfarwyddyd a roddodd i awdurdodau lleol:


'Byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol gymryd rhan yn nhrefniadau consortia, gan gynnwys gwasanaethau consortiwm a rennir, neu gael eu cosbi'n ariannol, gan gynnwys colli nawdd o Gronfeydd Ysgolion Gwell. Bydd y consortia yn

dynodi arweinwyr system i gefnogi a herio Cymunedau Dysgu Proffesiynol, gyda ffocws ar lythrennedd a rhifedd.'

Mae Addysgu'n Gwneud Gwahaniaeth 2 Chwefror 2011

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi'u trefnu'u hunain yn bedwar consortiwm, fel y'u dangosir yn Ffigur 6.2a. Seilir y grwpiau hyn yn rhannol ar gydweithio blaenorol rhwng awdurdodau. Er bod hyn yn ddealladwy, mae'n golygu bod gan ddau o'r pedwar consortiwm ffiniau nad ydynt yn cydweddu â'r hyn a elwir yn 'ôl-troed gwasanaethau cyhoeddus' – h.y. sut y trefnir gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

Ffigur 6.2a – Map o'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn ôl consortia addysg rhanbarthol



Mae Consortiwm Canol De Cymru a Chonsortiwm y De-ddwyrain yn ardaloedd daearyddol gryno ond mae'r ddau consortiwm arall yn gwasanaethu ysgolion sydd wedi'u gwasgaru dros ardal fwy o lawer. O ganlyniad, mae Consortiwm Gogledd Cymru a Chonsortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru wedi mabwysiadu model gweithredu both a breichiau. Mae'r consortia wedi mynd ati mewn gwahanol ffyrdd i drefnu cwmpas eu gwasanaethau ac i benderfynu i ba raddau y mae gwasanaethau'r awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn eu cylch gwaith. Mae rhai wedi canolbwyntio ar ddealltwriaeth gul o wella ysgolion ac eraill wedi cynnwys ystod ehangach o lawer o swyddogaethau, fel y dengys Ffigur 6.2b.

Ffigur 6.2b – Ystod y swyddogaethau a ysgwyddir gan gonsortia rhanbarthol

	Gogledd Cymru	De-orllewin a Chanolbarth Cymru	Canol De Cymru	De-ddwyrain Cymru
Rheoli Strategol	✓	✓	✓	✓
Dadansoddi Data	✓	✓	✓	✓
Swyddfa gefn a gweinyddiaeth	✓	✓	✓	✓
Effeithiolrwydd ysgolion*	✓	✓	✓	✓
Llythrennedd a rhifedd	✗	✓	✓	✓
Pynciau arbenigol eraill	✗	✗	✗	✓
TGCh ar gyfer dysgu	✓	✗	✓	✓
Cymorth ar gyfer 14-19	✗	✗	✗	✓
Cymorth ar gyfer blynyddoedd cynnar	✗	✗	✗	✓
Cymorth i lywodraethwyr	✗	✗	✓	✓
Cymorth adnoddau dynol i ysgolion	✓	✗	✓	✓
CYSAG	✗	✗	✓	✓
Monitro hyfforddiant ANG	✗	✗	✓	✗

* Mae effeithiolrwydd ysgolion yn cynnwys gwasanaethau craidd ar gyfer monitro a herio ysgolion, ymyrryd ar lefel ysgol gyfan, rolau arweinwyr systemau, arweinyddiaeth a chymorth ar gyfer hunanwerthuso, rheoli perfformiad penaethiaid, a chymorth i gau'r bwlch cyflawni.

Mae ffurf trefniadaeth a llywodraethu'r consortia'n amrywio hefyd gan adlewyrchu eu gwahanol gyd-destunau a'r gwahaniaeth o ran ystod eu rolau. Yng Ngogledd Cymru ac Ardal Canol De Cymru, mae swyddogaethau a staff y consortia'n cael eu dirprwyo gan bob awdurdod lleol i gydbwyllgor gyda'r aelodau'n dod o bob awdurdod lleol. Yn y De-orllewin a'r Canolbarth, mae'r gwaith effeithiolrwydd ysgolion yn rhan o strategaeth gwella ysgolion ranbarthol ehangach sy'n cael ei goruchwyllo gan fwrdd partneriaeth o dan gadeiryddiaeth arweinydd cyngor ac sy'n cael ei noddi gan brif weithredwr. Yn y De-ddwyrain, mae cwmni wedi'i ffurfio, Gwasanaethau Cyflawni Addysg, i ymgymryd â rôl y consortiwm ac mae hwnnw'n cael ei gontractio a'i noddi gan yr awdurdodau lleol i ymgymryd â meysydd gwaith y cytunir arnynt.

Ar hyn o bryd, daw'r arian ar gyfer y consortia o'r ffynonellau hyn:

arian gwella ysgolion a drosglwyddir o'r awdurdodau lleol

rhai o elfennau'r grantiau penodol sydd heb eu dirprwyo, neu'r elfennau hynny i gyd (megis y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Cymraeg mewn Addysg) a

ddyrennir gan Lywodraeth Cymru

incwm yn sgîl darparu gwasanaethau gwella ysgolion y codir tâl amdanynt neu sy'n cael eu cyfnewid (megis cyrsiau a rhaglenni yn yr ysgol).

Mae'r consortia, yn fras, yn ysgwyddo dwy brif rôl:

cyflogi arweinwyr systemau sydd, drwy drafod gydag ysgol ac ar sail set ddata y cytunir arnynt, yn dadansoddi ac yn herio perfformiad ysgol ac yn brocera ymyriadau wedi'u teilwra i'w chynorthwyo i gyflawni

meithrin gallu ysgol i wella drwy gomisiynu neu ddarparu rhaglenni datblygu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth, cydlynu cymorth ar gyfer y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a brocera cymorth rhwng ysgolion.

Yn fras, gellir dweud mai model pwysu a chynorthwyo ydyw.

Mae gan bob un o'r consortia system bedair lefel i gategoreiddio'i ysgolion ac maent yn darparu cymorth gwahaniaethol ar sail hynny, yn ôl lefel eu perfformiad. Mae casgliadau'r consortia ynghylch faint o gymorth sydd ei angen ar ysgolion yn amrywio, fel y dengys Ffigur 6.2c.

Ffigur 6.2c – Ystod y cymorth gwahaniaethol a ddarperir gan y consortia rhanbarthol

	I bob ysgol – y cynnig cyffredinol	Cymorth ychwanegol wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion	Ymyrraeth ddwys ar gyfer ysgolion
Gogledd Cymru	6 diwrnod y flwyddyn	6 - 16 diwrnod y flwyddyn	32 diwrnod y flwyddyn
De-orllewin a Chanolbarth Cymru	3 diwrnod y flwyddyn	12.5 diwrnod y flwyddyn	17.5 diwrnod y flwyddyn
Canol De Cymru	3.5 - 5 diwrnod y flwyddyn	5 - 8 diwrnod y flwyddyn	15 diwrnod y flwyddyn
De-ddwyrain Cymru	5 diwrnod y flwyddyn	10 diwrnod y flwyddyn	20 - 40 diwrnod y flwyddyn

Ffynhonnell: Partneriaeth Isos Haf 2012, gyda deunydd ychwanegol

Ym mis Rhagfyr 2012, cynhaliwyd adolygiad cychwynnol gan bartneriaeth Isos ar ran Llywodraeth Cymru i weld pa gynnydd yr oedd y consortia'n ei wneud. Casgliad yr adolygiad oedd, er ei bod hi'n fuan eto, bod arwyddion calonogol o gynnydd ac awgrym y gallai'r trefniadau newydd ddwyn ffrwyth. Gwelwyd bod gan bob consortiwm o leiaf un cryfder y gallai'r lleill ddysgu yn ei sgîl.

Gan Gonsortiw m Canol De Cymru yr oedd y swyddogaethau gorau ar waith i gomisiynu cymorth drwy ei Rwydwaith Dysgu Arloesol i Ysgolion (LINKS)

Gan Gonsortiw m y De-ddwyrain yr oedd y swyddogaeth orau ar waith ar gyfer ymweliadau gan yr 'arweinydd systemau' yn ystod tymor yr hydref

Gan Gonsortiw m y De-orllewin a'r Canolbarth yr oedd y system rheoli perfformiad fwyaf effeithiol i ysgolion

Consortiw m y Gogledd oedd yn gweithredu'r system rheoli gwybodaeth ranbarthol integredig fwyaf uchelgeisiol.

Heriau y mae angen mynd i'r afael â hwy

Mae tair her ddifrifol y mae angen mynd i'r afael â hwy ar frys – perfformiad gwael awdurdodau lleol, yr amrywiadau yn y ffordd y mae'r consortia rhanbarthol yn gweithredu a'r dryswch rhwng rolau ac elfennau atebolrwydd y ddwy set o gyrff.

Gormod o awdurdodau lleol sy'n perfformio'n wael

Mae'r sefyllfa gyda golwg ar awdurdodau lleol wedi'i thrafod yn helaeth. Ddiwedd mis Mawrth 2013, roedd perfformiad bron i dri chwarter yr awdurdodau lleol a arolygwyd o dan fframwaith arolygu cyffredin Estyn naill ai ar y ffin neu'n annerbyniol. Yn ogystal â'r pum awdurdod yr aseswyd eu bod yn dda:

barnwyd bod chwech yn 'ddigonol' (gyda phedwar awdurdod yn cael eu monitro gan Estyn)

roedd saith wedi'u hasesu'n 'anfoddfaol' (gyda chwech awdurdod o dan fesurau arbennig ac un lle'r oedd angen gwella sylweddol).

Mae ansawdd y cymorth a roddir er mwyn gwella ysgolion yn destun pryder penodol. O'r wyth awdurdod a arolygwyd yn 2011/12, nid oedd y trefniadau gwella ysgolion ond yn dda neu'n well mewn dau, roedd yn ddigonol mewn pedwar ac yn anfoddfaol mewn un.

Mae nifer o strategaethau wedi'u mabwysiadu er mwyn rhoi cymorth i awdurdodau sy'n wan ac yn methu trawsnewid y sefyllfa - gan gynnwys defnyddio byrddau adfer a phenodi comisiynwyr. Fodd bynnag, araf fu'r cynnydd o ran gwella perfformiad awdurdodau lleol. Er enghraifft, arolygwyd Cyngor Sir Penfro ym mis Mehefin 2011 a gwelwyd bod ei berfformiad yn 'anfoddfaol' gyda 'rhagolygon anfoddfaol ar gyfer gwella'. Ailarolygwyd yr awdurdod yn hydref 2012 a gwelwyd ei fod yn 'anfoddfaol' o hyd ar y ddau gyfrif ac fe'i rhoddwyd o dan fesurau arbennig gan Estyn. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen wedi dilyn yr un patrwm ac mae tri o'r pedwar awdurdod lleol yng nghonsortiw m De-ddwyrain Cymru o dan fesurau arbennig erbyn hyn.

Nid yw dyfarniadau Estyn wedi'u seilio ar berfformiad awdurdod yng nghyswllt gwella ysgolion yn unig. Fodd bynnag, nid yw sylwadau fel hyn yn anghyffredin mewn adroddiadau arolygu:

‘Nid yw trefniadau’r awdurdod ar gyfer cefnogi a herio ysgolion yn ddigon trylwyr, ac nid ydynt wedi cael digon o effaith ar wella deilliannau.’
Adroddiad arolygu Estyn ar Gyngor Sir Penfro, Hydref 2012

‘Mae’r gwasanaeth gwella ysgolion yn annigonol.’
Adroddiad arolygu Estyn ar Gyngor Sir Ynys Môn, Mai 2012

‘Mae’r cymorth ar gyfer gwella ysgolion ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn anfodddhaol.’
Adroddiad arolygu Estyn ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Mai 2011

Un ffactor o bwys sy'n cyfrannu at hyn yw bod cynifer o awdurdodau lleol bychain. Bydd awdurdodau lleol nad ydynt ond yn gyffredinol gyfrifol am ryw bedair, chwech neu wyth ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo bob amser yn ei chael hi'n anodd denu staff o safon ddigon da a darparu digon o adnoddau i arwain y broses gwella ysgolion mewn ffordd strategol. Unwaith eto, mae Estyn wedi disgrifio mewn ffordd effeithiol y problemau sy'n codi o'r strwythur tameidiog presennol:

‘Oherwydd eu maint, nid yw awdurdodau bach yn gallu elwa o arbedion maint. Mae ganddyn nhw lai o swyddogion i gyflawni’r holl wahanol ddyletswyddau mae angen iddyn nhw eu cyflawni. Mae diffyg arbenigedd yn cyfyngu ar y cyngor a’r cymorth y gallant ei gynnig. Mae hyn yn golygu y bydd swyddogion yn tueddu i ddelio ar lefel fwy cyffredinol ac arwynebol â’r holl wahanol ofynion sy'n dod i’w rhan. Ond gall yr awdurdodau mwy wneud arbedion maint sy'n caniatáu arbenigedd mwy manwl, mae rolau’n gallu bod yn fwy pendant, ac mae'r cyngor a'r cymorth sydd ar gael i'r ysgolion yn fwy arbenigol.’
Estyn (2013)

Nid dim ond Estyn sy'n dadansoddi'r sefyllfa fel hyn. Yn ei hymateb hithau, dywed Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru:

‘Nid yw’r model 22 awdurdod lleol presennol yn gynaliadwy. Mae llawer o awdurdodau lleol yn rhy fach i ddarparu ystod ac ansawdd y gwasanaethau sydd eu hangen ar system addysg fodern, mae eraill wedi gwanhau’r ddarpariaeth i’r fath raddau nes bod ysgolion yn teimlo rhwystredigaeth.’

Mae Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL) Cymru hefyd yn dweud:

‘Ers meitin, mae ATL wedi bod yn dadlau bod strwythur presennol gwasanaethau addysg, yn seiliedig i raddau helaeth ar 22 awdurdod lleol, yn wastraffus, aneffeithiol ac anghynaliadwy. Mae’r pwysau presennol ar y gyllideb wedi cryfhau’r safbwynt hwn.’

Wrth grynhoi'r dystiolaeth ymchwil ar ddechrau'r bennod hon, awgrymwyd mai'r ffordd orau o gydlynw a llywio'r broses gwella ysgolion yw ar lefel isranbarthol. Mae problem y nifer o awdurdodau lleol bychain sydd yng Nghymru wedi cael ei dwysáu wrth i awdurdodau lleol fod yn gyndyn o ystyried cyd-benodi cyfarwyddwyr gwasanaethau addysg a/neu uno gwasanaethau – er i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau bwysu arnynt i ystyried yr opsiwn hwn. Canlyniad hyn yw gorbenion uchel, darnio arbenigedd a gormod o wasanaethau aneffeithiol. Nid yw'r darlun yn debygol o newid ychwaith: wrth greu consortia rhanbarthol, mae gan awdurdodau lleol lai o arbenigedd gwella ysgolion i gyflawni'r swyddogaethau sy'n weddill – gan gynnwys rheoli ymyriadau. At hynny, bydd pwysau i gwtogi eto ar wasanaethau addysg canolog wrth i'r gyllideb a ddirprwyir i ysgolion gynyddu a'r cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus barhau. Mae CLILC ei hun wedi cydnabod bod y system yn tanberfformio a bod hynny'n annerbyniol ac yn anghynaliadwy.

Mae dimensiwn arall a dyfnach eto i'r her sy'n wynebu awdurdodau lleol. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn deall beth yw eu rôl ym maes addysg erbyn hyn. Mae rhai yn derbyn bod y cyfan y tu hwnt iddynt. Ymateb eraill i broblem perfformiad ysgolion yw mynnu mwy o bwrdd dros ysgolion, llywodraethwyr a phenodi penaethiaid. Ar wahân i'r ffaith y byddai'n rhyfedd iawn rhoi mwy o reolaeth i sector sy'n straffaglu, nid yw'n ffordd gynaliadwy o wella ysgolion. A hwythau'n gyrff sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd, mae rôl bwysig i awdurdodau lleol ym maes addysg, ond, fel y dadleuir yn ddiweddarach yn y bennod hon, nid micro-reoli sut mae ysgolion yn gweithio yw'r rôl honno.

Perfformiad amrywiol o ran datblygu'r consortia rhanbarthol

Mae nifer o'r ymatebion yn dweud, fel y dywed Llywodraethwyr Cymru, bod angen amser ar y consortia rhanbarthol i setlo a chael eu traed danynt. Ar un lefel, mae hynny'n deg, ond, a chofio bod angen gweithredu ar frys, nid oes modd esgusodi arafwch rhai consortia wrth wneud rhai o'u prif benodiadau gweithredol. Mae'n wir hefyd bod newidiadau a datblygiadau o hyd yn y ffordd y mae'r consortia'n gweithio. Fodd bynnag, hyd yn oed a derbyn bod gwaith y consortia'n waith anorffenedig, mae nifer o faterion sylfaenol y mae angen rhoi sylw iddynt – er bod rhai consortia'n achosi llawer mwy o bryder nag eraill.

Yn gyntaf, nid yw'r trefniadau ar gyfer arweinwyr systemau'n gweithio'n iawn. Y rheswm dros hyn, yn rhannol, yw bod y bobl anghywir wedi'u recriwtio i'r swyddi hyn. Mae angen set sgiliau arbennig er mwyn gallu dadansoddi cryfderau a gwendidau ysgol a gweithio gydag arweinwyr yr ysgol honno i gytuno ar gynllun datblygu cadarn. Mae'r sgiliau hynny'n seiliedig ar brofiad o arwain ysgolion a sicrhau eu bod yn gwella neu'n cael eu trawsnewid. Mewn ambell gonsortium, mae'r arweinwyr systemau wedi'u trosglwyddo o wasanaethau gwella ysgolion blaenorol yr awdurdod lleol. Efallai fod gan rai o'r unigolion hyn arbenigedd mewn pynciau penodol ond nid ydynt o reidrwydd wedi'u harfogi i arwain y gwaith o wella ysgolion. Fel y dywed Estyn, mae'r cynnydd

wedi bod yn anwastad o ran canfod, hyfforddi a defnyddio arweinwyr systemau (Estyn, 2013).

Sylweddolodd consortiwm y De-ddwyrain fod angen recriwtio ymgeiswyr o safon uchel i'w swyddi arwain systemau ac roedd yn barod i fynd y tu allan i Gymru er mwyn dod o hyd iddynt. At hynny, mae nifer o'r consortia wedi sylweddoli bod ansawdd yr arweinwyr systemau'n bwysig ac maent yn awr yn ceisio recriwtio a hyfforddi rhai o benaethiaid gorau eu rhanbarthau i chwarae rôl arweinwyr systemau ar sail ran-amser neu o dan contract. Mae'r arbenigwyr gorau ym maes gwella ysgolion yn wir yn helpu ysgolion i gamu ymlaen ond mae'r rheini sydd heb y sgiliau priodol yn llyncu adnoddau heb ychwanegu gwerth – mae'n bosibl eu bod hyd yn oed yn gwneud niwed drwy fod yn angor llusg biwrocraidd sy'n llesteirio gwella.

Mae dryswch hefyd ynghylch rôl yr arweinydd systemau. Yn benodol, nid oes eglurdeb ynghylch i ba raddau, pan welir beth yw anghenion datblygu ysgol, y dylai arweinydd systemau frocera cymorth neu ymwneud yn ddwysach â'r ysgol er mwyn ceisio gwella pethau.

Ymwelais ag ysgolion hefyd lle nad oedd ymweliadau rheolaidd i'w gwella yn digwydd eto, er bod y consortia bellach yn eu hail dymor. Dylid nodi, fodd bynnag, bod rhai ysgolion wedi canmol y cysylltiad cadarnhaol a fu rhyngddynt a'u harweinydd systemau, gan ddweud iddo fod yn brofiad gwerthfawr.

Credaf hefyd fod model busnes y consortia'n amhriodol. Mae cyfran rhy fawr o'r gyllideb, mewn dau gonsortiwm o leiaf, yn cael ei wario ar gyflogi ac ariannu arweinwyr systemau. Mewn un consortiwm, mae cyflogi arweinwyr systemau a'r gorbenion cysylltiedig yn llyncu oddeutu 90 y cant o'r gyllideb ac mewn un arall mae'n llyncu 85 y cant. Mae hynny'n gadael cyfran lawer rhy fach o arian ar ôl i gomisiynu rhaglenni gwella ysgol gyfan a datblygu trefniadau cymorth rhwng ysgolion, gweithgareddau a fydd mewn gwirionedd yn helpu i drawsnewid ysgolion a meithrin gallu'r system. Yn gryno, mae'r model gwella ysgolion yn anghytbwys: mae gormod o bwyslais ar herio a dim digon ar ddarparu cymorth. Mae'r model hefyd yn tybio bod gan arweinwyr systemau'r arbenigedd priodol i fynd i'r afael â phroblemau penodol ysgol.

Mae dod yn gyflogwr i nifer sylweddol o staff hefyd wedi tynnu sylw'r consortia o safbwynt arall. Mae NAHT Cymru yn sylweddoli bod llawer o gyfarfodydd wedi'u cynnal gan y consortia rhanbarthol gydag ysgolion i drafod datblygu model gwella newydd, ond bod llawer o'r egni cychwynnol, a hynny'n ddealladwy efallai, wedi'i ddefnyddio'n datrys materion staffio. Yn sgîl hynny, collwyd y cyfle i gytuno ar ffurf cyfrwng strategol i gynorthwyo ysgolion i godi safonau, ac fe ddywed NAHT Cymru fod y profiadau negyddol, ar hyn o bryd, yn gwrthbwysu'r ymatebion cadarnhaol o ran y gwerth ychwanegol y mae'r consortia'n ei ddarparu. Wrth i Isos adolygu'r consortia, cadarnhawyd y farn hon, gan nodi bod dau gonsortiwm heb roi'r dolenni adborth ar waith er mwyn gwrandao ar ysgolion ynghylch ansawdd y gweithredu.

Materion eraill a oedd yn destun pryder difrifol oedd:

dim cyd-ddealltwriaeth o gwmpas y gweithgarwch y dylai'r consortia rhanbarthol fod yn ymwneud ag ef – fel y disgrifiwyd uchod yn Ffigur 6.2b

strwythurau trefniadaethol gwan mewn rhai consortia'n golygu bod diffyg gallu i gyflawni'r prif swyddogaethau. Mae hyn yn cynnwys diffyg arweinyddiaeth weithredol, gallu canolog a rheolaeth perfformiad cyffredinol yn y consortia hynny sy'n defnyddio 'bothau' i ddarparu eu gwasanaeth gwella ysgolion

anghysonderau yn y ffordd y mae'r pedwar consortiwm yn pennu pedair lefel y categorïau perfformiad mewn ysgolion yn eu hardal, sy'n golygu nad oes geirfa gyffredin yn cael ei defnyddio drwy Gymru


diffyg ymdeimlad o frys a diffyg gweithredu gyda golwg ar yr ysgolion y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Ymwelais ag un ysgol yr oedd angen iddi wella'n sylweddol ym marn Estyn. Roedd pennaeth newydd yn yr ysgol hefyd a honno oedd ei swydd gyntaf fel pennaeth. O dan yr amgylchiadau hynny, byddai rhywun wedi disgwyl y byddai'r consortiwm yn brocera cymorth sylweddol i'r pennaeth ac i'r ysgol – ond prin bod dim cymorth yn cael ei ddarparu, ac eithrio cymorth anffurfiol gan ysgol arall gerllaw. Mae gan y consortia i gyd nifer sylweddol o ysgolion lle mae gofyn darparu lefelau sylweddol o gymorth. Dengys Ffigur 6.3 nifer yr ysgolion uwchradd ym mandiau 4 a 5 ym mhob consortiwm ym mis Mawrth 2013. Mae Ffigur 6.4 yn crynhoi deilliannau'r arolygiadau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2010 (pan ddaeth fframwaith arolygu cyffredin Estyn i rym) a mis Mawrth 2013. Mae'r ffigur yn dangos, er enghraifft, er bod gan Dde-ddwyrain Cymru lai o ysgolion cynradd, o safbwynt cyfran, lle mae'r perfformiad a'r rhagolygon yn anfoddhaol ac yn annigonol, fod yno fwy o ysgolion uwchradd, o safbwynt cyfran, yn y categorïau hyn.

Ffigur 6.3 – Nifer yr ysgolion ym mandiau 4 a 5, yn ôl consortiwm rhanbarthol

Consortiwm	Nifer yr ysgolion ym mand 4	Nifer yr ysgolion ym mand 5	Cyfanswm
Canol De Cymru	20	9	29
De-ddwyrain Cymru	14	7	21
De-orllewin a Chanolbarth Cymru	11	6	17
Gogledd Cymru	15	2	17

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ffigur 6.4 – Cyfran deilliannau arolygiadau rhwng mis Medi 2010 a mis Mawrth 2013 lle'r oedd y perfformiad a'r rhagolygon naill ai'n 'anfoddhaol' neu'n 'annigonol', yn ôl consortiwm rhanbarthol



Nodyn: Nifer yr arolygiadau cynradd = 579 a nifer yr arolygiadau uwchradd = 92
Ffynhonnell: Estyn

diffyg strategaeth gydlynol a chadwyn gyflenwi (wedi'i hintegreiddio â CfBT) ym mhob consortiwm ar wahân i un ar gyfer lledaenu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol

dim digon o ganolbwyntio ar roi ymyriadau sydd wedi'u profi ar waith megis rhaglenni coetsio cydnabyddedig i wella addysgu a dysgu, megis y rhaglen Athrawon sy'n Gwella a'r rhaglen Athrawon Rhagorol.

Dryswch ynghylch cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol a chyfrifoldebau'r consortia rhanbarthol

Mae nifer o agweddau i'r broblem hon. Mewn ambell ran o Gymru, mae'r awdurdodau a'r consortia'n dyblygu'r hyn y mae'r llall yn ei wneud. Oherwydd bod y dull o arwain systemau wedi bod yn araf yn cychwyn, mae rhai awdurdodau wedi penderfynu cadw'u staff gwella ysgolion eu hunain i ymweld ag ysgolion a goruchwylio'r gwella. Eu dadl hwy yw, oherwydd y bydd Estyn yn eu dal yn atebol am berfformiad yr ysgolion yn eu hawdurdod, nad ydynt am ei gadael hi i gorff arall sicrhau cynnydd. Deuthum ar draws enghraifft hefyd o awdurdod yn trefnu ei gyrsiau gwella ysgolion a'i ymyriadau ei hun oherwydd nad oedd yn meddwl llawer o'r hyn yr oedd y consortia'n ei ddarparu.

Mae hyn yn hurt – yn anad dim oherwydd mai awdurdodau lleol sydd wedi bod yn comisiynu gweithgarwch y consortia hyd yn awr! Felly, os yw'r consortia'n wan, nid oes neb i'w feio am hynny ond yr awdurdodau lleol eu hunain. Ond, yn hytrach na mynd i'r afael â'r broblem hon, mae nifer cynyddol o gyfarwyddwyr addysg mewn gwirionedd yn ceisio ailadeiladu gwasanaeth gwella ysgolion ar raddfa lai o fewn eu hawdurdod, ochr yn ochr â swyddogaeth a chynnig y consortiwm. Weithiau, gelwir y rhain yn wasanaethau gwella 'cartref'. Mae un consortiwm hyd yn oed wedi mynd cyn belled â chynnwys yn ei drefniadau ddarpariaeth i awdurdodau gyflogi eu staff gwella ysgolion eu hunain ar ben y model rhanbarthol. Nid yn unig y mae hyn yn gostus, ond mae hefyd yn ychwanegu haen arall at y system ac yn arwain at ddryswch mewn ysgolion ynghylch pwy y dylent fod yn cysylltu â hwy am beth.

Mae'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn niwlog braidd hefyd rhwng yr awdurdodau lleol a'r consortia o ran beth sy'n digwydd pan fydd angen ymyrraeth ar ysgol yn ogystal â chymorth. Mae'r cwestiwn ynghylch pwy sy'n sbarduno camau o'r fath a phwy sy'n gyfrifol am beth wedi'i gymhlethu fwyfwy am fod dau grŵp yn ymwneud â'r broses: y consortia rhanbarthol yn ogystal â'r awdurdodau lleol. Nid yw ysgolion yn deall y system.

O dan wyneb y problemau hyn, mae rhywbeth mwy sylfaenol. Daeth hi'n amlwg o'r amrywiol drafodaethau a gefais gydag arweinwyr y consortia, cyfarwyddwyr addysg ac arweinwyr y cynghorau fod awdurdodau lleol yn gweld y consortia yn gorff 'a oedd yn perthyn iddynt hwy'. Roedd y consortiwm yno i wneud yr hyn y byddai'r awdurdodau lleol yn ei gomisiynu i'w wneud. Roedd hyn yn llesteirio'r consortia ar lefel ymarferol – er enghraifft eu bod yn gorfod treulio amser yn trafod cytundebau gydag awdurdodau ynghylch cyllidebau a dosbarthu grantiau penodol. A bod yn deg ag arweinwyr y cynghorau, rwy'n meddwl mai'r cyfarwyddwyr addysg sy'n amharod i ollwng swyddogaeth yr oeddent yn ei rheoli gynt ac mai dyna sydd fwyaf wrth wraidd hyn. Maent wedi bod yn amharod i roi'r lle a'r rhyddid i gonsortia ddatblygu eu hagendâu eu hunain.

Opsiynau ar gyfer diwygio

Mae dau ddimensiwn i ddatrys problem creu strwythur cydlynol i gynorthwyo ysgolion. Yn yr adran hon, nid wyf wedi osgoi cyflwyno opsiynau radical ar gyfer atebion tymor canolig neu dymor hir. Mae'n anochel y bydd angen ystyried y rhain ac ymgynghori yn eu cylch ac, os cânt eu derbyn, y bydd angen deddfu a gweithredu. Byddai angen cryn amser i gwblhau hyn i gyd. Fodd bynnag, mae angen datrys rhywfaint o'r dryswch presennol ar frys, ac felly, rwyf hefyd yn cynnig opsiynau y dylid, yn fy marn i, eu rhoi ar waith cyn gynted ag sy'n bosibl.


Opsiynau ar gyfer strwythur tymor hwy ar gyfer awdurdodau lleol i gynorthwyo ysgolion

Mae angen eglurdeb ynghylch rôl awdurdodau lleol mewn addysg yn y dyfodol, yn y tymor hwy, yn sail ar gyfer creu strwythur a wnaiff barhau. Mae atebolrwydd

democrataidd lleol yn egwyddor hollbwysig ond nid yw'r ffaith bod gan gyngor gyfrifoldebau statudol yn golygu bod yn rhaid iddo ddarparu'r holl swyddogaethau'n uniongyrchol ei hun. Yn yr unfed ganrif ar hugain, mae'n fwy tebygol o lawer, mewn unrhyw faes gweithgarwch gwasanaeth cyhoeddus, y bydd pob math o grŵp, asiantaeth a sefydliad yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Fe all fod gan yr awdurdod nifer o rolau rheoleiddio hanfodol na all neb ond ef eu cyflawni. Ond, yn gyffredinol, mae a wnelo'i rôl bellach lawer mwy â chreu gweledigaeth ar gyfer gwasanaeth a chydlynu, comisiynu a chefnogi darparwyr gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau er mwyn gwireddu'r weledigaeth honno. Bydd rôl awdurdod hefyd yn cynnwys sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod pa lefel o wasanaeth y gall ei disgwyl, gan alluogi defnyddwyr gwasanaethau i ddewis a chael gafael ar ystod amrywiol o wasanaethau a chraffu ar berfformiad cyffredinol a gwerth am arian ar ran y gymuned. Bydd gan gynghorau hefyd ddyletswydd gofal arbennig gyda golwg ar unigolion agored i niwed ac weithiau fe all fod yn rhaid iddynt ymyrryd pan fydd ansawdd gwasanaeth yn fregus.

Mae Ffigur 6.5 yn disgrifio sut mae'r senario hwn yn berthnasol i wasanaethau addysg. Mae angen awdurdodau arnom yng Nghymru sydd ar dân ac sydd â gweledigaeth ar gyfer sut y dylai eu cymunedau a'u pobl ifanc dyfu, gan ddisgwyl cael addysg a sgiliau o safon – gan anelu at gael ymuno â'r prifysgolion a'r proffesiynau a'r cyflogwyr gorau. Byddai awdurdodau'n sicrhau bod digon o leoedd ar gael mewn ystod o ysgolion a cholegau da ac amrywiol er mwyn helpu i wireddu'r weledigaeth hon a byddent yn helpu rhieni i ddewis ynghylch addysg eu plant. Byddai'r cynghorau'n gwybod beth oedd yn digwydd yn eu hysgolion. Byddent yn gweithio gydag arweinwyr ysgolion i ddatblygu a chynorthwyo arweinwyr, i feithrin gallu ysgolion a cholegau i wella'n barhaus, i feithrin cymorth rhwng ysgolion gan ddisgwyl i'r ysgolion ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu gwella'u hunain – er y byddent yn ymyrryd lle'r oedd angen.

Ffigur 6.5 – Rôl awdurdodau lleol yn y dyfodol yn arwain addysg ac yn cefnogi ysgolion



Byddai awdurdodau'n brocera ffederasiynau a chlystyrau caled rhwng ysgolion. Wrth i'r partneriaethau hyn fwrw gwreiddiau, byddent yn datganoli cyllidebau ac yn comisiynu

gan y grwpiau hyn lawer o wasanaethau i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol. Gallai cynghorau gynnig darparu swyddogaethau cymorth, ond byddai clystyrau o ysgolion yn prynu'r gwasanaethau sy'n gweddu orau i'w hanghenion – boed gan yr awdurdod lleol ynteu o fan arall.

Mae'n fodel sydd wedi'i seilio ar alluogi a grymuso ysgolion er mwyn iddynt gydweithio â'i gilydd a chynorthwyo'i gilydd mewn ffordd gydlynol. Bydd angen amser i wireddu hyn ond mae'n fodel ar gyfer datblygu system ysgolion sy'n gallu gwella'i hun yn barhaus. Yn hynny o beth, nid oes gofyn cael 22 awdurdod lleol i roi swyddogaethau addysg ar waith. Byddai'r opsiwn yr wyf fi'n ei gynnig yn golygu symud yn y tymor canolig at sefyllfa lle byddai addysg yn dod yn rhan o awdurdodau lleol etholedig meinach yn sgîl unrhyw ad-drefnu posibl:

sy'n seiliedig ar ddinas ranbarthau Cymru a'r isranbarthau economaidd er mwyn hwyluso gweledigaeth addysg awdurdod sy'n gysylltiedig ag agenda sgiliau, menter a chyflogaeth y rhanbarth

sy'n cydblethu gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus allweddol gan sicrhau eu bod yn gweithredu ar sail debyg er mwyn lleihau dyblygu a manteisio i'r eithaf ar y gydberthynas rhwng swyddogaethau

sy'n adlewyrchu rôl gomisiynu feinach newydd awdurdodau lleol

sy'n canolbwyntio ar helpu i ddatblygu system wella dan arweiniad ysgolion sy'n hunangynhaliol

sy'n rhoi'r cyfrifoldeb gwleidyddol am addysgu a dysgu i aelod etholedig penodol, gyda swyddog addysg penodol yn arwain. Bydd ansawdd a gallu'r ddau unigolyn hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod unrhyw strwythur newydd yn effeithiol.

Fodd bynnag, ni welaf fod unrhyw fantais mewn ad-drefnu ac ailgyfansoddi'n ffurfiol wasanaethau addysg annibynnol ar sail y fframwaith hwn cyn adolygu trefniadau llywodraethu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n fwy cyffredinol, sef adolygiad a gynhelir ar ran Llywodraeth Cymru dan gomisiwn ar wahân²². Byddai hynny'n creu rhywfaint o darfu, amharu a dryswch yn ogystal â sefydlu setiau cyfochrog o aelodau etholedig (un grŵp ar gyfer addysg ac un ar gyfer swyddogaethau eraill). Byddai hefyd bron yn sicr yn tynnu sylw oddi ar y busnes craidd o wella ysgolion. Fel y dywed Cyngor Sir Ddinbych:

'Dylid canolbwyntio'r ymdrech, yr egni a'r adnoddau ar wella deilliannau, nid newid strwythurau.'

²² Gweler Llywodraeth Cymru (2012) *Rhaglen Lywodraethu: Adroddiad Blynyddol Mai 2012*

Fodd bynnag, rwyf yn gweld y fframwaith tymor hwy'n cynnig canllawiau ynghylch sut y gellid newid rhai pethau yn y tymor byrrach.

Opsiynau ar gyfer trefniadau awdurdodau lleol i gefnogi ysgolion yn y tymor byr

Ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf, mae'n debygol y bydd 22 corff etholedig sy'n gyfrifol am addysg yn dal i fodoli. Ond nid yw hynny'n golygu bod yn rhaid cael 22 o wasanaethau addysg awdurdodau lleol – yn enwedig gan y bydd y consortia rhanbarthol yn ysgwyddo'r rôl gwella ysgolion. Ac ystyried y dadansoddiad ar ddechrau'r bennod hon, byddai'n beth da iawn cymryd camau i uno gwasanaethau addysg er mwyn cynyddu eu gallu a'u cysoni fwy â phatrwm gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn dechrau gweld y camau cyntaf i'r cyfeiriad hwn. Ers dechrau mis Chwefror 2013, mae Casnewydd a Blaenau Gwent yn rhannu prif swyddog addysg.

Yn ddelfrydol, byddai CLILC yn cynnig yr arweiniad a'r egni i sbarduno'r datblygiadau hyn. Fodd bynnag, oni ddigwydd hynny yn yr ychydig fisoedd nesaf, yna, byddwn yn cynnig y dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, gan ddefnyddio'i bwerau i ymyrryd ym materion awdurdodau lleol ar ôl cael adroddiad anfoddhaol gan Estyn, gymryd camau i grynhoi nifer y gwasanaethau addysg. Mae eisoes wedi cynnig symud i'r cyfeiriad hwn yng nghyswllt Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.


Mewn ambell achos, fe allai uno fod yn synhwyrol o safbwynt daearyddol, a helpu i sicrhau arbedion maint, ond efallai na fydd gan yr un o'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r trefniant wasanaeth sy'n ddigon cryf i arwain y gwaith. Bryd hynny, ni fydd gan y Gweinidog ddim dewis ond parhau ar y trywydd y mae arno eisoes: dod â chomisiynwyr i mewn neu benodi byrddau adfer. Fodd bynnag, dylai'r trefniadau diwygiedig yr wyf yn eu cynnig isod i gryfhau'r consortia rhanbarthol allu rhoi gwell adnoddau i'r comisiynwyr a'r byrddau adfer i sicrhau gwasanaeth gwella ysgolion o ansawdd da, a, lle bydd angen, i ymyrryd.

Gallai gweithredu cadarn ar uno olygu bod nifer y gwasanaethau addysg yn cael eu torri o draean o leiaf erbyn Ebrill 2014.

Opsiynau ar gyfer diwygio'r consortia rhanbarthol - swyddogaethau craidd

Fel sy'n wir am awdurdodau lleol, mae angen eglurdeb ynghylch rolau a swyddogaethau. Nes bydd ad-drefnu llywodraeth leol ar raddfa fawr, bydd y consortia rhanbarthol yn gyfrifol am y tasgau a ddangosir yn y blwch coch yn Ffigur 6.6. Fodd bynnag, fel y gwelsom, mae rhai consortia'n dehongli cwmpas eu swyddogaethau'n eang ac eraill yn eu dehongli'n fwy cul. At hynny, mae rhai consortia'n perfformio'n fwy effeithiol na'u cymheiriaid; mae dryswch rhwng eu cylch gwaith hwy a chylch gorchwyl yr awdurdodau lleol; ac nid yw eu ffiniau'n cyfateb i batrwm y gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen datrys y pethau hyn i gyd ar frys.

Ffigur 6.6 – Rolau'r consortia rhanbarthol



O ran egluro prif swyddogaethau'r consortia rhanbarthol, mae Ffigur 6.7 yn rhoi'r hyn yr wyf fi wedi'i alw'n ddisgrifiad swydd o'u swyddogaethau craidd. Dyma'r tasgau cyffredinol y dylai pob consortiwm fod yn canolbwyntio arnynt.

Ffigur 6.7 – Disgrifiad swydd o dasgau allweddol y consortia rhanbarthol

Cadw golwg gyffredinol strategol ar y blaenoriaethau ar gyfer gwella ysgolion yr ardal.

Defnyddio data, ymweliadau a gwybodaeth er mwyn bod yn ymwybodol o berfformiad pob ysgol a'i olrhain.

Brocera'r cymorth sydd ei angen mewn ysgolion sy'n straffaglu neu'n tanberfformio a 'thywys' ysgolion at y cymorth hwnnw – neu ei sicrhau ar eu cyfer.

Meithrin gallu rhwng ysgolion drwy:

ddefnyddio meincnodi i alluogi ysgolion i ddefnyddio data'n effeithiol a dysgu oddi wrth ei gilydd

cysylltu penaethiaid ac ysgolion sy'n gwneud yn well â'r rhai sy'n gwneud yn waeth drwy fanteisio i'r eithaf ar ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a thrwy weithio gydag awdurdodau lleol i brocera ffederasiynau a chlystyrau caled eraill o dan arweiniad arweinwyr gweithredol

gwneud gwaith cynllunio olyniaeth i'r arweinyddiaeth gan gynnwys comisiynu rhaglenni datblygu ar gyfer arweinwyr canol ac uwch a phenaethiaid gweithredol

hyfforddi, achredu ac adeiladu rhwydweithiau o Ymarferwyr Arweiniol ac adrannau sy'n Ymarferwyr Arweiniol

comisiynu rhaglenni datblygu proffesiynol (neu frocera'r cyflenwad ohonynt) gyda'r nod o wella'r ymarfer yn yr ystafell ddosbarth – er enghraifft, y Rhaglen Athrawon sy'n Gwella a'r Rhaglen Athrawon Rhagorol

comisiynu rhaglenni gwella ysgolion cyfan gan yr ysgolion gorau o'r tu mewn i Gymru a'r tu allan iddi

cydlynu darparu hyfforddiant a datblygiad i fod yn gefn i gynlluniau cenedlaethol allweddol megis y rhaglen llythrennedd a rhifedd.

Cynghori awdurdodau lleol a chydweithio â hwy lle bydd angen atebion strwythurol – er enghraifft ffedereiddio ysgol, symud pennaeth o'r ysgol neu sefydlu bwrdd gweithredol dros dro.

Dylai'r consortia roi'r fframwaith hwn ar waith mewn pum prif faes: rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith, cymorth ar gyfer addysgu'r Gymraeg, cymorth i'r cyfnod sylfaen, dysgu 14–19 a TGCh ar gyfer dysgu. Fe allant, drwy gydweithio ag ysgolion, hefyd gomisiynu rhaglenni datblygu proffesiynol mewn meysydd pwnc eraill megis gwyddoniaeth ond ni ddylai hyn fod ar draul canolbwyntio ar y pum prif faes gweithgarwch.

Dylai'r templed hwn o dasgau a meysydd gweithgarwch fod yn un o'r prif ffyn mesur ar gyfer asesu cyfraniad consortia at wella ysgolion.

Fel rhan o egluro cylch gorchwyl consortia, byddwn hefyd yn argymhell cynnwys cymorth ar gyfer y broses arfarnu perfformiad a'i oruchwylio gan fod cysylltiad mor glos rhwng hyn a'r agenda gwella ysgolion. Byddai hyn yn golygu bod angen i'r consortia gael swyddogaeth adnoddau dynol craidd sy'n arbenigo ar gydberthynas gweithwyr mewn ysgolion. Ynghyd â gwasanaethau adnoddau dynol mwy beunyddiol y gellid eu dirprwyo i glystyrau o ysgolion, fe ddylai hyn sicrhau bod penaethiaid a llywodraethwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i fod yn effeithiol fel cyflogwyr wrth ymdrin â chwynion, a materion disgyblu a galluogrwydd.

Am yr un rheswm – sef y cysylltiad â gwella ysgolion – byddwn yn awgrymu y dylai'r consortia hefyd fod yn gyfrifol am hyfforddi a rhoi cymorth i lywodraethwyr. Dylai hyn sicrhau mwy o gysondeb ymarfer ar draws y rhanbarthau.

Opsiynau ar gyfer diwygio'r consortia rhanbarthol – sicrhau perfformiad mwy cyson

Fy marn i yw ein bod yn annhebygol o weld y cysondeb a'r ansawdd perfformiad sydd ei angen gan consortia rhanbarthol nes bod newid sylfaenol yn y ffordd y maent yn gweithredu. Felly, mae'r opsiwn yr wyf yn ei gynnig yn rhagweld, o fis Ebrill 2014 fan hwyraf:

bod cyllid, sy'n cyfateb i'r symiau a ddyrennir gan awdurdodau lleol i'r consortia ar gyfer gwella ysgolion, yn cael ei frigidori o'r Grant Cynnal Refeniw, a'i fod, ynghyd â grantiau penodol megis y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Cymraeg mewn Addysg, yn cael ei dalu'n uniongyrchol i swyddogaethau'r consortia. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y consortia y sicrwydd a'r rhyddid i gynllunio heb orfod trafod eu cyllid gydag awdurdodau lleol

y dylai fod gofyn i'r consortia rhanbarthol gael cydsyniad y Gweinidog i'w strwythur trefniadaethol, eu cynlluniau busnes blynyddol, eu targedau ar gyfer deilliannau; dylai'r trefniadau trefniadaethol olygu bod cyfarwyddwr y consortiwm yn uniongyrchol gyfrifol am reoli perfformiad pob arweinydd system a staff eraill, gan gynnwys y pŵer i derfynu eu cyflogaeth os bydd eu perfformiad yn anfodddhaol

bod trefniadau llywodraethu'r consortia'n cael eu rhoi yn nwylo bwrdd sy'n cynnwys arweinwyr awdurdod lleol o fewn ffiniau'r consortiwm, rhywun a benodir gan y Gweinidog, arbenigwr gwella addysg a thri phennaeth (un cynradd, un uwchradd ac un ysgol arbennig). Dylai'r bwrdd gael ei gadeirio gan un o arweinwyr yr awdurdodau lleol

y dylai penodiad cyfarwyddwr y consortiwm fod yn benodiad y mae'n rhaid i'r Gweinidog ei gymeradwyo. Mae'r rôl hon mor hanfodol i lwyddiant gwaith y consortiwm nes ei bod yn hollbwysig sicrhau bod y sawl sy'n cael ei benodi o ansawdd da a'i fod yn arbenigwr ar drawsnewid ysgolion

y dylai consortia rhanbarthol symud mor gyflym ag sy'n ymarferol i fabwysiadu model staffio craidd – h.y. cael llai o weithwyr parhaol. Byddai craidd y staff yn cael ei ategu drwy brynu arbenigedd gwella ysgolion, gan gynnwys gan y rheini sydd â phrofiad diweddar o arolygu yng Nghymru a'r tu allan iddi, gan gomisiynu (nid darparu) ystod o raglenni datblygu yn yr ysgol o Gymru a'r tu allan iddi, a meithrin cydgyfathwr rhwng ysgolion

y dylai'r consortia rhanbarthol gyuno ar ddull cyffredin o ddechongli'r set ddata graidd, deilliannau'r bandio a dyfarniadau Estyn a dylent sicrhau cyd-ddealltwriaeth ynghylch sut mae cymhwyso categorïau pedair lefel i berfformiad ysgol. Pwrpas canolbwyntio ar y categoreiddio yn ei hanfod fydd at ddibenion datblygu yn hytrach nag at ddibenion atebolrwydd

y dylai'r consortia rhanbarthol gymryd stoc ddwywaith y flwyddyn o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog i adolygu'r cynnydd


y dylai'r Gweinidog gael pwerau wrth gefn i wneud trefniadau eraill lle bydd y consortia'n methu cyflawni. Byddai hyn yn golygu dod â darparwyr eraill i mewn pe na allai'r consortia roi trefniadau cyflawni digonol ar waith, petaent yn crwydro'n ddifrifol oddi ar drywydd cyflawni amcanion eu cynllun busnes neu petai Estyn yn barnu bod eu perfformiad yn anfoddfaol.


Fy nealltwriaeth i yw y byddai gan y Gweinidog y pwerau i gyflwyno'r trefniadau hyn yn rhinwedd gallu rhoi amodau ynghlwm wrth ddyrannu'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i frigdorri. Fodd bynnag, pe na bai ei bwerau'n ddigonol i gyflawni hyn, byddwn yn argymhell y dylid ystyried cyflwyno deddfwriaeth frys ar unwaith. Mae angen y newidiadau hyn cyn gynted ag y bo modd.

Opsionau ar gyfer diwygio'r consortia rhanbarthol – egluro rolau'r awdurdod lleol a rolau'r consortia rhanbarthol

Mae'r trefniadau a ddisgrifiwyd uchod yn sefydlu'n glir mai'r consortia sydd ar y blaen o ran gwybod am berfformiad ysgolion a'i olrhain ac o ran darparu gwasanaethau gwella ysgolion. Ni ddylai awdurdodau lleol geisio dyblygu'r rolau hyn: dylent roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau gwella ysgolion. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol yn dal i feddu ar gyfrifoldebau statudol pwysig am ymyrryd yn achos ysgolion sy'n methu ac mae ganddynt bwerau i fynnu cydweithrediad a phartneriaeth. Felly, mae angen dealltwriaeth glir ynghylch sut y byddai'r rolau hyn yn cydweithio ac yn cydweddu â'i gilydd. Er enghraifft, go brin y gellir disgwyl i awdurdodau lleol roi eu pwerau ar waith os nad oes ganddynt yr wybodaeth i weithredu ar ei sail. Mae Ffigur 6.8 yn disgrifio sylfaen ar gyfer sefydlu'r berthynas rhwng y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol. Yr allwedd fydd cytuno ar weithdrefnau neu brotocolau clir sydd wedi'u rhoi ar glawr a'u ffurfioli er mwyn sicrhau cyn lleied o botensial ag y bo modd i drosglwyddo'r bai ac i ysgolion ddisgyn rhwng dwy stôl y consortia a'r awdurdodau.

Ffigur 6.8 – Deall rolau'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol o ran ymyrryd mewn ysgolion sy'n methu

Consortia rhanbarthol	 Rhannu gwybodaeth, data a	Awdurdodau lleol
Gwybod sut mae pob ysgol yn perfformio a'i herio Brocera cymorth i ysgolion sy'n straffaglu a/neu'n tanberfformio Datblygu cydgymorth rhwng ysgolion a		Ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion i ddileu lleoedd gwag ac ad-drefnu darpariaeth wael neu anhyfyw – cyn ac ar ôl 16 Hybu a brocera ffederasiynau a chlystyrau caled o

<p>chreu cysylltiad rhwng ysgolion sy'n gwneud yn well a'r ysgolion sy'n gwneud yn waeth</p> <p>Meithrin gallu, cydlynu hyfforddiant llythrennedd a rhifedd a chomisiynu rhaglenni arweinyddiaeth a datblygu ysgolion</p>	<p>blaengynlluniau</p> <p>Cytuno ar brotocolau ar gyfer sut y gwnaiff consortia sbarduno cais am ymyrraeth ffurfiol gan awdurdod lleol a sut y bydd y consortia a'r awdurdodau lleol yn cydweithio wedyn</p> 	<p>ysgolion</p> <p>Cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio</p> <p>Defnyddio pwerau ymyrryd – gan gynnwys p e r i'w gwneud yn ofynnol i ysgol gydweithredu neu ffedereiddio gydag ysgol arall, penodi llywodraethwyr ychwanegol neu ofyn am fwrdd gweithredol dros dro</p>
---	--	--

Lle byddai consortiwm rhanbarthol yn argymhell bod awdurdod lleol yn ymyrryd yn ffurfiol ag ysgol oherwydd ei bod yn perfformio'n wael ond bod yr awdurdod yn gwrthod gweithredu'n ddi-oed ar sail y cyngor hwnnw, yna byddai'n ddyletswydd ar y consortiwm rhanbarthol i hysbysu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ynghylch y cyngor a roddwyd ganddo.

Byddai'r model hwn, fel y soniwyd ym Mhennod 5, yn ei gwneud yn ofynnol i Estyn ailfeddwl yn sylfaenol ynghylch ei ddull o arolygu awdurdodau lleol gan y byddai'n amlwg yn amhriodol dal awdurdodau lleol yn gyfrifol am wella ysgolion yn y ffordd y maent wedi bod yn gyfrifol amdano hyd yn hyn. Mae'n ymddangos mai llythyr cylch gorchwyl gan y Gweinidog at Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi fyddai'r opsiwn callaf ac ar gyfer sbarduno'r adolygiad hwn.

Opsiynau ar gyfer diwygio'r consortia rhanbarthol – sicrhau mwy o gysondeb â phatrwm y sector cyhoeddus

Y flaenoriaeth bwysicaf ar hyn o bryd yw sicrhau bod yr holl gonsortia rhanbarthol yn gweithredu'n effeithiol ac osgoi ystyriaethau sy'n tynnu sylw oddi wrth hynny. Fodd bynnag, mae cylch gorchwyl yr adolygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol imi ystyried a ddylid sicrhau mwy o gysondeb â phatrwm rhanbarthol cyffredinol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru a sut mae gwneud hynny – roedd hyn yn amcan yr oedd sawl un a ymatebodd i'r adolygiad yn ei gefnogi. Mae Ffigur 6.9 yn egluro'r fframwaith cydweithredol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ffigur 6.9 – Y patrwm ar gyfer cydweithredu rhwng gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Byddai'n bosibl sicrhau mwy o gysondeb rhwng y consortia addysg rhanbarthol a'r patrwm hwn. Yr opsiwn symlaf, ar bwynt priodol, pan fyddai'n cael ei gydnabod bod Consortiwm y De-orllewin a'r Canolbarth yn gweithio'n gryf ac yn effeithiol, fyddai symud ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr o'u cartref presennol yng Nghonsortiwm Canol De Cymru i'r De-orllewin a'r Canolbarth. Fodd bynnag, byddai hynny'n golygu bod ardal y De-orllewin a'r Canolbarth yn fwy byth ac yn fwy anhylaw nag y mae ar hyn o bryd.

Y dewis arall fyddai sefydlu pumed consortiwm sydd wedi'i seilio ar ardal Bae'r Gorllewin. Byddai hyn yn golygu dwyn ynghyd wasanaethau gwella ysgolion o Ben-y-bont ar Ogwr sydd ar hyn o bryd yng nghonsortiwm Canol De Cymru a gwasanaethau Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, sydd ar hyn o bryd yn rhan o'r De-orllewin a'r Canolbarth. Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn golygu ailfeddwl sut mae consortiwm y De-orllewin a'r Canolbarth yn gweithio ond, yn fy marn i, mae angen i'r consortiwm hwn gael strwythur trefniadaethol eglurach a chryfach o lawer beth bynnag. Byddai'r model o bump consortiwm yn hytrach na phedwar hefyd yn golygu bod llai o darfu petai'r patrwm cydweithredol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer yr

adolygiad mwy cyffredinol a gynhelir ar lywodraethu a threfniadau darparu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Pa opsiwn bynnag a ddewisir, byddwn yn awgrymu y dylai consortiwm presennol Canol De Cymru (a LINKS) barhau i wasanaethu'r pedwar awdurdod sy'n ffurfio ardaloedd patrwm gwasanaethau cyhoeddus Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro. Mewn geiriau eraill, byddai un consortiwm addysg rhanbarthol ar gyfer ffiniau dwy o ardaloedd y patrwm. Byddai chwalu Consortiwm Canol De Cymru ar hyn o bryd, i bob golwg, yn tarfu ar bethau'n ddiangen.

Opsiynau ar gyfer llywodraeth ganolog

Mae i lawer o'r opsiynau yr wyf wedi'u cynnig oblygiadau ar gyfer llywodraeth ganolog – er enghraifft, y newidiadau posibl o ran y trefniadau atebolrwydd a strwythur a llywodraethu diwygiedig y consortia rhanbarthol. At hynny, gofynnwyd imi ystyried yr opsiwn ar gyfer creu gwasanaeth addysg cenedlaethol. Ychydig o gefnogaeth os o gwbl gafwyd i hyn yn yr ymatebion a gefais. Dyma rai o'r sylwadau a oedd yn nodweddiadol o'r atebion:

‘Byddai gwasanaeth addysg cenedlaethol yn gostus o ran amser ac adnoddau, ac nid yw'n rhywbeth sydd wedi'i brofi.’
ATL Cymru

‘Nid ydym wedi'n hargyhoeddi bod rhinwedd i ‘wasanaeth addysg cenedlaethol’ na'i fod yn ymarferol. Ni fyddai'r ganolfan yn gallu darparu'r wybodaeth angenrheidiol i gynnig cymorth a her effeithiol a phriodol.’
NAHT Cymru

‘Dylai Llywodraeth Cymru bennu cyfeiriad strategol ond nid hi ddylai ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol.’
Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Fodd bynnag dywedodd ASCL Cymru fod yr Uned Safonau wedi cael effaith sylweddol ar wella ansawdd casglu a dadansoddi data yng Nghymru. Aeth ASCL ymlaen i argymhell y dylai'r Uned Safonau Ysgolion a Chyflawni gael mwy o rôl yn goruchwylio system olrhain data genedlaethol ynghylch disgyblion – mater a drafodwyd mewn penodau blaenorol. Credaf mai un opsiwn cryf fyddai adeiladu ar sail enw da'r uned mewn ffordd arall ac ymestyn ei chylch gwaith i herio a chynorthwyo consortia rhanbarthol ar ran y Gweinidog.

Er mwyn gwneud y gwaith hwn, byddai angen cynyddu arbenigedd yr uned ym maes gwella ysgolion a'r cwricwlwm, yn enwedig yng nghyswllt llythrennedd a rhifedd. At hynny, byddai angen iddi gynnwys gallu gyda golwg ar addysgu drwy'r Gymraeg, TGCh ar gyfer dysgu, dysgu 14-19 a'r Cyfnod Sylfaen. Dylai'r Uned Safonau Ysgolion a Chyflawni (gan ddilyn y model a argymhellwyd ar gyfer y consortia rhanbarthol) benodi grŵp craidd o arbenigwyr y mae'n ei ategu drwy ddefnyddio secondiadau o ysgolion a

thrwy brynu arbenigedd o fathau eraill yn ôl y gofyn. Pwrpas yr arbenigedd ychwanegol hwn fyddai arfogi'r uned i allu gwneud hyn:

cyfrannu at arferion addysgu arloesol mewn ysgolion ac at arweinyddiaeth ysgol gyfan a gwella rhwng ysgolion

ychwanegu gwerth at waith y consortia wrth i'r Uned adolygu cynlluniau a deilliannau a chynghori'r Gweinidog yn y cyfarfodydd cyfrif stoc ddwywaith y flwyddyn

bod yn gyswllt arbenigol ar gyfer llunio polisiau addysg yn Llywodraeth Cymru.

Casgliad

Wrth imi lunio'r bennod hon, rwyf wedi bod yn ymwybodol iawn o'r gwahanol fathau o bwysau sydd yn waelodol i'r adolygiad hwn. Ar y naill law, bu angen sicrhau eglurdeb a mynd i'r afael â phroblemau sydd wedi magu gwreiddiau, yn enwedig felly fodolaeth 22 awdurdod lleol. Ar y llaw arall, roedd y perygl o fynd ynghlwm wrth ddiwygio strwythurau a cholli'r ffocws a'r momentwm ar gyfer gwella ysgolion wrth i'r cadeiriau glan-môr sefydliadol gael eu had-drefnu eto fyth. Nid oes ateb hawdd i'r ddeuoliaeth hon.

Yr hyn yr wyf wedi ceisio'i wneud yw cynnig opsiynau sy'n ceisio cyflawni pedwar amcan.

Yn gyntaf, rwyf wedi llunio map ffordd sy'n dangos sut siâp ddylai fod ar awdurdodau lleol yn ein cymdeithas heddiw, o ystyried popeth a wyddom am sut mae gwella ysgolion mewn ffordd sy'n gynaliadwy. Rwyf hefyd wedi dangos ar ba sail y dylid eu trefnu er mwyn iddynt ddod yn asiantau sy'n addas ar gyfer byd modern darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ail, a chofio nad nawr yw'r adeg iawn i ad-drefnu holl swyddogaethau llywodraeth leol drwy'r trwch, rwyf wedi cynnig newid sut y trefnir swyddogaethau addysg mewn ffordd a ddylai ddarparu gwell cymorth i ysgolion ac mewn ffordd hefyd sy'n gydnaws â'r trywydd a ddilynir yn y tymor hwy. Lleihau nifer y gwasanaethau addysg, sicrhau fframwaith cryfach ar gyfer sut y llywodraethir gweithredu'r consortia a'r posibilrwydd o greu pumed consortiwm yw'r opsiynau allweddol yn y cyswllt hwn.

Yn drydydd, rwyf wedi rhoi cryn dipyn yn fwy o eglurdeb ynghylch rolau a swyddogaethau awdurdodau lleol a rhai'r consortia rhanbarthol.

Yn bedwerydd, rwyf wedi cynnig sut mae cryfhau'r gadwyn cyflenwi addysg ar lefel awdurdod lleol, y consortia rhanbarthol a llywodraeth genedlaethol.

Nid p'un a fabwysiedir yr holl opsiynau yn yr adroddiad hwn neu beidio yw'r prawf litmws i weld a yw'r adolygiad hwn wedi bod yn werthfawr. Bydd yr adolygiad wedi bod yn werth ei gynnal os bydd yn creu dealltwriaeth eglurach ymhlith athrawon, arweinwyr

ysgolion, llywodraethwyr, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a llunwyr polisïau'r llywodraeth, ynghylch sut mae gwella addysgu a dysgu a chodi safonau mewn ystafelloedd dosbarth drwy Gymru. Os bydd yn llwyddo i wneud hynny, ac os bydd ewyllys ar y cyd i droi'r ymdeimlad hwnnw'n weithredu, yna, ni fydd terfyn ar y gwella a'r cynnydd y gall ysgolion a phobl ifanc ledled Cymru ei sicrhau.

Cyfeiriadau

Australian Council for Educational Research (ACER) (2013 ar y gweill) *An investigation into key stages 2 and 3 teacher assessment in Wales*, Llywodraeth Cymru

Barber, M, Clark, M a Whelan, F (2010) *Capturing the leadership premium: how the world's top school systems are building leadership capacity for the future*, McKinsey & Company

Barber, M a Mourshed, M (2007), *How the world's best performing school systems come out on top*, McKinsey & Company

Chapman, C, Mujis, D a MacAllister, J (2011) *A study of the impact of school federation on student outcomes*, National College for School Leadership

Childress S, Higgins, M, Ishimaru, A and Takahasi, S (2011) *Managing for results at the New York City Department of Education, in Education Reform in New York City: ambitious change in the nation's most complex school system*, golygwyd gan O'Day, J, Bitter, C a Gomes, L, Harvard Education Press

Day, C, Sammons, P, Hopkins, D, Harris, A, Leithwood, K, Gu, Q a Brown, E (2010) *10 Strong Claims About Successful School Leadership*, National College for School Leadership, Nottingham

Donaldson, M (2011) *Principals' Approaches to Developing Teacher Quality Constraints and Opportunities in Hiring, Assigning, Evaluating, and Developing Teachers*, Center for American Progress

Elmore, R (2008) *Improving School Leadership*, Cyfrol 2, OECD

Estyn (2010a) *Arweiniad ar arfer sy'n arwain y sector*

Estyn, (2010b) *Arfarniad o'r trefniadau i sicrhau cysondeb asesiadau athrawon yn y pynciau craidd yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3*

Estyn (2012) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2010/11*

Estyn (2013) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2011/12*

Faubert, V (2009) *School Evaluation: Current Practices in OECD Countries and a Literature Review*, OECD Education Working Paper No. 42

Glatter, R (2009) *Let's look at academies systematically*, Management in Education, 23(3), 104-107, Sage Journals

- Hanushek, E a Rivkin, S (2012) *The distribution of teacher quality and implications for policy*, *The Annual. Review Economics* 2012. 4:131–57
- Hargreaves, D (2012) *A self-improving school system: towards maturity*, National College for School Leadership, Nottingham
- Hill, R (2008) *Achieving more together: adding value through partnership*, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
- Hill, R, Dunford, J, Parish, N a Rea, S (2012) *The growth of academy chains: implications for leaders and leadership*, National College for School Leadership, Nottingham
- Hill, R (2012) *The missing middle: the case for school commissioners – developing a great school system in England*, Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau
- Hutchings, M, Greenwood, C, Hollingworth, S, Mansara, A, Rose, A, ar y cyd â Minty, S a Glass, K (2012) *Evaluation of the City Challenge programme*, Institute for Policy Studies in Education, London Metropolitan University and Evaluation and Research Practice, Coffey International Development, Department for Education
- Jensen, B a Clark, A (2013) *Developing confident leadership: A thinkpiece on lessons from high-performing systems in East Asia*, National College for School Leadership, Nottingham
- Leithwood K, Seashore Louis, K, Anderson, S a Wahlstrom, K (2004) *How leadership influences student learning: a review of research for the Learning from Leadership Project*, The Wallace Foundation, Center for Applied Research and Educational Improvement and Ontario Institute for Studies in Education, Efrog Newydd
- Levin, B (2012) *System-wide improvement in education*, UNESCO and the International Institute for Educational Planning
- Lofthouse, R, Leat, D a Towler, C (2010) *Coaching for teaching and learning: a practical guide for schools*, *Guidance report*, CfBT Education Trust and the National College for School Leadership, Nottingham
- Lubienski, C (2009) *Do Quasi-markets Foster Innovation in Education?: A Comparative Perspective*, OECD Education Working Papers, No. 25, OECD Publishing
- Matthews, P, Higham, R, Stoll, L, Brennan, J a Riley, K (2011) *Prepared to lead: how schools, federations and chains grow education leaders*, National College for School Leadership, Nottingham

Mourshed, M, Chijioke, C a Barber, M (2010) *How the world's most improved school systems keep getting better*, McKinsey & Company

O'Day, J (2002) *Complexity, Accountability, and School Improvement*, Harvard Educational Review, Cyf. 72 Rhif 3

OECD (2005) *Teachers matter: attracting, developing and retaining effective teachers*, OECD Publishing

OECD (2011a) *Lessons from PISA for the United States, Strong Performers and Successful Reformers in Education*, OECD Publishing

OECD (2011b) *Evaluation and assessment frameworks for improving school outcomes*, OECD Publishing

Ofsted (2011) *Leadership of more than one school: an evaluation of the impact of federated schools*, Llundain, Ofsted

Pearson a RSA (2013) *Unleashing greatness: getting the best from an academised system*

Peltason, E a Raymond, M (2013) *Charter School Growth and Replication*, Center for Research on Education Outcomes, Stanford University

Pont, B, Nusche, D a Moorma, H (2008) *Improving school leadership: volume 1: policy and practice*, OECD Publishing

Rosenkist, M (2010) *Using student test results for accountability and improvement: a literature review*, OECD Education Working Paper No. 54, OECD Publishing

Todman, P, Harris, J, Carter, J a McCamphill, J (2009) *Better together: exploratory case studies of formal collaborations between small rural primary schools*, DCSF Research Report RR162, Llundain

Llywodraeth Cymru (2011) *Strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru: Adroddiad Gr p Gorchwyl a Gorffenn Annibynnol*

Llywodraeth Cymru ac Estyn (2013) *Dogfen ymgynghori: newidiadau arfaethedig i gylch arolygu Estyn ac amseru ar gyfer cynlluniau gweithredu ar ôl arolygiad*

Wöbmann, L, Lüdemann, E, Schütz, G a West, M (2007) *School accountability, autonomy, choice, and the level of student achievement: International evidence from PISA 2003*, OECD Education Working Papers, No. 13, OECD Publishing

Atodiad A: Cylch Gorchwyl – darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol

Cyflwyniad

Ar 18 Mai 2010, cyhoeddodd Leighton Andrews AC, a oedd, ar y pryd, yn Weinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, adroddiad yn dwyn yr enw 'Adolygiad o'r Gost o Weinyddu'r System Addysg yng Nghymru – Cam 1'. Roedd yr adroddiad hwnnw'n awgrymu 10 maes (hypothesis) y gellid eu hystyried er mwyn dargyfeirio cyllid oddi wrth swyddogaethau cymorth a'i ddefnyddio yn lle hynny er mwyn darparu gwasanaethau addysg 'rheng flaen'. Aed i'r afael â'r awgrymiadau hynny drwy gyfrwng yr Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen. Sefydlodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar gyfer Strwythur Gwasanaethau Addysg. Byddai gwaith y Grŵp hwnnw'n cydreddeg â'r Adolygiad o Adnoddau Rheng Flaen, gan gysylltu â'r gwaith hwnnw a manteisio'n helaeth ar y gweithgaredd a oedd eisoes ar waith. Aeth y grŵp ati i ystyried y dadleuon o blaid newid y strwythurau gwasanaeth a'r trefniadau llywodraethu presennol, gan ystyried yn benodol pa wasanaethau addysg:

- y dylid eu darparu ar y lefel genedlaethol;
- y dylid eu darparu ar lefel y consortia rhanbarthol;
- y dylid eu darparu ar lefel yr awdurdod lleol;
- y dylid eu dirprwyo i ddarparwyr, gan gynnwys ysgolion neu glystyrau o ysgolion;
- y dylid eu darparu ar sail drefniadol arall.

Cafodd adroddiad yr Adolygiad o Strwythurau Addysg ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2011. Gwnaeth yr adroddiad 33 o argymhellion, a gafodd eu derbyn gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2011. Un o'r argymhellion hynny oedd y dylid cynnal adolygiad manwl yn ystod hydref 2013 i weld a oes angen cyflwyno rhagor o newidiadau strwythurol er mwyn darparu'r addysg orau bosibl yng Nghymru. Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar 20 Tachwedd 2012 y byddai'r adolygiad manwl hwnnw bellach yn cael ei gynnal cyn hynny, ac y byddai'n dechrau ym mis Ionawr 2013.

Nod yr Adolygiad

Prif nod yr adolygiad fydd adolygu pa mor effeithiol yw'r system bresennol sydd gennym ar gyfer darparu gwasanaethau addysg, ar lefel yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol. Bwriedir mynd ati hefyd i ystyried yr hyn y dylid ei wneud ar lefel yr ysgol, ar lefel yr awdurdod lleol, ac ar y lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac edrych hefyd ar yr opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny, gan ganolbwyntio ar y materion a ganlyn:

- Gwella perfformiad ysgolion
- Codi safonau a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr o bob oedran
- Rhoi gwell cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn gwella safonau
- Datblygu a chryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion, ynghyd ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu

- Sicrhau gwerth am arian a bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithiol
- Sicrhau cydlyniant a chysylltiadau cryf rhwng pob rhan o'r system addysg, gan gynnwys darpariaeth ôl-16 a'r agenda ehangach ar gyfer gwasanaethau plant.

Yr Egwyddorion

Bydd y gwaith o gynnal yr adolygiad yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Bydd yn rhaid i'r nod o wella ysgolion fod yn gwbl greiddiol wrth ddarparu gwasanaethau
- Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr, ac ar sut y mae darparu gwasanaethau o ansawdd uchel mewn modd effeithiol
- Bydd yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn wrthrychol, a bydd yn edrych ar yr arferion gorau sydd i'w gweld ym mhedwar ban byd ym maes diwygio systemau
- Bydd yn mynd i'r un cyfeiriad â gwaith a wnaed eisoes – ni fydd yn dechrau â dalen wag
- Bydd yn ystyried unrhyw oblygiadau a allai fod yn gysylltiedig â rhoi unrhyw newidiadau ar waith, yn rheoli unrhyw ddirywiad a allai fod yn gysylltiedig â gweithredu'r newidiadau hynny, ac yn ystyried y cohortau o ddysgwyr yr effeithir arnynt gan unrhyw newidiadau yn y dyfodol
- Bydd yn meithrin gallu'r system ysgolion i gynorthwyo yn y gwaith o'i gwella ei hun
- Bydd yn ystyried y cysylltiadau ehangach â darpariaeth ôl -16 a bydd yn gydnaws â strategaethau ehangach ar draws y llywodraeth
- Bydd y cydnabod yr angen i sicrhau cydlyniant trefniadol o fewn sefydliadau, a rhwng sefydliadau, wrth ddarparu gwasanaethau, ynghyd â'r angen i fod yn hynod effeithiol ac i sicrhau llywodraethu cryf a llinellau atebolrwydd clir, gan gynnwys atebolrwydd democrataidd dros ganlyniadau.

Y Broses

- Y Gweinidog fydd yn pennu'r cylch gorchwyl, yn penodi'r adolygydd ac yn derbyn yr adroddiad
- Bydd yr adolygydd yn gofyn am unrhyw gymorth ychwanegol y bydd ei angen arno oddi wrth arbenigwyr/rhanddeiliaid allweddol, bydd yn arwain yr adolygiad ac yn gyfrifol am y broses
- Bydd yr adolygydd yn annibynnol ond bydd yn cael peth cymorth gan ysgrifenyddiaeth o fewn y gwasanaeth sifil
- Bydd yr adolygydd yn casglu tystiolaeth, gan wneud hynny ar sail y cwestiynau sy'n pennu cwmpas yr adolygiad, bydd yn cysylltu ei waith â strategaethau ehangach ar draws y llywodraeth ac yn cynnig amryfal opsiynau
- Mae'n cyhoeddi amryfal opsiynau ar ffurf dogfen ymgynghori ac yn cynnal sesiynau er mwyn eu trafod â rhanddeiliaid
- Caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu casglu ynghyd a'u dadansoddi

- Caiff yr argymhellion eu hystyried gan y Gweinidog/Cabinet.

Amcanion o ran deilliannau

Ysgolion

- cynnig modelau ar gyfer arwain, llywodraethu a chyllido ysgolion a fydd yn cyfrannu at wella safonau addysgol
- nodi'r strategaethau sy'n fwyaf tebygol o wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu mewn ysgolion yng Nghymru
- edrych ar fodelau cyllido sy'n hyrwyddo perchenogaeth o'r gwaith gwella ysgolion

Gwasanaethau Gwella Ysgolion

- cynnig opsiynau fel bod modd rhoi ffyrdd effeithiol o wella ysgolion ar waith, er budd dysgwyr ac er mwyn diwallu'r angen i godi safonau yng Nghymru ar fyrder, gan gofio hefyd y goblygiadau cyfreithiol, democrataidd ac ariannol

Awdurdodau Lleol

- ystyried a fyddai modd cyflawni swyddogaethau addysg ehangach ar wahân i swyddogaethau gwella ysgolion, ac a fyddai hynny'n ymarferol. Pe byddai modd gwneud hynny, ystyried sut orau i fynd ati
- ystyried a ddylai awdurdodau lleol barhau i arfer yr holl gyfrifoldebau addysg sydd ganddynt ar hyn o bryd
- ystyried a all y strwythurau sydd gan yr awdurdodau lleol ar hyn o bryd ddarparu gwasanaethau strategol a gweithredol effeithiol ym maes addysg

Y Consortia Rhanbarthol

- ystyried a ddylid estyn y cyfrifoldebau sydd gan y consortia rhanbarthol ar hyn o bryd, a chynnwys meysydd eraill
- ystyried a ddylai'r consortia rhanbarthol fod yn asiantaethau i'r Llywodraeth
- edrych ar fodelau a phatrymau eraill posibl ar gyfer darparu ar lefel ranbarthol

Y Llywodraeth

- edrych ar y modelau cyfredol ar gyfer ariannu awdurdodau lleol ac ysgolion
- cynnig opsiynau'n ymwneud â rôl y llywodraeth o ran cyflawni, o ran atebolrwydd ac o ran ymyrryd er mwyn ymateb i danberfformiad
- ystyried a ddylid sefydlu Gwasanaeth Addysg Cenedlaethol

Wrth fynd i'r afael â'r amcanion hyn, bydd yr adolygiad yn ystyried yr effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir gan lywodraeth leol, ynghyd â'r canlyniadau ariannol a'r canlyniadau eraill a allai ddeillio o unrhyw newidiadau i lywodraeth

leol. Bydd yn ystyried gwerth am arian nid yn unig o ran costau, ond hefyd o ran parhau i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan ystyried arferion da hefyd.

Allbynnau

Rhagwelir y bydd allbynnau'r adolygiad yn cynnwys:

- Ymchwil, dadansoddiadau a sylwadau yn ymwneud â'r modd y mae gwasanaethau a strwythurau addysg yn cael eu darparu ar hyn o bryd;
- Amryfal opsiynau (nid argymhellion) ar gyfer darparu swyddogaethau a gwasanaethau addysg yn y dyfodol, a'r effaith ar awdurdodau lleol.

Yr Amserlen

Bwriedir cwblhau'r adolygiad erbyn gwanwyn 2013

Atodiad B: Llythyr at y rhanddeiliaid

Ionawr 2013

Adolygiad ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol

Rwy'n ysgrifennu atoch i geisio'ch barn am faterion allweddol y byddaf yn eu hystyried fel rhan o'r adolygiad a gomisiynwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y dyfodol.

Ar 9 Ionawr 2013, cyflwynodd y Gweinidog Ddatganiad Ysgrifenedig i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch yr adolygiad ar Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru, a chyhoeddodd ei fod wedi fy mhenodi i i gynnal yr adolygiad. Amgaeaf gopi o'r Datganiad Ysgrifenedig hwnnw.

Mae'r Gweinidog wedi gofyn i mi bwysu a mesur pa mor effeithiol yw'r system bresennol sydd gennym ar gyfer darparu gwasanaethau addysg, ar lefel yr ysgol ac ar lefel yr awdurdod lleol. Mae'n awyddus hefyd i ni ystyried yr hyn y dylid ei wneud ar lefel yr ysgol, ar lefel yr awdurdod lleol, ac ar y lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac edrych ar yr opsiynau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny, gan ganolbwyntio ar y materion a ganlyn:

- Gwella perfformiad ysgolion
- Codi safonau a gwella deilliannau ar gyfer dysgwyr o bob oedran
- Rhoi gwell cefnogaeth a her i ysgolion er mwyn gwella safonau
- Datblygu a chryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion, ynghyd ag ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Sicrhau gwerth am arian a bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd effeithiol
- Sicrhau cydlyniant a chysylltiadau cryf rhwng pob rhan o'r system addysg, gan gynnwys darpariaeth ôl-16 a'r agenda ehangach ar gyfer gwasanaethau plant.

Ni fydd yr adolygiad yn gwneud unrhyw argymhellion, ond bydd yn adrodd ar amryw o opsiynau posibl ar gyfer darparu gwasanaethau addysg. Bydd yn cael ei gwblhau erbyn Gwanwyn 2013. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad hwnnw, a chynnal ymgynghoriad llawn am yr opsiynau rhwng mis Mai a mis Awst 2013.

Rydym, felly, yn eich gwahodd i fynegi'ch barn, gan ganolbwyntio ar y 3 chwestiwn a ganlyn:

Pa gamau fyddai'n gwneud y cyfraniad mwyaf o ran gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ym mhob ystafell ddosbarth yn ysgolion Cymru?

Sut orau y mae dal ysgolion yng Nghymru i gyfrif a'u helpu i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc?

Pa gamau ddylid eu cymryd i alluogi, grymuso ac arfogi arweinwyr ysgolion yng Nghymru i arwain gwelliannau sylweddol a chynaliadwy i'r system ysgolion?

Nid ydym am bennu fformat penodol ar gyfer eich ymateb. Fodd bynnag, gan ei bod yn bosibl y bydd y Gweinidog am gyhoeddi rhai o'ch ymatebion, neu bob un ohonynt, gawn ni ofyn i chi beidio ag anfon ymateb hir, neu i roi crynodeb gweithredol nad yw'n fwy na phedair tudalen A4.

Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn gofyn i chi gyfarfod â ni i drafod eich tystiolaeth. Os bydd angen gwneud hynny, byddwn yn cysylltu â chi i weld pryd byddwch ar gael.

Dylech anfon eich ymateb erbyn **19 Chwefror 2013**. Dylech ei anfon i educationreview@wales.gsi.gov.uk sef ysgrifenyddiaeth yr adolygiad. Rydym yn bwriadu gwahodd amrywiaeth mor eang â phosibl o randdeiliaid i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Gwn eich bod yn cael cais yn aml i ymateb i amryfal faterion yn ymwneud ag addysg, a'i bod yn anodd dod o hyd i'r amser i wneud hynny. Mae'n bosibl y bydd yr adolygiad hwn yn arwain at argymhellion ar gyfer newidiadau sylfaenol i strwythur llywodraethu ysgolion yng Nghymru, a bydd eich safbwyntiau chi yn hanfodol bwysig er mwyn i ni fedru gwneud argymhellion a fydd yn sicrhau'r deilliannau gorau posibl i'n dysgwyr.

Edrychaf ymlaen at gael clywed eich barn maes o law.

Robert Hill

Atodiad C: Rhestr o'r rhanddeiliaid a ymatebodd i'r ymgynghoriad

ASCL Cymru

Aspect

Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin

Y Gwasanaeth Addysg Gatholig

Y Cynghorydd Richard Thomas

ColegauCymru

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Cyngor Sir Ddinbych

Esgobaeth Menefia

Estyn

Gareth Jones

Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru

Llywodraethwyr Cymru

Cyngor Gwynedd

Irene Cameron

Ysgol Gynradd Maes-y-Morfa

Gwybodaeth Reoli ar gyfer Gwella Ysgolion (Is-grŵp holi ac ateb MISIG ADEW)

NAHT Cymru

NASUWT Cymru

NUT Cymru

Richard Parry

Sheelagh McCool

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Lywodraethu Ysgolion

Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

UNSAIN

Undeb y Prifysgolion a'r Colegau

Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Atodiad D: Rhestr o'r ysgolion yr ymwelwyd â hwy

Ysgol Alun, Cyngor Sir y Fflint

Ysgol Ashgrove, Cyngor Bro Morgannwg

Ysgol Uwchradd Aberhonddu, Cyngor Sir Powys

Ysgol Gynradd Sirol Brynteg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ysgol Uwchradd Crucywel, Cyngor Sir Powys

Ysgol Gymuned Cwmtawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Ysgol Gyfun Gymuned Cwrt Sart, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Ysgol Gynradd Duffryn, Cyngor Dinas Casnewydd

Ysgol Uwchradd Glyn Derw, Cyngor Caerdydd

Ysgol Gynradd Llanedeyrn, Cyngor Caerdydd

Ysgol Uwchradd Mair Ddifrycheulyd, Cyngor Caerdydd

Ysgol Gynradd Bro Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Ysgol Uwchradd Gatholig San Joseff, Cyngor Dinas Casnewydd

Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Cyngor Caerdydd

Ysgol Bryn Eilian, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Ysgol David Hughes, Cyngor Sir Ynys Môn

Ysgol Dyffryn Ogwen, Cyngor Gwynedd

Ysgol Hen Felin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Ysgol Uwchradd Glan Clwyd, Cyngor Sir Ddinbych

Ysgol y Borth, Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad E: Rhestr o gyfarfodydd a chyfweiliadau ag unigolion a sefydliadau

Mae'r canlynol yn cynnwys cyfweiliadau dros y ffôn.

Llywodraeth Cymru

Dirprwy Gyfarwyddwr y Cwricwlwm

Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau

Dirprwy Gyfarwyddwr Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion

Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cyflawni a Safonau Ysgolion

Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Rheoli'r Rhaglen Trawsnewid

Dirprwy Gyfarwyddwr, Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid

Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Adran Addysg a Sgiliau

Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Cyfarwyddwr Grŵp Plant, Pobl Ifanc ac Effeithiolrwydd Ysgolion

Pennaeth y Strategaeth TGCh

Pennaeth y Gangen Arweinyddiaeth

Pennaeth y Gangen Cynllunio

Pennaeth Ymarfer, Adolygu a Datblygu

Pennaeth y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion a Phennaeth yr Uned TGCh

Pennaeth yr Uned Safonau Ysgolion

Pennaeth Cymorth i Ddysgwyr

Swyddog Llywodraethu Ysgolion

Rheolwr Refeniw Ysgolion

Rheolwr y Rhaglen Effeithiolrwydd Ysgolion a Phennaeth y Gangen

Uwch Reolwr Datblygu (Hyfforddiant)

Uwch Reolwr Diwygio Awdurdodau Lleol

Uwch Reolwr Llywodraethu Ysgolion

Uwch Arweinydd Tîm: Arian Refeniw Ysgolion

Unigolion a sefydliadau allanol

Sandra Aspinall, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Chris Bradshaw, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Simon Brown, Cyfarwyddwr Strategol, Estyn

Angela Burns AC

Ian Budd, Cyngor Sir y Fflint

Elwyn Davies, Prif Swyddog Dros Dro GwE (Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella ac Effeithiolrwydd Ysgolion)

John Davies, Pennaeth Dysgu Gydol oes, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Steve Davies, Gwasanaeth Cyflawni Addysg

Yr Athro David Egan

Jayne Edwards, Pennaeth y Gwasanaeth, y Rhwydwaith Dysgu ac Arloesi ar gyfer Ysgolion

Karen Evans, Pennaeth Addysg, Cyngor Sir Ddinbych

Colin Everett, Cyngor Sir y Fflint

Bethan Guilfoyle, Grŵp Cynghori'r Gweinidog

Gwella Ysgolion – Cynhadledd Codi Safonau Addysg Cymru, 18 Mawrth 2013

Geraint James, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyfarwyddwr Arweiniol Consortia Rhanbarthol Gogledd Cymru

Nick Jarman, Cyngor Caerdydd

Bryan Jeffries, Consortia Canol De Cymru

Dewi R. Jones, Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd

Dr Gwynne Jones, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Cyngor Sir Ynys Môn

Ann Keane, Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru, Estyn

Arweinwyr awdurdodau lleol yng Nghymru

Chris Llewelyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth, CLILC

Y Cynghorydd Julia Magill, Cyngor Caerdydd

Glyn Mathias, Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Lywodraethu Ysgolion yng Nghymru

Jane Morris, Llywodraethwyr Cymru

Karl Napieralla, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyfarwyddwr Arweiniol Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru

Cynrychiolwyr:

ASCL Cymru

Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru

NAHT Cymru

NASUWT Cymru

NUT Cymru

Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)

Yr Athro David Reynolds, Prifysgol Southampton

Aled Roberts AC

Meilyr Rowlands, Cyfarwyddwr Strategol, Estyn

Panel Ymarferwyr Ysgolion

Y Cynghorydd Aron Shotton, Cyngor Sir y Fflint

Yr Athro Ralph Tabberer

Y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Lywodraethu Ysgolion

Y Cynghorydd Ali Thomas, Llefarydd ar Addysg a'r Gweithlu, CLILC

Simon Thomas AC

Anwen Williams, Cydlynnydd Strategol Consortiwm Addysg Gogledd Cymru

Y Cyngorydd Eryl Wyn Williams, Cyngor Sir Ddinbych